



Y Datganiad Cwricwlwm Gwaith
Ieuenctid ar gyfer Cymru
Pecyn Gwaith
DIBENION GWAITH IEUENCTID
ADDYSGOL
MYNEGIADOL
CYFRANOGOL
GALLUOGOL
CYFLEOEDD CYFARTAL
Cyngor Ieuenctid Cymru
Wales Youth Agency






**Mae Pecyn Gwaith y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru yn adnodd i helpu gweithwyr ieuenctid i ehangu eu dulliau gweithio er mwyn ymateb i'r weledigaeth gyfredol o waith ieuenctid a chynllunio a chofnodi eu gwaith mewn ffordd fwy effeithiol.**

## ❑ Pam mae angen y Pecyn Gwaith?

Mae gwaith ieuenctid yn newid. Ceir mwy o ddisgwyliadau o ran atebolrwydd a chydymffurfio â'r darlun ehangach o wasanaethau i bobl ifanc. Ceir symudiad tuag at wneud y gwaith yng Nghymru yn fwy proffesiynol ac mae pwyslais ar hyfforddiant i ategu arferion yn y gweithle.

Hefyd, mae angen deall rôl gwaith ieuenctid yng nghyd-destun arolygu gwasanaethau i bobl ifanc.

Mae'r dull newydd hwn yn gofyn bod gwaith ieuenctid yn mabwysiadu cyfeiriad trwy ddilyn canllawiau a gynhyrchwyd gan weithwyr ar gyfer gweithwyr gan greu dealltwriaeth ehangach o'r canlynol:

- Dulliau gweithredu'r weledigaeth gyfredol o waith ieuenctid
- Cynllunio a chofnodi eich gwaith




Datganiad y Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar Gyfer Cymru

## Beth yw pwrpas y Pecyn Gwaith?

Roedd y gweithgor am i'r Pecyn Gwaith ateb anghenion gweithwyr o bob math ar draws Cymru, ni waeth am nifer y sesiynau na hyd eu gwasanaeth. Mae’n bosibl bod rhai adrannau’n cynnwys deunydd a fydd yn hysbys iawn i weithwyr hyfforddedig a chymwys, ond gellir defnyddio’r wybodaeth i gyfeirio ati neu i ategu gwaith staff eraill y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae nodau allweddol y pecyn yn cynnwys y canlynol:

- I'w ddefnyddio fel offeryn i ffocysu gwaith ar y Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru
- I alluogi gweithwyr i ategu darpariaeth yn uniongyrchol trwy gynllunio
- I ddarparu nifer o weithgareddau ymarferol parod
- I fod yn adnodd hwylus

## Sut mae gwneud y Pecyn Gwaith yn fwy personol?

Mae’r Pecyn Gwaith ar ffurf plygell agored A4 felo y gellir diweddaru ac ychwanegu deunydd. Mae’n bwysig cynnwys deunydd ychwanegol i adlewyrchu'r awdurdod lleol neu’r rhanbarth lle mae’r gwaith yn digwydd. Gellir gwneud hyn trwy ddarparu gwybodaeth am y canlynol:

- Manylion am Bartneriaethau Pobl Ifanc gan gynnwys enw’r cydlynydd a’r cynllun gweithredu lleol
- Mudiadau ieuenctid a manylion cyswllt
- Cysylltiadau awdurdodau lleol

**Cynnwys**


1.0 Y Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru
A) Defnyddio'r Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru i Gynorthwyo'ch Gwaith
B) Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru - Crynodeb
2.0 Trefnu a Chynllunio Gweithgareddau
3.0 Dysgu Achrededig
4.0 Cronfa Gweithgareddau
5.0 Gweithgareddau Ymarferol
6.0 Adnoddau Defnyddiol
7.0 Geirfa Termau
8.0 Cyfeiriadau Cyswllt


## Sut mae symud y Pecyn Gwaith ymlaen?

Ni ellir gwneud hyn ond trwy gynnwys pob gweithiwr a bydd strategaethau yn eu lle er mwyn sicrhau bod deunydd newydd yn cael ei ychwanegu at y pecyn a’i fod yn cael ei ddiweddaru’n gyson. Mae’r adran bwysig ar ‘Gweithgareddau Ymarferol’ yn gofyn cael cynifer o awgrymiadau â phosibl am ddarparu’r gwaith ac mae’n cynnig cyfle i rannu arfer da yng Nghymru. Darperir dalen lân i wneud hyn.

Ceir hefyd rai meysydd a chyfeiriadau newydd i'w hystyried, gan gynnwys:

- Gwaith ieuenctid cynhwysol a chyfle cyfartal
- Deunyddiau ac adnoddau a geir mewn mudiadau eraill yng Nghymru ond sydd ar gael i eraill

- Fformatau amgen i'w hystyried er mwyn sicrhau bod deunydd yn hygyrch i bawb
- Gwybodaeth gyffredinol am arianni ac enwau cyswllt perthnasol
- Prosiectau Cyfnewid Ieuenctid
- Asesu risg a chynnwys cynlluniau mewn gweithgareddau
- Mynediad i'r Pecyn Gwaith trwy'r wefan a CD ROM

## Barn gweithwyr am y Pecyn Gwaith

Wrth i'r Pecyn Gwaith gael ei lansio dywedodd y gweithwyr:

- Bod y pecyn yn drawiadol ac yn cynnig deunydd o ansawdd uchel i weithwyr
- Bod y pecyn yn ddogfen ymarferol a dibynadwy sy'n edrych yn dda
- Bod y pecyn yn glir a dealladwy
- Y gellir defnyddio'r gweithgareddau mewn ystod o amgylcheddau gwaith ieuenctid
- Y dylai'r pecyn fod ar gael i'w ddefnyddio gan weithwyr gydag ychydig iawn o brofiad



## Sut i geisio copi o'r Pecyn Gwaith

I archebu copi o'r Pecyn Gwaith bydd angen ichi lenwi ffurflen archebu. Bydd hyn yn rhoi hawl ichi dderbyn diweddariadau i ddeunyddiau a gyhoeddir yn ystod y tair blynedd nesaf.

Am ragor o fanylion cysylltwch â:
Cyngor Ieuenctid Cymru, Llys Leslie, Lôn y Llyn, Caerffili CF83 1BQ. Ffôn: 029 20 855700
Gwefan: www.wya.org.uk

# Cynhyrchu'r Pecyn

Mae llawer o weithwyr ar draws Cymru wedi cymryd rhan gyda syniadau a chwestiynau wrth i'r pecyn hwn gael ei ddatblygu; rydym yn gwerthfawrogi eu cymorth. Cynhyrchwyd y pecyn ar ei ffurf bresennol gyda chymorth uniongyrchol y bobl a ganlyn a fu'n rhan o'r Gweithgor:

**Chris Charlton**
Cyngor Sir Penfro

**Simone Davies**
Gwasanaeth Ieuenctid Rhondda Cynon Taf

**Anna Griffiths**
Gwasanaeth Ieuenctid Abertawe

**Mick Holt**
Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint

**Andrew Morris**
Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Caerdydd

**Liz Sharp**
Cyngor Ieuenctid Cymru

**Nadia Stanton**
Gwasanaeth Ieuenctid Bro Morgannwg

**Courtney Taylor**
Cyngor Ieuenctid Cymru

**Christine Watson**
Discovery (Abertawe)

**Emma Duffy**
Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent

Os na roddwyd cydnabyddiaeth briodol, ymddiheurwn. Wrth greu'r pecyn hwn roedd y gweithgor am sicrhau ei fod yn cynnig ffordd o gael manteision ymarferol trwy eich gwaith gyda phobl ifanc. Nid dyma'r unig ffordd, ond dylai gweithwyr allu defnyddio'r pecyn i adeiladu ar sail yr awgrymiadau neu hyd yn oed i ddatblygu eu syniadau eu hunain. Os oes awgrymiadau gennych i wella'r pecyn hwn, rhowch wybod.

Cyngor Ieuenctid Cymru
Llys Leslie, Lôn-y-Llyn
Caerffili CF83 1BQ

Ffôn: 029 20 855700
Ffacs: 029 20 855701
E bost: wya@wya.org.uk
www.wya.org.uk

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

Gellir defnyddio'r pecyn hwn i gynorthwyo eich gwaith gyda phobl ifanc. Dylech ei ategu drwy dderbyn hyfforddiant. Wrth ei lunio roedd gan y gweithgor y nodau a ganlyn:

- Bod yn offeryn i helpu gweithwyr gyda'r Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru
- Egluro termau yn ymwneud â'r gwaith
- Helpu gweithwyr i gynorthwyo darpariaeth eu gwaith eu hunain
- Cynnig cronfa o syniadau defnyddiol
- Cynnig gweithgareddau ymarferol

Y bwriad yw parhau i ychwanegu at y pecyn hwn a'i ddiweddaru trwy ddarparu syniadau ymarferol ychwanegol wrth ichi wneud eich gwaith gyda phobl ifanc.

# Cynnwys


**1.0 Y Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru**
A) Defnyddio'r Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru i Gynorthwyo'ch Gwaith
B) Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru - Crynodeb

**2.0 Trefnu a Chynllunio Gweithgareddau**

**3.0 Dysgu Achredig**

**4.0 Cronfa Gweithgareddau**

**5.0 Gweithgareddau Ymarferol**

**6.0 Adnoddau Defnyddiol**

**7.0 Geirfa Termau**

**8.0 Cyfeiriadau Cyswllt**


© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Y Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Defnyddio'r Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru i Gynorthwyo'ch Gwaith

Defnyddio'r Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru i Gynorthwyo'ch Gwaith

**Y**mgynefino â'r Datganiad;

***Darllen y crynodeb a'r llyfryn***

⇩

**A**dnabod y gwaith yr ydych yn ei wneud yn barod;

***Defnyddio'r offeryn cynllunio a geir yn y Pecyn***

⇩

**R**hestru'r bylchau;

***Pa agweddau sy'n cael eu hepgor neu sy'n wan***

⇩

**C**hwilio am syniadau;

***Edrych trwy'r gronfa o weithgareddau***

⇩

**D**ewis gweithgaredd;

***Defnyddio un o'r gweithgareddau parod i ateb eich anghenion neu lunio eich gweithgaredd eich hun***

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru – Crynodeb

## Rhagarweiniad

Mae gwaith ieuenctid yn cynnwys ystod eang o weithgareddau sy'n ymwneud ag addysg yn ei hystyr ehangaf. Mae gwaith ieuenctid yn ymwneud ag addysg a datblygiad, cymdeithasol a phersonol, pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, yn enwedig rhai 13 i 19 oed.

Un o egwyddorion sylfaenol y gwasanaeth ieuenctid yw ei fod yn seiliedig ar berthynas wirfoddol a ddewisir gan bobl ifanc am eu bod am wneud ac nid oherwydd y gyfraith na dim arall sy'n eu gorfodi i wneud. Mae'r berthynas hon rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid yn wahanol i'r berthynas sydd gan rywun ifanc gydag athro neu athrawes, gweithiwr/wraig cymdeithasol neu riant, dyweder.

Y Datganiad Cwricwlwm yw peiriant y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru ac mae'n rhan annatod o arfer gwaith ieuenctid. Ei nod agored yw cynnig cyfleoedd i bobl ifanc sy'n:

- **Addysgol**
- **Cyfranogol**
- **Galluogol**
- **Mynegiadol**

Darperir y Cwricwlwm mewn ystod eang o amgylcheddau, gan ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau sy'n cynnwys pobl ifanc mewn:


- rhaglenni addysgol anffurfiol a strwythuredig a fydd yn gwella eu datblygiad personol
- lleoedd a pherthnasoedd lle y gallant eu mwynhau eu hunain, teimlo'n ddiogel, yn sicr ac yn werthfawr
- trafod materion yn ymwneud â iechyd, perthnasoedd, ymddygiad a chyfrifoldebau
- dod yn effro i'w hamgylchedd, eu treftadaeth a'u diwylliant cymunedol, lleol a byd-eang
- chwilio am heriadau, cydnabyddiaeth a chyflawniad trwy weithgareddau anturus
- derbyn gwybodaeth a chyngor trwy ddeunydd cyhoeddedig

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

Cyhoeddwyd llyfryn y Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru yn 2002 ac mae'n esbonio pob agwedd ar waith yn fanwl.  Gellir derbyn copïau trwy gysylltu â Chyngor Ieuenctid Cymru.  I grynhoi, prif golofnau'r Datganiad yw:


### Beth a allai ei olygu

Gall addysg ddigwydd mewn amryw o leoedd ac mewn amryw o ffyrdd gwahanol




### Y Datganiad

**Galluogi pobl ifanc i ennill y sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau meddwl a gwerthoedd** angenrheidiol i adnabod, eirioli a dilyn eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel unigolion ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau, yn lleol, yn genedlaethol, ac yn rhyngwladol.




© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

## Beth a allai ei olygu

Pobl ifanc yn mynegi eu syniadau mewn gwahanol ffyrdd




## Y Datganiad

Annog a galluogi pobl ifanc i fynegi eu hemosiynau a'u dyheadau, trwy gyfleoedd creadigol, chwaraeon a heriadau sy'n codi ymwybyddiaeth o'r canlynol:


- hunaniaeth ddiwylliannol
- dwyieithrwydd a gwerth ieithoedd personol
- treftadaeth
- parchu amrywiaeth
- dinasyddiaeth a pharchu pobl eraill



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

## Ei ystyr

Cydweithio




## Y Datganiad

Lle mae pobl ifanc yn cael eu hannog i rannu cyfrifoldeb a dod yn bartneriaid cyfartal, sy'n rhan sylfaenol o'r prosesau dysgu a phenderfyniadau, sy'n effeithio ar eu bywydau a'u hamgylchedd eu hunain a phobl eraill.



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004


## Ei ystyr

Meithrin hunan-barch




## Y Datganiad

Annog a galluogi pobl ifanc i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel y gallant weithredu ar y materion personol sy'n effeithio ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill ac fel dinasyddion atebol yn eu cymunedau.




© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

Yn ogystal, dylai eich gwaith hybu cydraddoldeb i bobl ifanc

Dylai'r gwaith wneud y canlynol:

- herio gormes ac anghydraddoldeb
- hybu derbyn y gwahaniaethau sy'n codi oherwydd hil, hunaniaeth rywiol, rhyw, anabledd, oed, crefydd a dosbarth
- cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'i threftadaeth, ieithoedd eraill a'r diwylliannau amrywiol yng Nghymru

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Trefnu a Chynllunio Gweithgareddau

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

Mae'r Pecyn wedi defnyddio pedwar math o weithgareddau i gysylltu â chroesdoriad o'r cwricwlwm. Sef:

**Dinasyddiaeth**




**Celfyddydau**



**Chwaraeon**




**Iechyd**



Trwy ddefnyddio'r defnyddiau sydd yn y pecyn hwn, gallwch wella eich arfer da mewn gwaith ieuenctid.

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Dwyn y gwaith ymlaen:

Gellir ymestyn y pedwar maes gwaith allweddol hyn i greu dulliau o helpu pobl ifanc gan ddefnyddio'r Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Cymru.

## Dinasyddiaeth:

Mae hwn yn golygu ymwneud pobl ifanc â bywyd a gweithgareddau eu prosiect, y gymuned leol a'u cysylltiad â chymdeithas yn ehangach. Dylai eu gwneud yn fwy hunanhyderus a'u helpu trwy ymwneud â'u cymuned. Dylai helpu pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion gwybodus ac atebol sy'n ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau gan roi gwybodaeth sylfaenol iddynt am egwyddorion democratiaeth a sut y gallant fod yn effeithiol mewn bywyd cyhoeddus ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol.

Gall hyn ddigwydd yn yr amgylcheddau a ganlyn:

**Yr hyn y gallech roi cynnig arno**

**>O FEWN Y PROSIECT**

- Etholiadau Ffug
- Cylchoedd Trafod
- Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Pwyllgorau Aelodau
- Fforymau/Grwpiau Dadlau
- Aelodau'n Rhedeg Gweithgareddau
- Blwch Awgrymiadau
- Wal Siarad

**>YN Y GYMUNED**

- Cyngor Ieuenctid
- Cynrychiolaeth ar y Cyngor Cymuned/Bro
- Gwaith rhwng Asiantaethau
  Gwaith Gwirfoddol
  Gwaith Elusennol
- Effaith ar y Gymuned
- Gwyliau a Thraddodiadau Lleol

**>PYNCIAU LLOSG**

- Pynciau Gwleidyddol
- Cyfraith/Cyfraith Ryngwladol
- Hawliau Dynol
- Masnach/Masnach Deg
- Yr Amgylchedd
- Rhyfel

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

## Celfyddydau

Mae'r Celfyddydau'n offeryn defnyddiol dros ben y gall pobl ifanc ei ddefnyddio er mwyn ymchwilio i'w creadigedd a mynegi eu syniadau eu hunain trwy amryw gyfryngau gwahanol.  Gall fod yn gyfrwng i bobl ifanc ddefnyddio'u dychymyg i greu llawer o wahanol bethau. Gall wella eu cyfleoedd gwaith hefyd.

**Yr hyn y gallech roi cynnig arno**

### >CELFYDDYDAU PERFFORMIO

- D J-io
- Gigio
- Dawns
- Cerdd
- Theatr

### >CELFYDDYDAU GWELEDOL

- Murluniau
- Cynhyrchu Fideos
- Ffotograffiaeth
- Graffiti
- Posteri
- Peintio
- Dylunio Graffig
- Dylunio Gwefannau

### >CREFFTAU

- Torri Lluniau
- Ysgythru
- Gweithgareddau Tymhorol
- Modelu
- Origami

### >PYNCIAU LLOSG

- Celf Fodern
- Hawlfraint
- Celf Wleidyddol
- Arian a'r Celfyddydau
- Sensoriaeth

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Chwaraeon

Mae chwaraeon yn golygu mwy na hwyl a dianc rhag pwysau a diflastod bywyd beunyddiol. Mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer mynegiant corfforol ac emosiynol, ymdeimlad o berthyn, cyflawni ac ymwybyddiaeth i bobl ifanc. Gall chwaraeon wneud bywyd yn fwy o hwyl ac yn iachach i bawb, yn enwedig i bobl ifanc. Mae cymryd rhan yn y math iawn o gystadlu yn bwysig o safbwynt datblygiad a mwynhad yr unigolyn. Gall chwaraeon hamdden fod yr un mor gyffrous.

Gall chwaraeon fod ar sawl fformat. Yn eu plith

**Yr hyn y gallech roi cynnig arno**

### >UNIGOLION/TIMAU

- Gemau Peli
- Gemau Racedi
- Chwaraeon dw^r
- Chwaraeon Eithafol
- Mabolgampau
- Pysgota

### >GWEITHGAREDDAU HAMDDEN

- Gweithgareddau Awyr Agored
- Beicio
- Dartiau
- Chwarae Cardiau
- Gemau Cyfrifiadur
- Gemau Pen Bwrdd

### >GWOBRAU

- Gwobrau Cyflawniad Ieuenctid
- Hyfforddi

### >PYNCIAU LLOSG

- Chwaraeon Gwaed
- Arian a Chwaraeon
- Cyffuriau mewn Chwaraeon
- Anableddau

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Iechyd

Mae iechyd a lles pobl ifanc yn agwedd bwysig ar waith ieuenctid heddiw. Dylai gweithwyr ieuenctid sicrhau eu bod yn hybu iechyd meddwl a chorff pobl ifanc ac yn eu cadw'n ddiogel rhag niwed, perygl a chamdriniaeth. Mae iechyd a lles pobl ifanc yn rhan hanfodol bwysig o unrhyw brosiect ieuenctid. Ceir ystod eang o faterion mewn perthynas â iechyd pobl ifanc y gellir ymchwilio iddynt.

Meysydd i'w hystyried:

## Yr hyn y gallech roi cynnig arno

### >Y CORFF

- Iechyd Rhywiol
- Hylendid
- Camddefnyddio Sylweddau
- Iechyd Corfforol
- Iechyd Meddwl

### >BWYD

- Bwyd Iach
- Coginio [Cogyddiaeth]
- Diet Arbennig

### >CYFATHREBU

- Perthnasoedd
- Hunanddelwedd
- Barn pobl eraill amdanoch
- Eich barn am bobl eraill
- Perthnasoedd Rhywiol
- Teulu a Theuluoedd Estynedig
- Pendantrwydd

### >PYNCIAU LLOSG

- Cynhyrchu Bwyd [Cnydau GM]
- Dulliau Ffermio
- Iechyd Byd-eang
- Camddefnyddio Sylweddau
- Tlodi
- Iechyd Meddwl

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Cynllunio

Wrth ichi gynllunio gweithgareddau rhaid ichi fod yn ymwybodol o'r hyn sydd ei angen a'r hyn a drefnwyd ar gyfer y gweithgaredd. Rhaid cynllunio pob gweithgaredd unigol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael y gorau o'r gweithgaredd sy'n cael ei gynllunio.

Darparwyd y wybodaeth a ganlyn fel y gallwch lunio cwricwlwm cytbwys fel rhan o'ch gwaith ac adnabod cryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth a gynigir gennych.

## CANLLAWIAU AR GYFER CYNLLUNIO CWRICWLWM

- Gellir defnyddio'r dull hwn fel offeryn wrth gynllunio neu adolygu cwricwlwm gyda phobl ifanc a/neu weithwyr ieuenctid.

- Mae'r broses yn gysylltiedig â'r pedair colofn yn y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru.

- Yr hyn sy'n ofynnol:

Pedair dalen wedi'u labelu gydag enwau'r pedair colofn

**ADDYSGOL**

**MYNEGIADOL**

**CYFRANOGOL**

**GALLUOGOL**

36 darn o gerdyn (dalennau A4 wedi'u torri'n bedair)

Llyfryn y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru a thaflen gofnodi

- Rhowch y dalennau (Cyfranogol, Galluogol, Mynegiadol ac Addysgol) ar y llawr (ochr yn ochr mewn rhes) a rhoi naw cerdyn dan bob un ar ffurf diemwnt.

- Ystyried pa rannau o'ch rhaglen sy'n gysylltiedig â'r pedair colofn a llenwi cerdyn ar gyfer pob gweithgaredd neu ddigwyddiad a'i roi'n ôl yn y diemwnt. Gall rhai gweithgareddau berthyn i fwy nag un maes ond dylid ceisio eu rhoi bob amser yn y meysydd sy'n ymwneud yn bennaf â'r gwaith.

- Pan fyddwch wedi llenwi cynifer o gardiau â phosibl, ysgrifennwch y canlyniadau ar y taflenni cofnodi.

- O'ch blaen yn awr bydd gennych holl rychwant eich cwricwlwm; byddwch yn gallu adnabod y bylchau yn eich darpariaeth ac os ydych yn ei adolygu, gallwch ei werthuso er mwyn gweld pa agweddau y mae angen eu datblygu.


- Gallwch ddefnyddio'r pecyn hwn wrth ymgynghori, a gwelwch ganllawiau i ddatblygu eich prosiectau a'ch syniadau.

- Cadwch y taflenni cofnodi a phan fyddwch yn datblygu neu'n ehangu eich cwricwlwm, gallwch ailadrodd y broses.

- Cofiwch mai proses barhaus yw cynllunio cwricwlwm; nid yw byth yn aros yr un peth am ei fod yn seiliedig ar anghenion pobl ifanc.

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Cynllunio'r Cwricwlwm




Wrth gynllunio unrhyw weithgaredd eich man cychwyn bob amser fydd sut mae cwrdd ag anghenion pobl ifanc yn y ffordd orau. Dyma rai anghenion posibl:

AGORED – Pobl ifanc yn nodi eu hanghenion trwy broses dan reolaeth neu foddion eraill.

YMDDANGOSIADOL – Dehongli enghreifftiau allweddol mewn ffordd broffesiynol a datblygu'r gwaith yn ei sgil. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd pobl ifanc yn dweud eu bod am gymryd rhan mewn theatr ar byncian llosg, ond efallai y bydd y gweithiwr yn gweld theatr fel cyfrwng da.

SEFYDLIADOL – Cyrraedd y targedau a osodwyd o fewn y sefydliad. Mae cynnwys pobl ifanc wrth wneud hyn yn dal yn rhan hollbwysig o'r broses gynllunio.

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

Unwaith y byddwch wedi cytuno ar weithgaredd neilltuol, dylech geisio pob cwestiwn yn ei dro.

### 1. Beth rydych chi'n ceisio ei wneud?

Beth yw'r nod cyffredinol wrth gychwyn y gweithgaredd hwn? A yw'r syniad wedi dod gan y bobl ifanc neu gan y gweithwyr? Pam rydych am ei wneud?

### 2. Beth rydych chi'n ceisio ei gyflawni erbyn diwedd y gweithgaredd?

Mae rheswm dilys gennych dros barhau â'r gweithgaredd, felly; beth rydych chi'n ceisio ei gyflawni? Byddwch yn realistig yn eich gobeithion. Bydd y penderfyniadau a wnewch chi ar y cam hwn yn ei gwneud yn bosibl ichi gynllunio at y dyfodol, er enghraifft, i drefnu cyflwyniad i Gynghorwyr.

### 3. Sut rydych yn mynd i'w wneud?

Ceisiwch fod mor glir â phosibl fel bod pawb yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir. Fodd bynnag, os oes gwir angen newid yr hyn yr ydych yn ei wneud, ceisiwch wneud hyn trwy ymgynghori â phawb sy'n cymryd rhan. Dylech roi lle blaenllaw i iechyd a diogelwch bob amser.

### 4. Pa adnoddau [pobl, defnyddiau a phethau] y bydd eu hangen i'w wneud?

Meddyliwch yn ddwys: mae'n bosibl y bydd angen rhywun sy'n gallu gyrru bws mini, neu rywun â phrofiad cymorth cyntaf. Ceisiwch ddefnyddio sgiliau pawb sy'n gweithio gyda chi ond meddyliwch am y bobl eraill sydd wrth gefn.* Cyn ichi gyrraedd y pwynt hwn, byddwch yn ymwybodol o'r sgiliau sydd ar gael. Gall hyn eich helpu i ddewis y gweithgareddau sy'n bosibl o fewn yr adnoddau sydd gennych.

**Ceir rheolau ar wirio pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Gweler adnoddau defnyddiol.*

### 5. Ar ôl gorffen, beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i wneud y gweithgaredd?

Dylai'r bobl sydd wedi cymryd rhan werthuso'u profiadau. Gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd, a allai gynnwys: taflenni gwerthuso, grwpiau trafod, adroddiad ayb. Dylech ddewis y dull mwyaf addas i'ch grŵp. Meddyliwch hefyd a ellir achredu'r gweithgaredd hwn os bydd hynny'n briodol.

### 6. Pa agweddau ar y Datganiad Cwricwlwm sy'n cael eu hateb?

Defnyddiwch eich dealltwriaeth o'r Datganiad i lywio eich gwaith o fewn y pedair colofn. Dylai pob gweithgaredd ymwneud â phob un o'r colofnau i ryw raddau, ond meddyliwch hefyd am ffocws allweddol y gwaith. Er enghraifft, efallai y byddwch am ganiatáu i bobl ifanc eu mynegi eu hunain ond nid yw hyn yn golygu y dylech anwybyddu rhannau eraill o'r Datganiad.

## Cofiwch Iechyd a Diogelwch

Wrth gynllunio unrhyw weithgaredd mae'n bwysig cofio materion iechyd a diogelwch. Peidiwch â gwneud dim sydd y tu hwnt i'ch gallu a cheisiwch ddefnyddio gweithwyr arbenigol hyfforddedig. Un peth pwysig i'w gofio os nad ydych yn sicr am wneud gweithgaredd – PEIDIWCH!

Y rheolau pwysig i'w cofio yw:

- Gwnewch y pethau o fewn eich gallu
- Gwnewch Asesiad Risg
- Penderfynwch pwy sy'n gyfrifol am beth
- Rhaid i bawb gymryd rhan

Cofiwch y rhain bob amser wrth weithio gyda phobl ifanc.

**Ffynonellau gwybodaeth defnyddiol:**

Nicholls, Doug 1997 'Health and Safety in Youth and Community Work – A Resource Manual' Russell House Publishing Limited

Cyngor Ieuenctid Cymru 2003 'Gweithio gyda grwpiau ieuenctid yn y gymuned – dull proffesiynol' Cyngor Ieuenctid Cymru

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Achredu Dysgu

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Achredu Dysgu

Ceir llawer o ddulliau o achredu dysgu gan bobl ifanc. Os bydd y cyfleoedd ar gael, dylai gweithwyr geisio achredu lle bo modd. Tynnwyd, ac addaswyd, yr enghreifftiau a ganlyn o'r 'National Framework of Awards in Non-Formal Educational Settings' a gyhoeddwyd gan y Cyngor Ieuenctid Cenedlaethol ym Mehefin 2003, ac mae copïau llawn ar gael gan y Cyngor.

Rhai awgrymiadau ar achredu gwaith gyda phobl ifanc

## ASDAN - Cynllun Dyfarniadau Ieuenctid

***Prif ffocws y Dyfarniad***

Datblygiad personol, sgiliau byw annibynnol, sgiliau allweddol, dinasyddiaeth, hunan-barch.

***Ystod y gweithgareddau (e.e. 'yn yr ystafell ddosbarth', dysgu yn y gweithle, ar gyfer unigolion neu grwpiau)***

Gwaith 'her' a dysgu gydag unigolion a grwpiau, dysgu yn y gweithle/gwirfoddoli, gweithgareddau cymunedol, diddordebau hamdden, gweithgareddau yn y cartref.

***Cynnwys pobl ifanc mewn penderfynu canlyniad y Dyfarniad (e.e. cynnydd penodedig ar raglen ddysgu, neu gynnydd unigol trwy raglen unigol)***

Negodi cynnydd trwy raglen wedi'i theilwra, gyda chyfleoedd ar gyfer ffocws ar diwtoriaid a/neu hwyluswyr.

***Cwmpas y Dyfarniad (e.e. grŵp targed)***

Pobl ifanc yn yr ystod oedran 13 i 19.

***A yw'r Dyfarniad yn cynnig cyfle i symud rhwng eich dyfarniadau eich hun a dyfarniadau cyrff eraill, neu i symud i lefel uwch?***

Gellir defnyddio'r cynllun Dyfarniadau i achredu gwaith a wneir gyda chyrff eraill. Ceir dilyniant o'r lefel fynediad (Efydd) i lefel 3 (FE3, Dyfarniad Prifysgolion).

***Cost***

Telir y rhain mewn cysylltiad â thystysgrifo mewnol ar bob lefel gyda chost ychwanegol am gymwysterau a gymeradwyir gan y QCA.

***Achredu mewnol neu drwy bartner achredu allanol***

Mae ASDAN yn gorff dyfarnu yn ei hawl ei hun a gydnabyddir gan QCA/CCEA/ACCAC.

***A oes angen i'r person ifanc fod yn aelod o grŵp er mwyn gwneud y dyfarniad, neu a ellir ei wneud yn unigol?***

Gellir gwneud Dyfarniadau ASDAN yn unigol neu mewn grwpiau.

***Disgrifiad o'r Dyfarniad (e.e. y prosesau gofynnol, athrawiaeth, buddiannau i bobl ifanc)***

Mae ASDAN yn cynnig nifer o raglenni, dyfarniadau a chymwysterau ar bob lefel gallu (yn bennaf yn yr ystod oedran 11 i 25 oed). Datblygwyd y rhaglenni hyn a'u rheoli gan athrawon, gweithwyr ieuenctid, darlithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc, ac maent yn cyfuno dysgu trwy weithgareddau â fframwaith ar gyfer datblygu, asesu ac achredu'r sgiliau allweddol a sgiliau personol a chymdeithasol ehangach. Ceir pwyslais ar negodi, cydweithredu a chydnabod cyflawniad.

Mae'r prif Gynllun Dyfarniadau, gyda'i dilyniant o ddyfarniadau (Efydd, Arian, Aur, Dyfarniad Prifysgolion) yn cynnig cyfle dysgu cyfranogol a'r cyfle i ennill dyfarniad ar y lefel briodol.

O fewn y Cynllun Dyfarniadau ceir 'dyfarniadau cyrsiau byr' 60 awr sy'n ffocysu ar elfennau yn y cwricwlwm ac y gellir eu harfarnu dyfarnu tystysgrifau mewnol neu allanol ar eu cyfer. Maent ar gael ar bob lefel o'r cynllun ac maent yn cynnig achrediad mewn:

- Gwirfoddoli ac ymwneud â'r gymuned
- Celfyddydau mynegiannol
- Dinasyddiaeth weithredol
- Gweithgaredd preswyl (gan gynnwys teithiau cyfnewid rhyngwladol)
- Chwaraeon a ffitrwydd
- Dysgu mewn perthynas â gwaith



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

Gellir achredu rhaglenni gan gyrff eraill hefyd gan ddefnyddio cymwysterau ASDAN:

• Sgiliau Allweddol a Sgiliau Allweddol Ehangach

• Sgiliau Bywyd

• Tystysgrif mewn Cynllunio Gyrfa

• Tystysgrif mewn Gwirfoddoli Cymunedol

## Gwobr Dug Caeredin – Efydd, Arian ac Aur

***Prif ffocws y Dyfarniad***

Cysyniad y Dyfarniad yw her unigol sy'n cwmpasu datblygiad personol, hunan ddibyniaeth a chyfrifoldeb amdanoch eich hunan a'r gymuned.

***A yw'n ofynnol i'r person ifanc fod ag unrhyw allu neu gymhwysedd arbennig i gael mynediad i'r Dyfarniad?***

Dim, cyn belled ag y bydd rhwng 14 a 25 oed.

***Ystod y gweithgareddau (e.e. 'yn yr ystafell ddosbarth', dysgu yn y gweithle, ar gyfer unigolion neu grwpiau)***

Pedair adran ar bob lefel, yn ogystal â chyfnod preswyl yn achos y dyfarniad Aur.

Y pedair adran yw:

• Gwasanaeth – i annog gwasanaeth i unigolion a'r gymuned – unigolion fel arfer

• Sgiliau – i annog darganfod a datblygu diddordebau personol a sgiliau cymdeithasol ac ymarferol – unigolion fel arfer

• Ymarfer Corff – i annog cyfranogi a gwella gweithgarwch corfforol – unigolion neu mewn grŵp neu dîm fel arfer

• Teithiau Antur – i annog ymdeimlad o antur a darganfod – paratoi mewn grwpiau bychain a gweithgarwch mewn timau

• Prosiect Preswyl – i ehangu profiad trwy ymwneud â phosib eraill yn ystod cyfnod preswyl

***Cynnwys pobl ifanc mewn penderfynu canlyniad y Dyfarniad (e.e. cynnydd penodedig ar raglen ddysgu, neu gynnydd unigol trwy raglen unigol)***

Rhaglen o ddewis y bobl ifanc gyda'r pedair adran ar bob lefel. Mae pobl ifanc yn cael eu cyfarwyddo a'u mentora gan oedolion. Mae'r dewis a hyblygrwydd y rhaglen o fewn pob adran yn eang iawn ac mae'n darparu ar gyfer pawb. Mae pobl ifanc yn pennu eu her unigol eu hunain gan ddibynnu ar eu man cychwyn neilltuol.

***Cwmpas y Dyfarniad (e.e. grŵp targed)***

Gall pobl ifanc wneud y Dyfarniad yn yr ysgol, y coleg neu'r gwaith, mewn clwb ieuenctid, o fewn mudiad ieuenctid (lle mae'n bosibl gwneud dyfarniad ar y cyd â'r mudiad fel arfer) a hefyd mewn sefydliadau disgyblu.

***A yw'r Dyfarniad yn cynnig cyfle i symud rhwng eich dyfarniadau eich hun a dyfarniadau cyrff eraill, neu i symud i lefel uwch?***

O Efydd ymlaen at lefel Aur. Yn ogystal, gellir ennill cymwysterau adrannol ar bob lefel.

***Lleoliad y ddarpariaeth/gofynion***

Fel arfer ceir man cyfarfod sefydlog ar gyfer hyfforddiant a chyfarwyddyd gan oedolion, ond gall y gweithgareddau ddigwydd mewn amrywiaeth fawr o leoedd yn y gymuned.

***Cost***

Telir am becynnau mynediad a llyfrau cofnodion yn aml gan yr awdurdod sy'n cynnal y rhaglen. Prosesau i benodi cydlynwyr mewn ysgolion a grwpiau ieuenctid a cheisio arian i dalu amdanynt. Cadw llyfrau cofnodion, recriwtio gwirfoddolwyr, a gweithwyr cyflog rhan-amser, prynu/llogi/benthyca deunyddiau ac offer.

***Achredu mewnol ynteu trwy bartner achredu allanol?***

Achredu mewnol.

***A oes angen i bobl ifanc fod yn aelodau o grŵp er mwyn dilyn y Dyfarniad, neu a ellir ei wneud yn unigol?***

Ceir 10,000 o grwpiau ledled y wlad felly mae'n hawdd cysylltu â grŵp lleol i wneud y Dyfarniad.

***A yw'r Dyfarniad yn cael ei gynnig yn genedlaethol?***

Mae Gwobr Dug Caeredin yn gryf ym mhob rhan o'r DU. Ceir swyddfeydd rhanbarthol ar draws Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ceir pwyllgorau

Adran 3.2

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

lleol ar gyfer y Dyfarniad sy'n dod â phartneriaid at ei gilydd yn seiliedig ar ardaloedd llywodraeth leol a siroedd i helpu cynllunio'r Dyfarniad.

***Disgrifiad o'r Dyfarniad (e.e. y prosesau, yr athrawiaeth, y buddiannau i bobl ifanc)***

Mae Gwobr Dug Caeredin yn ceisio darparu rhaglen o ddatblygiad personol i bobl sy'n hwyl ac yn her, o'r ansawdd uchaf a'r cyraeddiadau ehangaf. Yr egwyddorion allweddol yw fod y Dyfarniad: heb fod yn gystadleuol, ar gael i bawb, yn wirfoddol, hyblyg, cytbwys, gyda dilyniant, ac ymdeimlad o gyrhaeddiad personol, yn benodol ac yn hwyl. Mae'r buddiannau i bobl ifanc yn cynnwys, ymhlith eraill, hunan-ymddiriedaeth, hunan-hyder a dealltwriaeth o'u cryfderau a'u gwendidau.

## Geidiaid Cymru (Girlguiding UK)

***Prif ffocws y Dyfarniad (e.e datblygiad personol, sgiliau byw annibynnol)***

1. Gwaith ieuenctid – Hyfforddiant sylfaenol mewn arwain.

2. Her unigol a datblygiad personol mewn pum maes: Gwasanaeth trwy geidio; gweithredu cymunedol; datblygu sgiliau personol; her awyr agored a chyfnod preswyl.

***Oes angen i bobl fod â sgiliau neu fedrau penodol i ennill y Dyfarniad?***

Mae'r dyfarniadau hyn yn agored i unrhyw fenyw ifanc 16 i 25 oed, ni waeth am gred, hil, diwylliant nac unrhyw amgylchiadau eraill, ar yr amod ei bod yn deall ac yn barod i wneud yr Addewid Geidio. I ennill y Cymhwyster Arwain rhaid iddi fod yn barod i arwain grŵp Enfys, Brownie, Geidiaid neu Adran Uwch.

***Ystod y gweithgareddau (e.e. 'yn yr ystafell ddosbarth', dysgu yn y gweithle, fel unigolion neu grwpiau)***

Fel unigolion.

***Cynnwys pobl ifanc mewn penderfynu canlyniad y Dyfarniad (e.e. cynnydd penodedig ar raglen ddysgu, neu gynnydd unigol trwy raglen unigol)***

1. Cynllun modiwlar yw hwn, yn seiliedig ar gymwyseddau lle mae'r fenyw ifanc yn penderfynu'r gweithgareddau y bydd yn eu harwain ac ym mha drefn, trwy ymgynghori â'r merched yn yr uned.

2. Bydd y fenyw ifanc yn dewis heriadau sy'n bersonol eu natur gyda chymorth ei mentor.

***Cwmpas y Dyfarniad (e.e. cleientiaid targed)***

Menywod dros 16 oed.

***A yw'r Dyfarniad yn cynnig cyfle i symud rhwng eich dyfarniadau eich hun a dyfarniadau cyrff eraill, neu i symud i lefel uwch?***

1. Unwaith y byddwch wedi ennill y Dyfarniad Arweiniad, gellir cymryd nifer o gymwysterau mewnol eraill.

2. Gall rhai gweithgareddau gyfrif tuag at ennill Gwobr Dug Caeredin os ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y ddau ddyfarniad.

***Lleoliad y ddarpariaeth/gofynion***

1. Ar draws y DU – ond fe'i gwneir yn y gymuned leol.

2. Bydd hwn yn amrywio gan ddibynnu ar her yr unigolyn, ond bydd yn y gymuned yn bennaf.

***Cost***

1. Fel arfer gellir hawlio ffioedd yn ôl fel treuliau.

2. Bydd costau'n amrywio gan ddibynnu ar natur yr her.

***Achredu mewnol ynteu trwy bartner achredu allanol?***

1. Mewnol – Achrediad y Rhwydwaith Coleg Agored ar Lefel 2.

2. Mewnol – Fe'i cydnabyddir fel dyfarniad uchaf y Geidiaid gan gyflogwyr, colegau ayb.

***A oes angen i bobl ifanc fod yn aelodau o grŵp er mwyn dilyn y Dyfarniad, neu a ellir ei wneud yn unigol?***

I wneud y Cymhwyster Arwain llawn bydd yn rhaid i fenyw ifanc ymgymryd â rôl arweinydd ar grŵp Enfys, 'Brownie', Geidiaid neu Adran Uwch. Gellir dilyn pob cymhwyster arall yn unigol neu drwy ymuno â grŵp.

***Disgrifiad o'r Dyfarniad (e.e. y prosesau, yr athrawiaeth, y buddiannau i bobl ifanc)***

1. Cymhwyster Arwain:

Nod y Cymhwyster Arwain yw helpu menywod ifanc i chwarae rhan weithredol mewn rhedeg grŵp

Adran 3.3

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

ieuenctid. Mae'r Cymhwyster Arwain yn rhoi cyfle i fenywod ifanc ddangos bod sgiliau arwain ymarferol ganddynt, yn ogystal â gwybodaeth am Iechyd a Diogelwch, Diogelu Plant, Cynllunio Rhaglenni ayb.

2. Dyfarniad Geidiaid y Frenhines:

Mae Dyfarniad Geidiaid y Frenhines yn cynnig sawl her sy'n rhoi cyfle i fenywod ifanc roi gwasanaeth cyson i'r gymuned, yn ogystal â datblygu eu sgiliau eu hunain. Mae'r Dyfarniad yn seiliedig ar y cysyniad o her a chyfranogiad personol, ac mae'n creu cyfle i hunan-ddatblygu, gan ffocysu ar y canlynol:

- gwaith tîm
- rheoli amser
- sgiliau trefnu
- cynllunio a gwerthuso
- sgiliau cyfathrebu

***Dyfarniadau eraill***

Enw rhaglen Girlguiding UK i fenywod ifanc 14 i 25 oed yw 'Look Wider'. Rhaglen unigol o ddatblygiad personol yw hon y gellir ei dilyn fel unigolyn neu fel aelod o grŵp. Fe'i rhannwyd yn wyth pwnc:

- Creadigedd
- Ffitrwydd i fyw
- Gweithredu cymunedol
- Byw annibynnol
- Gwerthoedd personol
- Rhyngwladol
- Arweiniad
- Awyr agored

## NOCN ac OCN – y Rhwydwaith Cenedlaethol

Y Rhwydwaith Coleg Agored Cenedlaethol (RhCAC) yw un o'r prif gyrff sy'n darparu gwasanaethau achredu yn y DU. Rhan ganolog o'i ddarpariaeth yw'r gwasanaeth achredu lleol a gynigir gan 28 o Rwydweithiau Coleg Agored (RhCA), y trwyddedir pob un ohonynt gan RhCAC. Rhyngddynt, mae RhCAC a'r RhCA yn achredu rhaglenni a chymwysterau lleol a chenedlaethol i bawb, gan gynnwys pobl ifanc a rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

***Manteision credydau***

Mae dysgu trwy unedau sy'n cynnig credydau yn annog dysgwyr i lwyddo:

- Mae'n darparu talpiau o ddysgu hydrin
- Mae'n osgoi'r ymdeimlad o fethiant trwy sicrhau bod pob dysgu'n cael ei gydnabod
- Mae'n annog dilyniant trwy ddarparu fframwaith lle y gall dysgwyr gronni credydau tuag at ennill cymwysterau cenedlaethol, neu gydnabyddiaeth genedlaethol (megis Mynediad i Addysg Uwch)
- Mae'n sicrhau cyflawniad cyfartal a safonol
- Mae'n hyblyg, gan ei gwneud yn bosibl creu rhaglenni ar sail anghenion dysgwyr
- Mae'n cynnig parch cyfatebol ar draws dyfarniadau

***Rhaglenni lleol a chenedlaethol i bobl ifanc***

Mae'r RhCA ar draws y DU yn cydweithio gyda chyrff lleol a chenedlaethol i achredu amrywiaeth o raglenni i bobl ifanc. Gellir gweld enghreifftiau o raglenni cenedlaethol a achredir gan y RhCA ar wefan y RhCAC: www.nocn.org.uk

## Cymdeithas y Sgowtiaid – Dyfarniad Sgowtiaid y Frenhines

***Prif ffocws y Dyfarniad***

Datblygiad corfforol, deallusol, cymdeithasol ac ysbrydol pobl ifanc.

***Oes angen i bobl fod â sgiliau neu fedrau penodol i ennill y Dyfarniad?***

Nac oes. Gellir cychwyn ar y Dyfarniad ar unwaith wrth i rywun ymaelodi.

***Ystod y gweithgareddau (e.e. 'yn yr ystafell ddosbarth', dysgu yn y gweithle, fel unigolion neu grwpiau)***

Adran 3.4

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

Gall pobl ifanc ddewis gweithgareddau o blith dewis eang, ond rhaid cynnwys un gweithgaredd awyr agored a gweithgareddau gyda phobl eraill.

***Cynnwys pobl ifanc mewn penderfynu canlyniad y Dyfarniad (e.e. cynnydd penodedig ar raglen ddysgu, neu gynnydd unigol trwy raglen unigol)***

Mater i'r unigolyn yw cynllunio'i raglen eu hun, tra'n derbyn cyngor gan oedolion a chyfoedion.

***Cwmpas y Dyfarniad (e.e. cleientiaid targed)***

Gwneir y Dyfarniad gan aelodau Cymdeithas y Sgowtiaid 16 i 25 oed sydd wedi cyrraedd safonau uchel ar draws ystod o weithgareddau.

***A yw'r Dyfarniad yn cynnig cyfle i symud rhwng eich dyfarniadau eich hun a dyfarniadau cyrff eraill, neu i symud i lefel uwch?***

Cyn cwblhau Dyfarniad Sgowtiaid y Frenhines, bydd aelodau'n cael eu hannog i gwblhau'r pum lefel yn Nyfarniad y Prif Sgowt yn ystod eu hamser gyda'r mudiad. Mae'r dyfarniadau i bobl ifanc 14 i 25 oed yn cyd-fynd yn hollol â gofynion Gwobr Dug Caeredin, a gellir gwneud y ddau ddyfarniad yr un pryd.

***Lleoliad y ddarpariaeth/gofynion***

Darperir y Dyfarniad gan Unedau Sgowtiaid Antur a Rhwydweithiau Sgowtiaid ar draws y DU.

***Cost***

Bydd costau'n amrywio rhwng unedau a rhwydweithiau ar draws y DU.

***Achredu mewnol ynteu trwy bartner achredu allanol***

Achredu mewnol trwy Gomisiynwyr lleol.

***A oes angen i bobl ifanc fod yn aelodau o grŵp er mwyn dilyn y Dyfarniad, neu a ellir ei wneud yn unigol?***

Mae'n ofynnol i bobl ifanc fod yn aelodau o Gymdeithas y Sgowtiaid. Rhaid i bobl ifanc 14 i 18 oed ymaelodi ag Uned Sgowtiaid Antur. Gall pobl ifanc 18 i 25 oed gofrestru'n unigol i berthyn i'w Rhwydwaith Sgowtiaid lleol.

***A yw'r Dyfarniad ar gael ar draws y DU?***

Ydyw, mae'r Dyfarniad ar gael ym mhob gwlad ac ym mhob rhan o'r DU.

***Disgrifiad o'r Dyfarniad (e.e. y prosesau, yr athrawiaeth, y buddiannau i bobl ifanc)***

Dilynir Dyfarniad Sgowtiaid y Frenhines dan drefniadau a wnaed gan y Comisiynydd lleol. Hwn yw dyfarniad uchaf Cymdeithas y Sgowtiaid ac mae'r safonau'n seiliedig ar yr ymdrech bersonol orau.

## Ieuenctid y DU – Dyfarniad Cyflawniad Ieuenctid

***Prif ffocws y Dyfarniad Cyflawniad Ieuenctid***

Datblygu ystod o sgiliau personol a chymdeithasol trwy gymryd rhan mewn nifer o Heriadau achrededig.

***Oes angen i bobl fod â sgiliau neu fedrau penodol i ennill y Dyfarniadau hyn?***

Bwriedir y dyfarniadau ar gyfer pobl ifanc 14+ oed. Fe' hanelir at bob gallu, gyda ffocws ar y rhai sydd heb gyflawni'n dda mewn addysg ffurfiol. Yn achos rhai 11 i 14 oed, mae'r rhaglen Her Ieuenctid yn cynnig arweiniad i'r Dyfarniad Cyflawniad Ieuenctid.

***Ystod y gweithgareddau (e.e. 'yn yr ystafell ddosbarth', dysgu yn y gweithle, fel unigolion neu grwpiau)***

Mae'r gweithgareddau'n ffocysu ar ddiddordebau, pryderon a materion o bwys i bobl ifanc mewn perthynas â'u dyfodol, er enghraifft, celfyddydau creadigol a chwaraeon, iechyd, sgiliau byw annibynnol ayb. Ni ragnodir gweithgareddau, sy'n golygu y gellir defnyddio'r Dyfarniadau mewn unrhyw amgylchedd lle mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid o ansawdd.

Mae'r Dyfarniadau wedi bod yn boblogaidd gyda phobl ifanc o bob cefndir. Maent wedi bod o fudd neilltuol i bobl ifanc a siomwyd gan addysg ffurfiol a chynlluniau achredu eraill yn y gorffennol, yn bennaf am fod y Dyfarniadau hyn mor hyblyg a phenagored.

***Cynnwys pobl ifanc mewn penderfynu canlyniad y Dyfarniad (e.e. cynnydd penodedig ar raglen ddysgu, neu gynnydd unigol trwy raglen unigol)***

Mae perchnogaeth y Dyfarniadau Cyflawniad Ieuenctid yn seiliedig ar y grŵp o bobl ifanc sy'n cymryd rhan ynddynt – Grŵp y Dyfarniad fel y'i gelwir. Maent yn



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

cymryd rhan mewn teilwra eu rhaglen eu hunain, gan ddewis gweithgareddau'r Her a llunio portffolio o weithgareddau i gofnodi ac adolygu eu Heriadau.

***A yw'r Dyfarniad yn cynnig cyfle i symud rhwng eich dyfarniadau eich hun a dyfarniadau cyrff eraill, neu i symud i lefel uwch?***

Ydyw. Trwy gynllunio ymlaen llaw a thrwy dderbyn cymorth, gall pobl ifanc deilwra eu Dyfarniad ar lefel Arian neu uwch er mwyn bodloni gofynion cymhwyster Sgiliau Allweddol. Yn yr un modd, gellir defnyddio'r Dyfarniad fel offeryn yn y broses o gynllunio ar gyfer dyfarniadau eraill oherwydd ei bwyslais ar ddysgu trwy'r broses ac nid trwy'r canlyniad.

Lefelau'r Dyfarniad yw Efydd, Arian, Aur a Phlatinwm ac felly maent yn cynnig fframwaith ar gyfer symud ymlaen at lefel uwch. Ceir manylion llawn yn nhaflenni'r Dyfarniadau.

I ennill pob dyfarniad, rhaid ichi gyflawni nifer o Heriadau, yn ogystal â chynllunio, adolygu a chofnodi.

***Lleoliad y ddarpariaeth/gofynion***

Mae rhaglen y Dyfarniadau yn cael ei chynnig ar draws y DU ac fe'i dilynir gan amrywiaeth o grwpiau a chyrff ieuenctid.

***Cost***

Mae'r costau'n cynnwys:

• costau cofrestru yn achos mudiadau sydd â rhagor na 35 o bobl ifanc

• costau cofrestru ar gyfer unedau – mudiadau sydd â llai na 35 o bobl ifanc

• cost unigol ar gyfer pawb sy'n cofrestru

***Sut mae'r rhaglen yn cael ei hachredu?***

Achredir y Dyfarniad trwy ASDAN, sy'n cael ei gydnabod fel corff dyfarnu gan y QCA.

***A oes angen i bobl ifanc fod yn aelodau o grŵp er mwyn dilyn y Dyfarniad?***

Oes. Mae'r Dyfarniad Cyflawniad Ieuenctid yn annog gweithio mewn grwpiau gyda phobl ifanc. Rhaid i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn clwb neu brosiect sydd wedi'i gofrestru gydag Ieuenctid y DU.

***Disgrifiad o'r Dyfarniad (e.e. y prosesau, yr athrawiaeth, y buddiannau i bobl ifanc)***

Ers iddynt gael eu lansio, mae'r Dyfarniadau hyn wedi tyfu'n aruthrol. Fe'u defnyddir erbyn hyn gan dros 900 o brosiectau ieuenctid ar draws y DU, gan gynnwys rhagor na dwy ran o dair o'r AALlau yn Lloegr.

Anelir y Dyfarniadau Cyflawniad Ieuenctid at bob person ifanc 14+ oed. Mae Ieuenctid y DU yn gweithio gydag ASDAN hefyd i ddarparu rhaglen o'r enw Heriadau Ieuenctid (Youth Challenges) ar gyfer rhai 11 i 14 oed, sy'n cynnig arweiniad i'r Dyfarniadau Cyflawniad Ieuenctid yn 14+ oed. Mae'r ddau fath o ddyfarniad yn unigryw, am eu bod yn achredu gweithgareddau y mae pobl ifanc eisoes yn cymryd rhan ynddynt sy'n berthnasol i'w diddordebau, eu pryderon a'u dyfodol.

Gall pobl ifanc gymryd rhan mewn nifer o Heriadau, gan ddibynnu ar lefel y Dyfarniad. Mae pob Her yn golygu o leiaf 15 awr o waith, yn ogystal â chynllunio, adolygu a chofnodi. Cofnodir pob Her gan y person ifanc a'i hadolygu wedyn gan gyfoedion yng nghorff dyfarnu'r bobl ifanc.

Mae'r Dyfarniadau'n darparu fframwaith ar gyfer canlyniadau dysgu sy'n cael eu datgan yn glir gan y bobl ifanc ac a gydnabyddir gan bobl ifanc eraill. Bydd y canlyniadau hyn, wrth gwrs, yn amrywio gan ddibynnu ar y bobl ifanc a lefel y Dyfarniad, ond byddant yn cynnwys y canlynol:

• cymryd mwy a mwy o gyfrifoldeb am gynllunio a darparu gweithgareddau, yn enwedig addysg dan arweiniad cyfoedion.

• datblygu sgiliau cynorthwyo a monitro cyfoedion.

• dysgu a sgiliau cymdeithasol a/neu wleidyddol: deall a dysgu cyfrannu at brosesau penderfynu, ymwybyddiaeth gymdeithasol a diwylliannol, gwerthfawrogi profiad pobl eraill ayb.

## Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC) – Proffil Sgiliau

***Prif ffocws y Dyfarniad***

Datblygiad personol, ymwneud â'r gymuned, profiad gwaith a phob un o'r chwech o Sgiliau Allweddol

***Oes angen i bobl fod â sgiliau neu fedrau penodol i ennill y Dyfarniadau hyn?***

Nac oes



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

***Ystod y gweithgareddau (e.e. 'yn yr ystafell ddosbarth', dysgu yn y gweithle, fel unigolion neu grwpiau)***

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys gwaith yn yr ystafell ddosbarth, lleoliadau gwaith ac ymwneud â'r gymuned. Gallai hwn gynnwys gweithgareddau gwirfoddol y tu allan i'r ysgol/coleg. Bwriedir i'r Dyfarniad fod yn hyblyg iawn ac mor gynhwysfawr â phosibl. Cynhwysir pobl ifanc o ran penderfynu canlyniad y Dyfarniad (e.e. cynnydd gosodedig ar raglen ddysgu, neu negodi cynnydd trwy raglen benodedig).

Am fod yr opsiynau sydd yn yr unedau yn amrywiol ac yn cynnwys gweithgareddau yn y dosbarth a phrofiad gwaith, byddant yn gofyn peth negodi gyda disgyblion. Mae'r cynllun yn hyblyg iawn a'r nod yw ei addasu i ateb anghenion disgyblion unigol.

***Cwmpas y Dyfarniad (e.e. cleientiaid targed)***

Am fod y cynllun yn hyblyg iawn nid oes ystod oedran neilltuol, ond fe'i bwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer disgyblion blynyddoedd 10 ac 11 yn yr ysgol, h.y. rhai 14 i 16 oed. Fodd bynnag, mae'n gweithio fel Lefel Mynediad i'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.

***A yw'r Dyfarniad yn cynnig cyfle i symud rhwng eich dyfarniadau eich hun a dyfarniadau cyrff eraill, neu i symud i lefel uwch?***

Amcan canolog y Dyfarniad yw helpu pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion effeithiol a chwarae rôl gadarnhaol mewn cymdeithas. Ar y llaw arall, nod methodoleg a chynnwys y Dyfarniad hwn yw cynorthwyo ac annog disgyblion i ystyried ac ennill dyfarniadau a chymwysterau eraill, ar y lefel nesaf, o bosibl.

***Lleoliad y ddarpariaeth/gofynion***

Mae hwn yn hyblyg gan ddibynnu ar gyfleusterau ac adnoddau. Bydd yr uned profiad gwaith yn gofyn cysylltiadau â chyflogwyr. Gellir ei darparu mewn amrywiaeth o adleoliadau gan unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

***Cost***

Ffi gofrestru a ffi dystysgrif ar gyfer pob disgybl.

Achredu mewnol neu ddilysu allanol.

***A oes angen i bobl ifanc fod yn aelodau o grŵp er mwyn dilyn y Dyfarniad, neu a ellir ei wneud yn unigol?***

Ystyried y Proffil yn bennaf fel Dyfarniad sy'n cydnabod yr unigolyn yng nghyd-destun gwaith a wneir mewn grŵp, ond mae'n bosibl gweithio'n unigol, er bod angen rhywfaint o oruchwyliaeth ac arweiniad, yn enwedig yn yr uned profiad gwaith.

***A yw'r Dyfarniad yn cael ei gynnig ar draws y DU?***

Corff dyfarnu cenedlaethol yng Nghymru yw CBAC, sy'n cynnig portffolio helaeth o gymwysterau. Mae'r cymwysterau'n cael eu defnyddio erbyn hyn mewn rhagor na 2000 o ganolfannau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

***Disgrifiad o'r Dyfarniad (e.e. y prosesau, yr athrawiaeth, y buddiannau i bobl ifanc)***

Prif nod y Dyfarniad hwn yw galluogi'r dysgwyr hynny, nad yw'r trefniadau arholi a thystysgrifo fel arfer yn eu cyffwrdd, i gymryd rhan. Caniateir i ddyfarnu unedau'r Dyfarniad yn unigol. Gan annog dysgwyr i gronni eu cyflawniadau.

Yr athrawiaeth sylfaenol yw cynhwysiant a llwyddiant. Bwriedir i'r Proffil Firstskills fod yn hygyrch i ystod eang o ddysgwyr gan gynnwys pobl ifanc ac oedolion sydd ag amrywiaeth o anghenion dysgu y mae'r arholiadau a'r cymwysterau presennol naill ai'n anymarferol neu'n amhriodol iddynt; neu sydd mewn perygl o golli cysylltiad â chyfleoedd dysgu. Y bwriad hefyd yw cynnig pob cyfle i ddysgwyr deimlo anogaeth i fod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain.

Mae'r Dyfarniad yn darparu rhaglen hyblyg, sy'n seiliedig ar gyd-destunau ymarferol a chymdeithasol pob dydd. Y bwriad yw iddi gynorthwyo unigolion i ennill rhyw fath o gydnabyddiaeth am eu cyflawniadau, mewn partneriaeth gyda'r darparwyr. Y bwriad yw iddo ddatblygu ystod o sgiliau mewn cyd-destunau ystyrlon a pherthnasol.

Sylfaen y cwrs hyblyg hwn yw unedau. Mae'n seiliedig ar y canlynol:

• dewis rhydd wrth ddethol unedau.

• Asesu, a phroffiliau ar ddiwedd yr unedau yn seiliedig ar gwblhau tasgau yn llwyddiannus.



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

Ceir 22 o unedau ar hyn o bryd. Sef:

- Myfi ac Eraill
- Byw'n Iach
- Helpu Eraill
- Rheoli Fy Arian
- Meddwl am Hamdden
- Paratoi ar gyfer Gwaith
- Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle
- Profiad Gwaith Ymarferol
- Gweithio mewn Garej
- Gweithio ar Fferm
- Cynorthwy-ydd Siop
- Sgiliau Prosesu Geiriau
- Sgiliau Rhyngrwyd ac E-bost
- Sgiliau Cronfeydd Data
- Creu Cyhoeddiad
- Trefnu Gweithgaredd
- Trefnu Fy Amser
- Trefnu Gwyliau
- Rhedeg Cartref
- Cadw Cerbyd
- Profiad Preswyl
- Rhedeg Menter



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Gweithgareddau

Adran 4.0

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Gweithgareddau

| Gweithgaredd | Cynnwys Posibl | Maes Gwaith |
|---|---|---|
| Pendantrwydd | Pobl ifanc yn datblygu sgiliau i'w galluogi i wynebu heriadau yn eu bywydau | Iechyd |
| Athletau | Ystod o weithgareddau trac a maes | Chwaraeon |
| Gemau Pêl | Ystod o weithgareddau yn defnyddio pêl y gellir eu trefnu ar gyfer pobl ifanc | Chwaraeon |
| Chwaraeon Gwaed | Adnabod y pynciau sy'n ymwneud â chwaraeon yn y categori hwn | Chwaraeon |
| Gemau Bwrdd | Defnyddio gemau cyfarwydd yn draddodiadol, neu mewn ffordd ddyfeisgar. | Chwaraeon |
| Sensoriaeth | Edrych ar faterion yn ymwneud â'r celfyddydau. Er enghraifft, cerdd. | Celfyddydau |
| Hyfforddi Chwaraeon | Ennill tystysgrifau hyfforddi trwy ddulliau profedig | Chwaraeon |
| Cynrychiolaeth ar Gyngor Cymuned/Bro | Cynorthwyo rhywun ifanc i fynegi barn yng nghyd-destun gwleidyddiaeth gymunedol | Dinasyddiaeth |
| Gemau Cyfrifiadur | Gweithgareddau heriol ac addysgol | Chwaraeon |
| Coginio | Annog pobl ifanc i ofalu amdanynt eu hunain | Iechyd |
| Hawlfraint | Deall ei hystyr a rhai o'r goblygiadau | Celfyddydau |
| Gwyliau a Thraddodiadau | Dysgu pobl ifanc i ddeall traddodiadau eraill y tu allan i'w cymunedau | Dinasyddiaeth |
| Beicio | Gweithgareddau hwyl a chorfforol | Chwaraeon |
| Dawns | Dulliau o hybu dawns mewn clwb neu brosiect | Celfyddydau |
| Dartiau | Gemau i grwpiau ar fwrdd dartiau | Chwaraeon |
| Fforwm/Grŵp Trafod | Dull o drafod pwnc 'llos' y dydd neu gyfarfod mwy rheolaidd | Dinasyddiaeth |
| Découpage | Defnyddio'r gelfyddyd boblogaidd hon | Celfyddydau |
| Anableddau a Chwaraeon | Adnabod y pynciau pwysig o ran cynhwysiant | Chwaraeon |



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

| Gweithgaredd | Cynnwys Posibl | Maes Gwaith |
|---|---|---|
| Cylchdeithiau Trafod | Dull o ddysgu pobl ifanc i leisio barn ar bwnc neilltuol | Dinasyddiaeth |
| D J | Dulliau o hybu'r gweithgaredd hwn gydag adnoddau cyfyngedig | Celfyddydau |
| Cyffuriau a Chwaraeon | Adnabod rhai o'r pynciau | Chwaraeon |
| Naddu | Gweithgaredd ymarferol a all gynnwys naddu gwydr | Celfyddydau |
| Amgylchedd | Annog ymateb cadarnhaol i'r amgylchfyd gan bobl ifanc | Dinasyddiaeth |
| Chwaraeon Eithafol | Yr hyn sy'n cael ei wneud a rhai o'r dadleuon, yn enwedig o ran diogelwch | Chwaraeon |
| Teulu a Theuluoedd Estynedig | Ymchwilio i berthynas y teulu a phobl ifanc | Iechyd |
| Dulliau Ffermio | Adnabod y cwestiynau sy'n codi wrth ddefnyddio gwahanol ddulliau ffermio | Iechyd |
| Pysgota | Gweithgaredd i grwpiau yn ymwneud â'r diddordeb hamdden mwyaf poblogaidd ym Mhrydain | Chwaraeon |
| Cynhyrchu Bwyd (Cnydau GM) | Ymchwilio i gwestiynau cynhyrchu bwyd a pham mae pobl yn dal i newynu | Iechyd |
| Gig | Trefnu digwyddiad i hybu doniau cerddorol | Celfyddydau |
| Graffiti | Fel celfyddyd, i wella'r amgylchedd | Celfyddydau |
| Graffeg | Celfyddyd ysgrifennu, addurno, argraffu ayb. ar gyfryngau gwastad. Yn ymwneud â graffeg gyfrifiadurol hefyd | Celfyddydau |
| Bwyta'n iach | Dulliau o wella deiet pobl ifanc | Iechyd |
| Sut mae pobl eraill yn eich gweld | Gweithio gyda phobl ifanc i ystyried sut y gall pobl eraill edrych ar eu gweithrediadau | Iechyd |
| Hawliau Dynol | Ymwybyddiaeth o hawliau a chyfrifoldebau. Edrych ar faterion llosg yn y byd | Dinasyddiaeth |
| Hylendid | Gweithio i wella safonau hylendid personol | Iechyd |
| Effaith ar y Gymuned | Adnabod ffyrdd i bobl ifanc gael effaith gadarnhaol | Dinasyddiaeth |
| Gwaith rhwng asiantaethau – Gwaith gwirfoddol, gwaith dros elusennau | Cynorthwyo gyda gwaith cyrff eraill megis Oxfam trwy weithio'n wirfoddol | Dinasyddiaeth |

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

| Gweithgaredd | Cynnwys Posibl | Maes Gwaith |
|---|---|---|
| Theatr ar Faterion | Ymchwilio i fater llosg trwy theatr. Gall gynnwys gweithio gyda chwmni theatr yn y gymuned | Celfyddydau |
| Cyfraith/Cyfraith Ryngwladol | Gwneud pobl ifanc yn ymwybodol o ddeddfau a all effeithio arnynt. Trafod materion mewn perthynas â deddfau | Dinasyddiaeth |
| Pwyllgorau Aelodau | Grŵp etholedig o bobl ifanc sy'n cynorthwyo gyda gwaith y ganolfan neu'r prosiect | Dinasyddiaeth |
| Aelodau'n Rhedeg gweithgareddau | Dulliau o gynnwys pobl ifanc mewn rhedeg gweithgareddau | Dinasyddiaeth |
| Iechyd Meddwl | Codi ymwybyddiaeth o'r maes allweddol hwn. Gellir cynnwys pynciau cymhleth megis anorecsia a hunanladdiad ymhlith pobl yn eu harddegau | Iechyd |
| Etholiadau Ffug | Hybu dealltwriaeth o'r broses etholiadol | Dinasyddiaeth |
| Gwneud Modelau | Gwneud modelau tri-dimensiwn, o glai neu blastisîn fel arfer | Celfyddydau |
| Celf Fodern | Edrych ar faterion yn ymwneud â dehongli a chynhyrchu celf fodern | Celfyddydau |
| Arian a'r Celfyddydau | Edrych ar faterion megis noddi'r celfyddydau, e.e. pam y dylai cymaint o arian gael ei wario ar opera? | Celfyddydau |
| Arian a Chwaraeon | Edrych ar y materion | Chwaraeon |
| Murluniau | Cynllunio a chwblhau murlun yn y prosiect neu'r gymuned | Celfyddydau |
| Cerdd | Defnyddio cerdd mewn gwahanol ffyrdd, a allai gynnwys sgrifennu caneuon | Celfyddydau |
| Origami | Plygu papur i wneud modelau cywrain | Celfyddydau |
| Gweithgareddau Awyr Agored | Trefnu gweithgareddau | Chwaraeon |
| Paentio | Defnyddio paentio fel cyfrwng i fynegi pwnc arbennig | Celfyddydau |
| Ffotograffiaeth | Tynnu lluniau fel y gall pobl ifanc gael gwell dealltwriaeth o'u cymuned. Ennill sgiliau mewn datblygu cemegol a chopïo digidol | Celfyddydau |
| Iechyd Corfforol | Rôl ymarfer corff o ran cynnal iechyd a lles y corff | Iechyd |
| Cardiau Chwarae | Gweithgareddau arloesol a hwyl | Chwaraeon |



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

| Gweithgaredd | Cynnwys Posibl | Maes Gwaith |
|---|---|---|
| Agendau Gwleidyddol | Edrych ar safbwyntiau ar faterion cyfoes. Gall hyn gynnwys wahodd cynghorwyr i gymryd rhan mewn dadl | Dinasyddiaeth |
| Celf Wleidyddol | Ymwybyddiaeth o sut y gellir defnyddio celf i ddibenion gwleidyddol. Er enghraifft, defnyddio cartwnau gwleidyddol | Celfyddydau |
| Posteri | Sgiliau wrth gynhyrchu posteri i hyrwyddo digwyddiad | Celfyddydau |
| Tlodi | Effeithiau tlodi ar gyfleoedd mewn bywyd ac ar iechyd pobl ifanc. Rhai achosion cymdeithasol | Iechyd |
| Gemau Raced | Ystod o weithgareddau i gynorthwyo gwaith gyda phobl ifanc. Gall hyn gynnwys badminton neu dennis. | Chwaraeon |
| Gweithgareddau Tymhorol | Cysylltu'r flwyddyn â gweithgaredd. Gallai hyn gynnwys gwneud cardiau ar Wyl Ffolant neu ymwybyddiaeth o wyliau arbennig. | Celfyddydau |
| Hunanddelwedd | Edrych ar hunanddelwedd pobl ifanc, adnabod dulliau o'i gwella a gwella ansawdd bywyd | Iechyd |
| Iechyd Rhywiol | Edrych ar strategaethau i wella iechyd rhywiol | Iechyd |
| Perthnasoedd Rhywiol | Cynorthwyo pobl ifanc i ddeall eu teimladau yn y maes hwn | Iechyd |
| Diet Arbennig | Rôl diet arbennig o ran cynnal iechyd | Iechyd |
| Camddefnyddio Sylweddau | Effeithiau defnyddio sylweddau yn amhriodol a lleihad niwed | Iechyd |
| Blwch Awgrymiadau | Blwch lle mae pobl ifanc yn cael postio eu sylwadau ar y gwaith sy'n mynd ymlaen | Dinasyddiaeth |
| Wal Siarad | Wal lle mae pobl ifanc yn cael postio eu sylwadau neu eu hawgrymiadau am y gwaith sy'n mynd ymlaen | Dinasyddiaeth |
| Masnach/ Masnach Deg | Sut mae masnach yn y Gorllewin yn effeithio ar fasnach fyd-eang. Adnabod dulliau o gefnogi masnach deg | Dinasyddiaeth |
| Cynhyrchu Fideos | Ennill sgiliau wrth wneud fideo/DVD am bwnc. Gellid cysylltu hyn â meysydd eraill megis drama | Celfyddydau |
| Rhyfel | Edrych ar ystod o faterion yn ymwneud â rhyfel | Dinasyddiaeth |
| Chwaraeon dŵr | Ystod o weithgareddau i gynorthwyo gwaith gyda phobl ifanc. Gall hyn gynnwys nofio a chanŵio | Chwaraeon |



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

| Gweithgaredd | Cynnwys Posibl | Maes Gwaith |
|---|---|---|
| Dylunio Gwefan | Ennill sgiliau dylunio a chreu gwefan | Celfyddydau |
| Iechyd Byd-eang | Rôl pobl ifanc yn y maes cymhleth hwn | Iechyd |
| Eich barn am bobl eraill | Sut mae pobl ifanc yn gweld pobl eraill e.e. rhieni, pobl mewn oed. Adnabod strategaethau cadarnhaol | Iechyd |
| Dyfarniadau Cyflawniad Ieuenctid | Adnabod cyflawniadau pobl ifanc trwy weithgareddau (Mae'r dyfarniadau hyn yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau) | Chwaraeon |
| Cyngor Ieuenctid | Grŵp o bobl ifanc sydd am gyfrannu at y pethau sy'n effeithio arnynt | Dinasyddiaeth |

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Gweithgareddau Ymarferol

Adran 5.0

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Dinasyddiaeth

## Etholiadau Ffug:

### Beth rydych chi'n ceisio ei wneud?

Ymchwilio i sut mae'r penderfyniadau sy'n effeithio ar reolau cymdeithas yn cael eu gwneud a sut y gellir eu newid.

### Beth rydych chi'n ceisio'i gyflawni yn y pen draw?

Rhoi cyfle i bobl ifanc ennill sgiliau a gwybodaeth am brosesau llywodraethau democrataidd.

Cymharu fel mae cenhedloedd gwahanol yn defnyddio dulliau gwahanol i lywodraethu eu pobl eu hunain.

### Sut rydych yn mynd i'w wneud?

Cychwyn trwy ddarganfod pwnc a all fod o ddiddordeb i'ch grŵp. Gallai hwn fod yn rhywbeth cyfoes, neu gallwch roi cynnig ar un o'r pynciau profedig y gall pobl bleidleisio arno. Er enghraifft, newid rheolau'r clwb ieuenctid, sefydlu Fforwm Ieuenctid, penderfynu sut mae'r arian yn cael ei wario yn y clwb ieuenctid, ethol aelodau i gynrychioli'r clwb ieuenctid yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli. Neu, gellir dewis pwnc cenedlaethol y gall fod pobl ifanc â theimladau cryfion yn ei gylch e.e. cyfyngiadau oedran ar bleidleisio, caniatâd i yfed alcohol neu smygu. Mae pwnc y mae gan bobl ifanc farn amdano yn llawer mwy tebygol o weithio'n dda.

Esbonio'r termau mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r canlynol, gan roi enghreifftiau syml:

- Cynrychiolaeth gyfrannol
- Un person, un bleidlais
- Rôl y swyddog etholiadol
- Rheolau ar ymgyrchu
- Cyfarfodydd etholiadol
- Sut i gael eich enwebu
- Pleidleisiau cudd
- Llunio maniffesto
- Sut i gael eich enw ar y rhestr etholwyr ayb.

### Pa adnoddau sydd eu hangen?

Mae hyn yn dibynnu'n fawr ar eich grŵp, ond dyma fan cychwyn.

Papur a pheniau, oni bai eich mynd i bleidleisio trwy godi llaw.

Blwch pleidleisio (mae hen focs creision yn berffaith)

Deunyddiau i'r ymgeiswyr eu defnyddio i gyflwyno eu syniadau.

### Beth sydd wedi digwydd o ganlyniad?

Bydd dull mwy democrataidd o wneud penderfyniadau'n codi. Bydd pobl ifanc yn dechrau bod yn fwy atebol am eu bywydau eu hunain.

### Pa rannau o'r cwricwlwm sy'n cael eu cynnwys?

Bydd y prif ffocws ar alluogi pobl ifanc a rhoi cyfrwng cadarnhaol iddynt fynegi barn.

**Addysgiadol:** rhoi dealltwriaeth o'r broses etholiadol i bobl ifanc

**Mynegiannol:** caniatáu i bobl ifanc fynegi eu meddyliau

**Cyfranogol:** mae pawb yn cael cyfle i gymryd rhan

**Galluogol:** mae pawb yn cael cyfle i leisio barn



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Dinasyddiaeth

## Cylch Trafod

### Beth rydych yn ceisio'i wneud?

Ymgynghori gyda phobl ifanc ar weithgareddau mae'r aelodau am eu gwneud.

### Beth rydych yn ceisio'i gyflawni erbyn diwedd y gweithgaredd hwn?

Cyfranogi cadarnhaol gan bobl ifanc yn ystod y sesiynau ymgynghori. Bydd hyn yn dibynnu ar y pynciau a ddewiswyd, a all gynnwys gweithgareddau mae'r aelodau am eu gwneud neu sut i fynd i'r afael â phroblem sbwriel y tu allan i'r prosiect. A yw hyn yn golygu y bydd yn rhaid iddynt godi sbwriel os nad ydynt yn cael dewis eu prosiect eu hunain?

### Sut mae mynd ati?

Mae cylchdeithiau trafod yn un ffordd o gyflwyno pob aelod o'r prosiect ieuenctid ac mae'n rhoi cyfle iddynt ddweud gair am bwnc arbennig. Ceir potensial mawr yma i ddatblygu syniadau, a dydd yn arwain at wneud penderfyniadau yn y grŵp.

Dylid meddwl yn gyntaf am bwnc i'w drafod. Er enghraifft 'Nid yw'r cyfryngau byth yn rhoi darlun teg o bobl ifanc'.

Mae gan y bobl sy'n cymryd rhan funud i ystyried eu barn am y pwnc hwn, a munud arall wedyn i egluro eu barn wrth y person gyferbyn. Mae'r cylchoedd mewnol ac allanol yn gwneud hyn yn eu tro fel bod pawb yn cael cyfle i siarad a gwrando.

Gellir symud y cylch allanol ychydig leoedd i'r chwith neu'r de wedyn, gan wirio bod pawb mewn pâr newydd. Gellir pleidleisio ar y pwnc hwn yn y ddau gylch rhwng y symud er mwyn gweld a yw'r farn wedi newid. Y dasg nesaf fydd egluro'r farn a glywodd pawb – a'ch barn eich hun wedyn – fel bod pedair barn i'w hystyried.

### Pa adnoddau sydd eu hangen?

Deg neu ragor o bobl ifanc. Lle addas, siart troi, peniau, cadeiriau.

### Beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i hyn?

Bydd pobl ifanc wedi cael cyfle i leisio barn fel unigolion. Gall hyn orfodi neu berswadio pobl i newid eu barn. Gall helpu i wneud penderfyniadau mewn grŵp. Mae'n dda o ran meithrin sgiliau gwrando. Mae'n dda fel gweithgaredd datblygu i drafod pwnc yn fanwl.

### O ganlyniad i hyn beth fydd yn digwydd nesaf?

Gall pobl ifanc deimlo eu bod yn berchen ar y penderfyniadau a wnaed. Gallant deimlo hefyd yn fwy parod i leisio barn bersonol.

### Pa rannau o'r cwricwlwm sy'n cael eu cwmpasu?

Y prif ffocws fydd rhoi cyfle i bobl ifanc chwarae rhan lawn yn y broses o benderfynu a chaniatáu iddynt fynegi barn.

**Addysgiadol:** Dysgu gan gyfoedion am eu syniadau

**Mynegiannol:** Rhoi cyfle i bobl ifanc ddweud eu dweud

**Cyfranogol:** Mae pawb yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan

**Galluogol:** Mae pawb yn cael gwrandawiad a chyfle i ymhelaethu



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Dinasyddiaeth

## Dinasyddion Byd-eang: Gweithgaredd Globingo

### Beth rydych chi'n ceisio ei wneud a pham?

Dyma weithgaredd hwyliog sy'n ymchwilio i'r dylanwadau byd-eang ar fywydau pobl ifanc yng Nghymru.

### Beth rydych yn ceisio'i gyflawni erbyn diwedd y gweithgaredd hwn?

Erbyn diwedd y gweithgaredd bydd y bobl ifanc wedi deall eu bywydau mewn cyd-destun rhyngwladol. Trwy fyfyrio am y nwyddau a brynant, eu chwaetha'u diddordebau, dylanwad y cyfryngau arnynt, a'r cyswllt personol neu deuluol sydd ganddynt â rhannau eraill o'r byd, byddant yn darganfod nad yw'r byd yn 'rhywle arall' ond yn rhan o'u bywyd pob dydd. Hoffi hynny neu beidio maent yn ddinasyddion byd-eang ac ar sail y gweithgaredd rhagarweiniol hwn efallai y byddwch am symud ymlaen at feddwl am y goblygiadau i'w dyfodol ac i ddyfodol y byd.

### Sut rydych yn mynd i'w wneud?

Gall y gweithgaredd hwn fod yn sesiwn blasu sy'n para am 20-30 munud neu gall fod yn rhagarweiniad i brosiect yn ymchwilio i'r materion sy'n dod i'r golwg yn fanylach. Fel unigolion neu mewn parau gallant lenwi'r daflen Globingo (ynghlwm) trwy gasglu llofnodion a gwledydd cyfatebol y bobl eraill yn y grŵp. Mewn grŵp o ddeg neu ragor dylai fod yn bosibl casglu pob llofnod unwaith yn unig. Dylai'r unigolyn neu'r pâr cyntaf i lenwi'r ddalen weiddi bingo a bydd y gweithgaredd yn dod i ben. Wrth roi adborth, gofynnwch i'r bobl ifanc enwi'r holl wledydd sydd ganddynt ar eu taflenni bingo. Cofnodwch y rhain trwy lynu dotiau ar fap o'r byd. Meddyliwch am faint y dylanwad ar y grŵp hwn o bobl ifanc, ac am effaith y grŵp hwn ar y byd (h.y. nifer y dotiau a nifer y gwledydd).

### Pa adnoddau sydd eu hangen?

Taflenni Globingo a pheniau, digon i un bob un. Map o'r byd. Dotiau gludiog.

### O ganlyniad i hyn, beth sydd wedi digwydd?

Bydd gan bobl ifanc ddealltwriaeth ehangach o'r dylanwadau diwylliannol ar eu bywydau. Mae'n bosibl y byddant am fynd ymlaen i ymchwilio i'r pynciau ehangach sy'n rhan o'u rôl.

### Sut mae'n cyd-fynd â'r cwricwlwm?

Mae'r Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru yn sôn am 'alluogi pobl ifanc i ennill sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd angenrheidiol i eirioli a cheisio eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel unigolion ac aelodau o grwpiau a chymunedau, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol'. Mewn geiriau eraill, nid yw'r pethau sy'n llunio bywydau pobl ifanc heddiw yn peidio wrth gyrraedd y ffiniau rhwng gwledydd. Mae cysylltiad annatod rhwng eu bywydau a'r hyn sy'n digwydd yng ngweddill y byd. Mae ein dull o ymateb i'r byd cyfnewidiol hwn yn creu cyfleoedd, heriadau a phryderon newydd. Felly, mae'n rhaid i wasanaethau ieuenctid ymateb i'r amgylchiadau newydd lle mae pobl ifanc yn tyfu'n oedolion trwy ymchwilio i ystyr bod yn ddinasyddion byd-eang gyda phobl ifanc.



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Globingo

**Dewch o hyd i rywun a all ateb y canlynol…**

| | |
|---|---|
| **Wedi teithio i wlad dramor**<br>Enw: ____________<br>Gwlad: ____________ | **Enwi seren chwaraeon o wlad arall**<br>Enw: ____________<br>Gwlad: ____________ |
| **Yn dysgu iaith dramor**<br>Enw: ____________<br>Gwlad: ____________ | **Yn berchen ar gar a wnaed mewn gwlad arall**<br>Enw: ____________<br>Gwlad: ____________ |
| **Gyda pherthynas yn byw mewn gwlad arall**<br>Enw: ____________<br>Gwlad: ____________ | **Wedi byw neu weithio mewn gwlad arall**<br>Enw: ____________<br>Gwlad: ____________ |
| **Yn mwynhau cerddoriaeth o wlad arall**<br>Enw: ____________<br>Gwlad: ____________ | **Yn mwynhau bwyta bwyd o wlad arall**<br>Enw: ____________<br>Gwlad: ____________ |
| **Yn gwisgo rhywbeth wnaed mewn gwlad arall**<br>Enw: ____________<br>Gwlad: ____________ | **Yn byw mewn cartref lle mae rhagor nag un iaith yn cael ei siarad**<br>Enw: ____________<br>Gwlad: ____________ |
| **Yn gallu enwi gwlad yn America Ladinaidd sy'n cynhyrchu coffi**<br>Enw: ____________<br>Gwlad: ____________ | **Wedi dysgu rhywbeth am wlad arall ar y teledu yn ddiweddar**<br>Enw: ____________<br>Gwlad: ____________ |



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Chwaraeon

## Cystadleuaeth Pŵl i Unigolion

### Beth rydych chi'n ceisio ei wneud?

Sefydlu cystadleuaeth pŵl i bobl ifanc 11 i 14 oed.

### Beth rydych chi'n ceisio ei gyflawni yn y pen draw?

Rhoi cyfle i bobl ifanc chwarae mewn cystadleuaeth lle mae cyfle i ennill tlws am ennill neu ddod yn ail.

### Sut rydych yn mynd i'w wneud?

Dechrau trwy drefnu pwy sy'n chwarae yn erbyn pwy, gan annog y bobl ifanc i wneud hyn eu hunain a sicrhau bod niferoedd cyfartal yn mynd trwodd i'r rownd nesaf. Os yw nifer y chwaraewyr yn dilyn y drefn 8; 16; 32; ayb, bydd yn hawdd trefnu'r gystadleuaeth e.e. wyth yn y gemau cyn go derfynol, pedwar yn y rowndiau go derfynol a dau yn y rownd derfynol. Gellir gwneud hyn gan ddefnyddio grid.

Fodd bynnag, gyda niferoedd eraill rhaid trefnu 'heibiadau'. Os oes deg o chwaraewyr gennych, gall chwech fynd ymlaen i'r rownd derfynol ond dwy trwy dynnu enwau o het a rhaid i'r gweddill chwarae i ennill lle. Unwaith y bydd enillwyr gennych, cewch roi'r enwau hyn yn yr het gyda'r chwech arall. Wedyn, gall y gystadleuaeth fynd ymlaen yn y ffordd arferol.

### Pa adnoddau sydd eu hangen?

Bwrdd pŵl, amrywiaeth o ffyn, peli, sialc, grid cofnodi enillwyr ym mhob rownd, gwobrau, peniau.

### O ganlyniad i hyn beth sydd wedi digwydd?

Bydd pobl ifanc yn teimlo bod y gystadleuaeth yn eiddo iddynt a byddant yn profi'r mwynhad a'r wefr o gymryd rhan yn y gystadleuaeth. Byddant hefyd yn trafod sut mae gemau wedi cael eu hennill a'u colli.

### O ganlyniad i hyn beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd pobl ifanc am wneud gweithgaredd ar eu pennau eu hunain, heb ond yr oruchwyliaeth leiaf.

### Sut mae'n cyd-fynd â'r cwricwlwm?

Gellir ffocysu'r gweithgaredd hwn mewn sawl ffordd gan ddibynnu ar yr anghenion.

Gall y rhain gynnwys:

**Addysgiadol:** Dysgu sut i drefnu cystadleuaeth

**Mynegiannol:** Profi'r emosiwn o ennill a cholli

**Cyfranogol:** Mae pawb yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan

**Galluogol:** Mae'n cynnig cip ar gystadlaethau i bobl ifanc



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

C

# Chwaraeon

## Dadl am Chwaraeon Gwaed

### Beth rydych chi'n ceisio ei wneud?

Codi ymwybyddiaeth o bwnc cymhleth 'chwaraeon gwaed'.

### Beth rydych am ei gyflawni erbyn diwedd y gweithgaredd?

Dylai fod gan bobl ifanc ddealltwriaeth o bwnc cymhleth gweithgareddau cyfreithiol ac anghyfreithiol. Bydd y wybodaeth ganddynt hefyd i ddeall eu safbwynt eu hunain ar y ddadl hon.

### Sut rydych yn mynd i'w wneud?

Lle mae dadleuon cryf o blaid ac yn erbyn, mae'n bwysig cynnal dadl gytbwys. Gellir gwneud hynny fel a ganlyn:

• Gofyn i bobl ifanc ymchwilio i'r ddadl. Gellir gwneud hyn ar y rhyngrwyd, trwy holi pobl yn y gymuned, ymweld â fferm, ayb.

• Gwneud arddangosfa ar y wal. Gofalwch eich bod yn rhoi'r un amlygrwydd i'r dadleuon o blaid ac yn erbyn.

• Trefnu dadl agored lle gall pobl ifanc godi cwestiynau. (Mae'n bosibl na fydd pleidleisio ar fater fel hyn yn beth cadarnhaol, felly gwell ei osgoi).

### Pa adnoddau fydd eu hangen?

Mynediad i gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd.

Lle ar wal.

### Beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i hyn?

Dylai pobl ifanc fod yn fwy gwybodus. Gellid rhannu holiadur addas i bobl ifanc i ofyn a yw pobl ifanc yn fwy ymwybodol o'r pwnc ac a yw'r ddadl wedi newid eu meddwl.

### Sut mae'n cyd-fynd â'r cwricwlwm?

Mae gwaith ar faterion llosg yn tueddu i gwmpasu sawl agwedd ar y cwricwlwm. Mae'r gweithgaredd hwn yn ymwneud yn bennaf â chyfle i bobl ifanc fynegi eu barn gan ddefnyddio dadleuon a'u haddysgu am y pwnc cymhleth hwn.

**Addysgiadol:** Dysgu gan eu cyfoedion am eu canfyddiadau

**Mynegiannol:** Caniatáu i bobl ifanc ddweud eu dweud

**Cyfranogol:** Mae pawb yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan

**Galluogol:** Galluogi pobl ifanc i weithredu ar bwnc sy'n berthnasol iddynt



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

**Deunydd ategol ar gyfer y gweithgaredd.**

Ers dechrau gwareiddiad mae dynion wedi datblygu cydweithrediad gydag anifeiliaid ar y blaned hon. Rydym wedi dofi a hela anifeiliaid ers tros 100,000 o flynyddoedd. Yn 2003, mae hela'n rhan hanfodol i rai o hyd, ac yn atgas gan eraill. Rydym am glywed eich barn am chwaraeon gwaed a'u lle mewn cymdeithas heddiw. Beth yw eich teimladau chi?

Mae traddodiad o chwaraeon yn y Du sy'n golygu hela a dal anifail. Daeth y Rhufeiniaid ag ardal hela gyda nhw i Brydain. Mewnforiodd y Normaniaid gwningod a cheirw i'w hela. Mae hela yn sicr yn rhan o'r diwylliant ers miloedd o flynyddoedd.  Yn y byd modern, mae llawer yn cytuno bod hela'n iawn fel moddion – y ffesant i'r crochan a'r brithyll i'r badell. Ond beth mae'r llwynog wedi'i wneud o'i le? Byddai llawer o ffermwyr yn dadlau y gallant ddinistrio'u bywoliaeth a bod hyn yn golygu costau uwch i gwsmeriaid. Pam dal llond rhwyd o bysgod a'u gollwng yn ôl i'r môr neu'r afon wedyn? I lawer o bobl mae'r helfa fwyd wedi datblygu i fod yn daith i'r archfarchnad, ac yn sicr nid oes fawr o gyfle ichi fod yn rhan o'ch amgylchedd yn y fan honno.

Yn ogystal, dim ond yn ddiweddar iawn mae hela a lladd eirth, moch daear, teirw, cŵn a cheiliogod wedi cael eu gwahardd. O bryd i'w gilydd, er hynny, byddwn yn clywed am yr arferion hyn yn digwydd heddiw. Os bydd y llywodraeth yn gwneud hela llwynogod yn anghyfreithlon, a fydd pysgota'n dilyn? Sut byddai Sbaen yn ymateb petai'r UE yn penderfynu bod angen dileu ymladd teirw o draddodiadau a diwylliant y wlad honno?

Mae yna ddewisiadau amgen os yw pobl yn mwynhau gwefr hela, felly oes angen hela anifail byw? Mae gennym golomennod clai, pysgota cyfrifiadurol a hyd yn oed bobl sy'n rhedeg i'r cŵn hela eu dal (peidiwch â phoeni, nid oes neb yn dioddef; tipyn o lyfu gan y cŵn yw'r cyfan sy'n ddigwydd fel arfer). A allwn ni barhau i gynnal traddodiad arferion cefn gwlad heb fygwth y bywyd gwyllt lleol?

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Iechyd

## Cwis ar Smygu

### Beth rydych chi'n ceisio ei wneud?

Trefnu cwis i bobl ifanc i godi eu hymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â smygu.

### Beth rydych am ei gyflawni erbyn diwedd y gweithgaredd?

Bydd pobl ifanc yn deall rhai o'r goblygiadau o ran iechyd a chostau os byddant yn dal i smygu. Sesiwn pellach fyddai trafod sut y gellir cynorthwyo pobl ifanc sydd am roi'r gorau i smygu.

### Sut rydych yn mynd i'w wneud?

Mae cwisiau'n gyfrwng delfrydol os ydych am gynnwys pob aelod o'r prosiect mewn gweithgaredd neilltuol. Dylech ddosbarthu'r taflenni gan adael i'r bobl ifanc weithio mewn parau neu dimau. Dylech ganiatáu hyn a hyn o amser iddynt ystyried eu hatebion, a dod â phawb at ei gilydd wedyn i drafod yr atebion iawn. Gellid dilyn hyn gyda dal am unrhyw fater a ddaeth i'r golwg wrth wneud y cwis.

### Pa adnoddau sydd eu hangen?

Ystafell addas, papur, peniau, pobl ifanc, holwr (a all rhywun ifanc wneud hyn?)

### Beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i hyn?

Bydd pobl ifanc yn trafod y cwestiynau sy'n ymwneud â smygu. Os ydych am drafod materion eraill dylech feddwl am gyfeiriadau eraill cyn cychwyn y gweithgaredd.

### Pa rannau o'r cwricwlwm sy'n cael eu cwmpasu?

Mae'r pwnc hwn yn cwmpasu:

**Mynegiannol:** Caniatáu i bobl ifanc leisio barn am y pwnc

**Cyfranogol:** Gall pawb gymryd rhan i ryw raddau

**Galluogol:** Gallu gweithredu ar sail gwybodaeth gadarn am y pwnc

**Addysgiadol:** Dysgu trwy ofyn cwestiynau a chlywed atebion



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Cwis Smygu

Gwnewch y cwis smygu er mwyn gweld faint wyddoch chi am ffeithiau smygu.

ENW neu ENW'R TIM

___

**1. Achos y nifer mwyaf o farwolaethau yn y DU y gellid eu hosgoi yw?**

a) Damweiniau ffordd

b) Hunanladdiadau a llofruddiaethau

c) IDS a defnyddio cyffuriau anghyfreithlon

d) Smygu

**2. Faint o smygwyr rheolaidd sydd yn y DU?**

a) 500, 000 (hanner miliwn)

b) 1, 000 000 (miliwn)

c) 13, 000 000 (tair miliwn ar ddeg)

**3. Pa ganran o bobl 15 oed yn y DU sy'n smygu?**

a) 15% (15 allan o gant)

b) 25% (25 allan o gant)

c) 35% (35 allan o gant)

d) 50% (50 allan o gant)

**4. Faint o bobl sy'n marw yn y DU bob blwyddyn oherwydd clefyd yn ymwneud â smygu?**

a) 120, 000 b) 60, 000 c) 30, 000

**5. Faint o bobl sy'n marw yn y DU bob blwyddyn oherwydd canser yr ysgyfaint trwy smygu goddefol (passive smoking)?**

a) 100 b) 200 c) 300

**6. Pa ganran o smygwyr yn y DU sydd am roi'r gorau i smygu?**

a) 35% (35 allan o gant)

b) 65% (65 allan o gant)

c) 85% (85 allan o gant)

**7. Sawl cemegyn sydd mewn sigarennau yn eich barn chi?**

a) 4

b) 40

c) 400

d) 4000

**8. Pa sylwedd mewn baco sy'n achosi risg uwch o ganser yr ysgyfaint?**

a) Tar

b) Nicotin

c) Carbon monocsid

**9. Pa ganran o bobl sy'n cael canser yr ysgyfaint sy'n smygu?**

a) 50% b) 25% c) 80%

**10. Pe baech chi'n smygu 20 sigarét bob dydd am 10 mlynedd, faint fyddech chi'n ei wario?**

a) £5000 b) £10, 000

c) £15, 000 d) £20, 000

**11. Mewn gwledydd sy'n datblygu torrir coed i'w defnyddio i sychu baco. Faint o goed sy'n cael eu llosgi i sychu digon o faco i wneud 365 o bacedi sigarennau?**

a) 1 goeden b) 10 coeden

c) 25 coeden d) 50 coeden

**12. Sawl tân a achoswyd gan sigarennau, peiriannau tanio a matsys yn Lloegr y llynedd?**

a) 60 b) 600

c) 6000 d) 60, 000



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Iechyd

## Atebion y Cwis Smygu

**1. Achos y nifer mwyaf o farwolaethau yn y DU y gellid eu hosgoi yw?**

d) Smygu

**2. Faint o smygwyr rheolaidd sydd yn y DU?**

c) 13,000,000 (tair miliwn ar ddeg)

Dyma chwarter y boblogaeth

**3. Pa ganran o bobl 15 oed yn y DU sy'n smygu?**

b) 25% (25 allan o gant)

Dyma chwarter y bobl 15 oed yn y DU

Mae 82% o smygwyr yn dechrau ar yr arfer yn eu harddegau. Mae smygu'n caethiwo pobl a bydd llawer o bobl ifanc sy'n smygu yn gwneud hynny am weddill eu hoes

**4. Faint o bobl sy'n marw yn y DU bob blwyddyn oherwydd clefyd yn ymwneud â smygu?**

a) 120,000

Dyma 330 o bobl bob dydd yn fras (sy'n cyfateb i awyren jumbo yn disgyn o'r awyr bob dydd yn y wlad hon) a rhagor na 13 o bobl bob awr

**5. Faint o bobl sy'n marw yn y DU bob blwyddyn oherwydd canser yr ysgyfaint trwy smygu goddefol (passive smoking)?**

c) 300

Ystyr smygu goddefol yw anadlu mwg baco pobl eraill (mwg baco yn yr amgylchedd)

Mae risg uwch o 20-30% i bobl nad ydynt yn smygu os ydynt yn anadlu mwg dros gyfnod hir

**6. Pa ganran o smygwyr yn y DU sydd am roi'r gorau i smygu?**

b) 65% (65 allan o gant)

Mae bron 2/3 o smygwyr yn y DU am roi'r gorau iddi

**7. Sawl cemegyn sydd mewn sigarennau yn eich barn chi?**

d) 4000

Mae rhagor na 4000 ac mae rhagor na 40 yn gallu achosi canser

**8. Pa sylwedd mewn baco sy'n achosi risg uwch o ganser yr ysgyfaint?**

a) Tar

Mae tar yn gymysgedd cymhleth sy'n cynnwys tua 4,000 o gemegau gwahanol, gan gynnwys carcinogeneu. Mae'r stwff du gludiog hwn yn cynnwys pob math o gemegau gwenwynig sy'n glynu yn yr ysgyfaint. Wrth i'r cemegau gael eu hamsugno dros amser maent yn achosi niwed. Mae'r tar hefyd yn lladd y cilia neu'r blewiach sy'n glanhau'r ysgyfaint, a dyma sy'n gwneud i smygwyr besychu. Tar sy'n achosi'r canser, ac mae lleihad ym maint y tar wedi arwain at leihad yn nifer yr achosion

**9. Pa ganran o bobl sy'n cael canser yr ysgyfaint sy'n smygu?**

c) 80%

**10. Pe baech chi'n smygu 20 sigaret bob dydd am 10 mlynedd, faint fyddech chi'n ei wario?**

d) £20,000

Dros £20,000 (digon i brynu car newydd sbon). Os byddwch yn smygu 20 o sigarennau rhwng 15 oed a 75 oed, byddech yn gwario dros £120,000

**11. Mewn gwledydd sy'n datblygu torrir coed i'w defnyddio i sychu baco. Faint o goed sy'n cael eu llosgi i sychu digon o faco i wneud 365 o bacedi sigarennau?**

c) 25 coeden

Bydd hyn yn rhoi digon o sigarennau y dydd i rywun am flwyddyn

**12. Sawl tân a achoswyd gan sigarennau, peiriannau tanio a matsys yn Lloegr y llynedd?**

c) 6000

Mae 35% o'r tanau yn y DU yn digwydd oherwydd offer smygu



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Celfyddydau

## Drama yn seiliedig ar bwnc

### Beth rydych yn ceisio'i wneud?

Ymchwilio i faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc mewn ffordd hwyliog a diddorol.

### Beth rydych yn ceisio'i gyflawni erbyn diwedd y gweithgaredd?

Gellid defnyddio hwn fel ffordd o hybu hunan-barch, hyder a hunanymwybyddiaeth i'r rhai sy'n cymryd rhan. Yn ogystal â'u gwneud yn ymwybodol o'r materion sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc, gall ganiatáu iddynt fynegi eu barn am y materion hyn.

### Sut rydych yn mynd i'w wneud?

Gall hyn fod ar sawl ffurf, y dylid gadael y rhan fwyaf ohonynt yn nwylo gweithwyr sy'n brofiadol yn y maes hwn. Un gweithgaredd y gellid rhoi cynnig arno yn eich clwb neu brosiect yw 'Rhewi'r llun'.

Mewn grwpiau o dri neu bedwar, mae'r aelodau'n llunio golygfa ar bwnc a ddewiswyd ganddynt neu gan weithiwr ieuenctid. Er enghraifft, gallent ail-greu sut mae pobl ifanc yn dod i mewn i'r clwb gyda'r nos ac ymateb y gweithwyr. Mae'r grŵp wedyn yn actio'r olygfa. Os nad yw gweddill y bobl ifanc yn gwybod y pwnc ymlaen llaw, gallant geisio dyfalu beth sy'n digwydd – ac ar lefel uwch, pam.

Mae'r grŵp wedyn yn rhoi adborth ar yr olygfa a pham roedd y cymeriadau'n actio fel yr oeddynt. Gellir cynnal trafodaeth wedyn ar yr hyn y byddai'n rhaid wrtho i'r olygfa gael ei chwarae'n wahanol.

Mae rhybudd gyda'r gweithgaredd hwn: gofalwch fod y pwnc o fewn eich gallu i ymateb iddo.

### Pa adnoddau sydd eu hangen?

Ystafell addas i'r grŵp a rhywfaint o breifatrwydd

### Beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i hyn?

Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc yn ei chael yn haws eu mynegi eu hunain fel hyn a dod yn ymwybodol o'u gallu. Gellir ystyried gwaith pellach yn ei sgil. Gan gynnwys cynhyrchiadau i bobl eraill, gwaith ar fideo, achrediad, datblygu sgiliau drama a datblygu sgiliau bywyd.

### Pa rannau'r cwricwlwm y mae'n eu cynnwys?

Dylai'r gweithgaredd hwn gwmpasu ystod eang o'r cwricwlwm.

Gan gynnwys:

**Mynegiannol:** Caniatáu i bobl ifanc ddweud eu dweud mewn nifer o sefyllfaoedd

**Cyfranogol:** Gallu cymryd rhan ar bob lefel bosibl

**Galluogol:** Edrych ar ddulliau a moddion o weithredu

**Addysgiadol:** Dysgu gan bobl eraill ac ennill sgiliau



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Adnoddau Defnyddiol

Adran 6.0

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Adnoddau Defnyddiol

**Cedwir yr adnoddau a ganlyn yn llyfrgell Cyngor Ieuenctid Cymru. Mae'r rhan fwyaf ar gael i'w benthyca. Gellir gweld rhestr llawn o gynnwys y llyfrgell ar y wefan ar www.wya.org.uk**

## Celfyddydau

Mae'r adran hon yn cynnwys deunydd sy'n addas ar gyfer gweithgareddau eraill.

### Celfyddydau / Creadigedd

**ART UNLIMITED**
*Cyngor Ieuenctid Cenedlaethol 2002*
Pecyn adnoddau o 60 o weithgareddau celf a chrefft i'w defnyddio gyda phobl ifanc naill ai'n unigol neu mewn grwpiau. Mae'r 3 adran yn cwmpasu celf, crefft a phrosiectau i grwpiau. Ceir hefyd gyngor ar fannau cychwyn ac offer.

**CRAFTWORK 6-8 YRS**
*The Boys Brigade Resource Centre 1986*
Llyfryn yn cynnwys gwahanol weithgareddau a syniadau am gelf a chrefft.

**SOME CRAFTY THINGS TO DO**
*Oxfam 1985*
Llyfryn ymarferol yn cynnwys pethau i bobl ifanc eu gwneud, megis crefftau, paentio'r corff, theatr stryd, offer cerdd, ryseitiau a gemau.

**THE GAP PACK: CREATIVE TRAINING FOR WORK WITH YOUNG PEOPLE**
*Youth Clubs UK 1993*
Prosiect peilot dwy flynedd oedd GAP i geisio hyrwyddo defnyddio'r celfyddydau fel offeryn ar gyfer gwaith ieuenctid trwy gyrsiau hyfforddi i weithwyr ieuenctid. Mae'r pecyn hwn yn cyfuno'r holl ymarferiadau a deunyddiau hyfforddi a ddatblygwyd yn ystod y prosiect.

**THE YOUTH ARTS AND CRAFT BOOK**
*SITRC 1986*
Dros 45 o wahanol gelfyddydau a chrefftau. Mae'r llyfr yn cynnwys manylion hefyd am ddefnyddio'r gweithgareddau, maint delfrydol y grwpiau o bobl ifanc, yr offer a'r adnoddau gofynnol, a'r manteision a'r anfanteision gyda gwahanol weithgareddau.

### Celfyddydau Perfformio

**CAUGHT IN THE ACT**
*Youth Clubs UK 1994*
Fideo hyfforddi 50 munud (mewn adrannau), a llyfryn cysylltiedig, i gyflwyno gwaith drama i bobl ifanc. Mae'n edrych ar gemau cydweithredu ac ymarferion ymddiriedaeth a pherfformiadau byrfyfyr yn seiliedig ar brofiadau aelodau grwpiau.

**DRAMATTACK: AN ESSENTIALLY PRACTICAL MANUAL FOR USING DRAMA IN YOUTH WORK**
*Russell House Publishing 1999*
Arweinlyfr ar gyflwyno drama i waith ieuenctid, o'r gweithdy syml gyda dechreuwyr pur, i lwyfannu cynhyrchiad llawn. Mae'n cynnwys cyngor, pecyn perfformio, ffurflenni enghreifftiol, enwau cyswllt ac adnoddau, a rhestr o ddramâu.

**DRAMA**
*Urdd Gobaith Cymru 1985*
Llyfryn Cymraeg ar ddrama ar gyfer grwpiau ieuenctid. Mae'n cynnwys cyngor ymarferol ar gynllunio a syniadau am gemâu, meimiau, perfformiadau byrfyfyr a chwarae rôl.

### Drama and Mime

**DRAMA: WORKING WITH YOUNG PEOPLE SERIES**
*NAYC 1985*
Mae'n dangos sut y gall defnyddio drama wneud cyfraniad pwysig at waith ieuenctid. Mae'n cynnwys cyngor ymarferol ar gynllunio a syniadau am gemâu, meimiau, perfformiadau byrfyfyr a chwarae rôl.

## Dinasyddiaeth

Mae'r adran hon yn cynnwys deunydd sy'n addas ar gyfer gweithgareddau eraill.

### Merched/Menywod Ifanc

**WHO IS SHE?**
*London Union of Youth Clubs 1992*
Gêm fwrdd amlddiwylliannol lle mae'r chwaraewyr yn dysgu am rôl amhrisiadwy, ond anghydnabyddedig yn aml, menywod yn hanes y byd. Mae'n cynnwys syniadau am ddatblygu'r thema hon ymhellach hefyd

### Pobl Ifanc ag Anableddau

**ACTIVITIES INSIDE AND OUTSIDE THE CLASSROOM**
*The Spastics Society*
Llyfryn yn rhestru ymarferion a gweithgareddau a thrafodaethau i helpu pobl ifanc ddeall sut beth yw bod yn anabl.

**INCLUSION FUSION**
*National Youth Agency 2002*
Gêm fwrdd addysgol i helpu pobl ifanc i ymchwilio i gamwahaniaethu ar sail anabledd. Mae'r gêm yn addas ar gyfer rhai 13-16 oed ac mae'n cynnwys llawlyfr hyfforddwyr a fideo.

**THE OTHER SIDE OF THE MIRROR**
*BDA Wales 2001*
Fideo yn seiliedig ar brofiadau pobl ifanc fyddar yng Nghymru. Mae'n cynnwys pedwar darn theatr fforwm i'w perfformio gan grwpiau. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i'r gynulleidfa ymateb i'r ddrama a chymryd rhan ynddi. Nid yw'n addas ar gyfer plant dan 11 oed. 35 munud o hyd.

### Gwaith Tîm

**50 ACTIVITIES FOR TEAM BUILDING**
*Gower 1989*
Llawlyfr hyfforddi sy'n cynnwys 50 o weithgareddau ymarferol am bob agwedd ar weithio mewn tîm. Mae pob gweithgaredd yn defnyddio egwyddor 'dysgu wrth wneud'.

**BORN AND BRED? LEADERSHIP, HEART AND INFORMAL EDUCATION**
*YMCA George Williams College 1999*
Llyfr a CD-Rom sy'n ymchwilio i rai themâu allweddol i addysgwyr am arweiniad, gan gynnwys y syniad mai pobl gyda rhinweddau arbennig yw athrawon; y profiad o arwain fel proses ar y cyd, a'r berthynas rhwng animeiddio, ffurfio ac addysg.

**TEAM BUILDING SKILLS IN YOUTH WORK: WORK PACK**
*Islington Council 1996*
Pecyn a gynhyrchwyd gan weithwyr ieuenctid ar gyfer gweithwyr ieuenctid. Mae'n cynnwys rhai theorïau perthnasol am arfer da mewn gwaith tîm ac amrediad o ymarferion y gellir eu defnyddio fel rhannau o sesiynau hyfforddi neu gyfarfodydd staff.

**TEAM BUILDING: A MANUAL FOR LEADERS AND TRAINERS**
*BACIE 1989*
Llawlyfr a fydd yn galluogi arweinydd tîm i ddefnyddio ystod eang o weithgareddau ymarferol i greu ac atgyfnerthu tîm. Mae'r gweithgareddau'n seiliedig ar theori 'dysgu trwy wneud' ac mae'n cynnwys holiaduron, trafodaethau ac ymarferion.

**WORKING TOGETHER (2)**
*NAYC 1986*
Pecyn ar gyfer timau rhan-amser mewn clybiau ieuenctid sydd am weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd. Mae'n edrych ar gyfarfodydd staff, a materion camwahaniaethu, hiliaeth a rhywioldeb.

**LEADING A GROUP: WORKSHOPS AND GROUP NOTES**
*Open University 1994*
Bwriedir y pecyn hwn ar gyfer rhai sy'n bwriadu defnyddio pecynnau Addysg Gymunedol y Brifysgol Agored, ond gellir ei ddefnyddio hefyd fel arweiniad i waith arall mewn grwpiau.

### Hyfforddiant - Cyffredinol

**RESOURCES FOR COURSES: A TRAINING THE TRAINERS TOOLBOX**
*Warwick Association of Youth Clubs 2002*
Adnodd CD ROM ar fformat PC/Mac i hyfforddwyr. Mae'n cynnwys taflenni, ymarferion a gweithgareddau cynhesu i ategu unrhyw raglen 'Hyfforddi Hyfforddwyr'. Defnyddiau ar gyfer ystod eang o fodiwlau, gan gynnwys:- Dylunio; Darparu; Asesu; Llunio Portffolio; Gwerthuso.

**TRAINING EVENT PLANNING GUIDE**
*80/20 Training Ltd 1996*
Pecyn ymarferol ar gyfer pawb sydd am drefnu, gweinyddu a darparu cyrsiau a seminarau hyfforddi. Mae'n cynnwys awgrymiadau a rhestrau gwirio.



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

## Menter

### ENHANCING THE ENTERPRISE SKILLS
*Changemakers 1999*
Set o werslyfrau i gynorthwyo gweithwyr ieuenctid ac eraill i hwyluso gweithgareddau dan arweiniad pobl ifanc. Mae'n ffocysu ar sut i alluogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau mewn cysylltiad â menter, cyflogadwyedd, dinasyddiaeth a dysgu gydol oes. Mae'n cynnwys ymarferion.

## Materion Ieuenctid - Cyffredinol

### A-Z GUIDE TO BEING A YOUNG PERSON
*Gogglebox/Cyngor Sir Gwent 1994*
Fideo 45 munud ar ffurf cyfeiriadur at y materion sydd o bwys i bobl ifanc, sy'n ceisio hybu trafodaeth a sgwrs rhwng grwpiau o bobl ifanc a gweithwyr ieuenctid.

### A-Z GUIDE TO BEING A YOUNG PERSON:TRAILER
*Gogglebox/ Cyngor Sir Gwent 1994*
Ffilm ragymadroddol 12 munud ar gyfer y fideo 45 yn cynnwys cyfeiriadur at y materion sy'n ymwneud â phobl ifanc.

### DEBATE OF THE AGE:YOUR SAY IN THE FUTURE
*Age Concern 1999*
Pecyn yn cynnwys gwybodaeth ac ystadegau i godi ymwybyddiaeth a hybu trafodaeth ar faterion yn ymwneud â chymdeithas sy'n heneiddio yn yr 21ain ganrif.

### HAMBONS
*Uned Gwaith Ieuenctid Creadigol Theatr Felin-fach. Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion 1999*
Fideo a ddyfeisiwyd, a ysgrifennwyd ac a berfformiwyd gan bobl ifanc am bwnc mewnfudo, sy'n cynnwys ymfudo croes i'w gwirfodd gan bobl ifanc ac allfudo pobl ifanc dalentog. Cymraeg a Saesneg bob yn ail. 65 munud.

### IT'S YOUR WORLD:A PSE HANDBOOK FOR 11 - 14 YEAR OLDS
*TACADE. CWS Ltd 1996*
Mae'r pecyn hwn wedi'i anelu at ysgolion ac mae'n cynnwys gweithgareddau yn ymwneud ag addysg bersonol a chymdeithasol. Fe'i rhennir yn bedair thema draws-gwricwlaidd: addysg iechyd, dealltwriaeth economaidd a diwydiannol, addysg amgylcheddol a dinasyddiaeth.

### POVERTY: IT'S A CRIME
*Cedarwood Trust 2001*
Mae tri o bobl ifanc o ogledd Tyneside yn ymchwilio i effeithiau tlodi ar bobl ifanc a'i berthynas â throsedd. Maent yn cymharu a chyferbynnu eu profiadau eu hunain â rhai pobl o ardaloedd eraill. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer trafod neu hyfforddi. 30 munud.

### TOO MUCH TOO YOUNG?
*Y Cymoedd a'r Fro 1994*
Fideo gan y prosiect Girls In Focus am bedair merch yng Nghwm Ogwr. Mae'n ymchwilio i'r pethau sy'n effeithio ar bobl ifanc wrth iddynt dyfu yng nghymoedd y de, gan gynnwys alcohol, cam-drin cyffuriau, perthnasoedd, beichiogi yn yr arddegau, dewisiadau.

## Addysg

### ROADWORKS NON - ATTENDANCE, A PRACTICAL RESOURCE PACK
*Berkshire Education Welfare Service, Youth and Community Service 1996*
Pecyn o weithgareddau ar gyfer rhai 9-13 oed i atal absenoldeb o'r ysgol. Mae'n defnyddio gweithgareddau torri'r garw, chwarae rôl a thrafod i ymdrin â materion megis cyfrifoldeb, prydlondeb, hunan-barch, pwysau gan gyfoedion a gwneud penderfyniadau.

## Addysg gan Gyfoedion

### CIDERPUNKS PEER EDUCATION PACK
*Northern Ireland Youth Forum, YMCA for Ireland 1999*
Pecyn adnoddau gyda fideo sy'n cynnig syniadau a chyfarwyddiadau i weithwyr ieuenctid sydd am gynnal grwpiau trafod gyda phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys hunaniaeth a pherthnasoedd, cyffuriau ac alcohol, pwysau gan gyfoedion, polisïau, rhyw a beichiogi yn yr arddegau.

## Cyfranogi/Galluogi

### ACTION FOR A CHANGE
*National Youth Agency 2003*
Pecyn gweithgareddau yn seiliedig ar ymchwil ar gyfer gweithwyr ieuenctid ar bobl ifanc a gweithredu cymdeithasol. Mae'r chwe adran yn ymdrin â gwahanol agweddau ar weithredu cymdeithasol ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir, ffynonellau cyngor a defnyddiau i arweinwyr.

### BALANCING ACTS
*NYB*
Sut i annog cyfranogi gan ieuenctid. Mae'n ceisio chwalu'r dryswch ynglŷn â chyfranogi trwy gynnig diffiniad ymarferol i weithwyr ieuenctid a fframwaith ar gyfer trosglwyddo grym i bobl ifanc. Yn defnyddio ymchwil ac astudiaethau achos gwreiddiol.

### I'LL GO FIRST:THE PLANNING AND REVIEW TOOLKIT FOR USE WITH CHILDREN WITH DISABILITIES
*The Children's Society 1999*
Pecyn adnoddau. Offer ymarferol i helpu gweithwyr proffesiynol i feithrin perthynas gyda phlant//pobl ifanc anabl a chyfleu eu syniadau wrth i benderfyniadau gael eu gwneud am eu gofal a/neu eu haddysg. Yn ymdrin â sefydlfaoedd perthnasol cyffredin. Yn cynnwys arweiniad ar arfer da.

### SHOUT IT OUT!: SUE TORR'S STORY
*Coleridge Video / Shout It Out Video Learning Project 1996*
Fideo a nodiadau am anllythrennedd ymhlith oedolion yn seiliedig ar ddrama hunangofiannol gan Sue Torr, a ddysgodd ddarllen yn ei 30au. Mae'n cynnwys cyfweliadau gyda Sue, yr actorion ac oedolion sy'n dysgu darllen.

### YOUNG PEOPLE AND DECISIONS: A RESOURCE PACK ON PARTICIPATION
*NCVYS 1981*
Pecyn mewn tair rhan wahanol: Mae Rhan 1 yn egluro ystyr cyfranogi; mae Rhan 2 yn cynnwys astudiaethau achos lle mae pobl ifanc wedi cael cyfle i gyfranogi; mae Rhan 3 yn cynnig cynllun hyfforddi ar gyfranogi.

## Dinasyddiaeth

### COPING WITH CITIZENSHIP
*SMS Multimedia 2001*
CD Rom am ddinasyddiaeth ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd sy'n pwysleisio hawliau a chyfrifoldebau. Mae'n cynnwys gweithgareddau rhyngweithiol a storïau gyda gwybodaeth gefndir i athrawon. Rhif 3 yn y gyfres 'Rotary, Coping with Life'.

### GOOD THINKING VOL 1
*Evans Brothers / Citizenship Foundation 2000*
Y gyntaf o dair cyfrol ar addysg dinasyddiaeth a chyfrifoldeb moesol. Mae'n cyflwyno syniadau moesol, iaith a dadleuon o fewn fframwaith moesoldeb cyhoeddus dinasyddiaeth. Yn cynnwys: cyfiawnder, hawliau a chyfrifoldebau. Cynlluniau gwersi a defnyddiau y gellir eu llungopïo.

### GOOD THINKING VOL2
*Evans Brothers / Citizenship Foundation 2001*
Yr ail o dair cyfrol ar addysg dinasyddiaeth a chyfrifoldeb moesol. Mae'n ymdrin â chysyniadau yn fwy manwl nag yn y gyfrol gyntaf. Yn cynnwys: hawliau dynol, cyfiawnder cymdeithasol, dyletswyddau a rhwymedigaethau. Yn cynnwys cynlluniau gwersi a defnyddiau y gellir eu llungopïo.

### GOOD THINKING VOL 3
*Evans Brothers / Citizenship Foundation 2001*
Y drydedd o dair cyfrol ar addysg dinasyddiaeth a chyfrifoldeb moesol. Mae'n ymdrin â chysyniadau yn fwy manwl nag yn yr ail gyfrol. Yn cynnwys: ymresymu moesegol, polisi cymdeithasol, meddwl beirniadol, rhyddid a hunaniaeth. Yn cynnwys cynlluniau gwersi a defnyddiau y gellir eu llungopïo.

### SHAPING CITIZENSHIP
*Hackney Agency for Volunteering 2001*
Pecyn adnoddau i annog gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc. Mae'n canolbwyntio ar wirfoddoli yn y cwricwlwm dinasyddiaeth. Mae'n cynnwys dros 20 o ymarferion y gellir eu llungopïo, cyfeiriadur, tâp sain a disg cyfrifiadur gydag ymarferion ar fformat Word.

### YOUR RIGHTS AND RESPONSIBILITIES VOL 1
*Published by Evans Brothers 2002*
Casgliad o dros 30 o syniadau a defnyddiau gwersi ar rôl cyfraith mewn cymdeithas, yn ymdrin â'r prif elfennau yn y cwricwlwm dinasyddiaeth yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae'n cynnwys hawliau pobl ac anifeiliaid, cynghorau lleol a'r cyfryngau.

### YOUR RIGHTS AND RESPONSIBILITIES VOL 2
*Evans Brothers 2002*
Casgliad o dros 30 o syniadau a defnyddiau gwersi ar rôl cyfraith mewn cymdeithas, yn ymdrin â'r prif elfennau yn y cwricwlwm dinasyddiaeth yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae cynnwys cyfraith gwlad a chyfraith statud, achosion llys troseddol a sifil, yr heddlu, contractau cyfreithiol a chamwahaniaethu.



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

### YOUTH, CITIZENSHIP AND SOCIAL CHANGE: RESEARCH BRIEFINGS
*Economic and Social Research Council 2002*
Pecyn o 15 o bapurau briffio yn seiliedig ar ymchwil i sut mae pobl ifanc 15-20 oed yn dygymod â dod yn oedolion gan nodi'r cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r pynciau dan sylw yn cynnwys defnyddio cyffuriau, bod yn dad, rheoli arian a goresgyn anfantais yn y teulu.

## Yr Amgylchedd

### BEST OF BOTH WORLDS: YOUTH WORK AND ENVIRONMENTAL WORK
*Council for Environmental Education 2002*
Arweiniad i waith amgylcheddol gyda phobl ifanc. Mae'n diffinio ac yn amlinellu potensial gwaith ieuenctid amgylcheddol ac yn cynnig cyngor ymarferol ar ddatblygu prosiectau. Ceir hefyd astudiaethau achos ac adran ar adnoddau.

### EARTHWORKS
*Council for Environmental Education 1991*
Mae'r pecyn yn cynnwys tri llyfryn i ddatblygu gwaith amgylcheddol anffurfiol gyda phobl ifanc. Mae'n edrych ar bolisi, arfer da deunyddiau hyfforddi ac mae'n cynnwys pecyn o syniadau ymarferol i'w defnyddio gyda phobl ifanc.

### ENVIRONMENTAL CONSERVATION
*Hampshire Development Education Centre*
Un mewn cyfres o becynnau adnoddau a ysbrydolwyd gan y prosiect World Studies 8-13. Mae'n cynnwys gweithgareddau chwarae rôl ac efelychu ac ymchwil i blant ymchwilio i newidiadau i'w hamgylchedd lleol a byd-eang yn awr ac yn y gorffennol.

### LET'S GRASP THE NETTLE. EDUCATION FOR ENVIRONMENTAL CHANGE
*The Woodcraft Folk 1991*
Pecyn ar gyfer rhai 9-13 oed sy'n cynnig rhaglen strwythuredig o gêmau, gweithgareddau a phrosiectau sy'n galluogi pobl ifanc i archwilio a mynd i'r afael â materion amgylcheddol sydd o bwys iddynt.

### LET'S LOOK AFTER OUR PLANET
*Youth Clubs UK 1991*
Un mewn cyfres o chwe phecyn Addysg Iechyd sy'n canolbwyntio ar iechyd byd-eang a themâu yn ymwneud â'r amgylchedd. Mae'n cynnwys syniadau am weithgareddau, pecyn o ffotograffau, gêm fwrdd a rhestr o adnoddau.

### LET'S TAKE THE WORLD IN HAND. EDUCATION FOR ENVIRONMENTAL CHANGE
*The Woodcraft Folk 1993*
Pecyn o lyfrynnau ar gyfer rhai 13-16 oed. Mae'n cynnwys syniadau a thros 60 o weithgareddau a phrosiectau sy'n annog pobl ifanc i archwilio eu hamgylchedd eu hunain ac i weithredu mewn ffordd briodol i'w diogelu a'i gwella.

### OUTDOORS WITH YOUNG PEOPLE
*Publishing 1998*
Mae'r adran gyntaf yn y llyfr yn cynnig fframwaith ar gyfer deall addysg amgylcheddol a chynaladwyedd ac yn dangos gwerth addysg awyr agored. Mae'r ail adran yn cynnig syniadau am weithgareddau ac enghreifftiau o arfer da.

### THE WASTE INTERACTIVE
*Encams (Environmental Campaigns) in 2002*
Adnodd i'w ddefnyddio gyda rhai 14-16 oed gyda'r bwriad o symleiddio datblygiad prosiectau amgylcheddol i wella'r amgylchedd lleol ac i ddatblygu sgiliau trafod a threfnu. Mae'n cynnwys gwerslyfr disgyblion, llawlyfr athrawon a disg cyfrifiadur.

### YOUTH ACTION AND THE ENVIRONMENT
*Russell House Publishing*
Llyfr ar gyfer rhai sydd am weithio gyda phobl ifanc ar faterion amgylcheddol. Mae'r pynciau'n cynnwys:- cynaladwyedd; llygredd; cynhyrchu bwyd; pwer a thrafnidiaeth; gweithredu uniongyrchol. Yn cynnwys hefyd astudiaethau achos, gweithgareddau a rhestr o enwau cyswllt.

## Addysg Fyd-eang

### GET GLOBAL
*Action Aid et al 2003*
Fideo am hwyluso ac asesu addysg dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'n defnyddio dull seiliedig ar sgiliau sy'n canolbwyntio ar annog pobl ifanc i ofyn cwestiynau, i geisio gwybodaeth ac i weithredu.

### GETTING ON WITH OTHERS: A RESOURCE PACK
*The Woodcraft Folk 1986*
Pecyn adnoddau a gweithgareddau ar Addysg Ddatblygu ar gyfer rhai 6-9 oed. Mae'n cynnwys syniadau, ymarferion a gêmau ar themâu cadarnhau, cydweithredu, rolau rhyw, gwrth-hiliaeth a chysylltiadau rhyngwladol.

### GLOBAL YOUTH WORK: A PRACTICE AND TRAINING RESOURCE MANUAL
*Development Education Association*
Llawlyfr ymarfer ac adnoddau hyfforddi sy'n hybu gwaith ieuenctid byd-eang fel rhan o waith ieuenctid pob dydd. Yn cynnwys: theori ac ystyr gwaith ieuenctid byd-eang; enghreifftiau, darluniau a defnyddiau, meini prawf gwerthuso; adnoddau.

### IMAGES: A RESOURCE PACK
*The Woodcraft Folk 1986*
Pecyn adnoddau a gweithgareddau ar Addysg Ddatblygu ar gyfer rhai 9-13 oed. Mae'n cynnwys syniadau, ymarferion a gêmau ar themâu cadarnhau, cydweithredu, rolau rhyw, gwrth-hiliaeth a chysylltiadau rhyngwladol.

### THE PEACE PAPERS
*Youth Clubs UK*
Pecyn ar gyfer gweithwyr ieuenctid sydd am drafod pynciau heddwch gyda phobl ifanc. Mae'n cynnwys fframwaith ymarferol o syniadau a gweithgareddau i archwilio agweddau meddwl a sgiliau pobl ifanc fel tangnefeddwyr.

### WORKING FOR FREEDOM: A HUMAN RIGHTS EDUCATION PACK
*Amnesty International 1991*
Pecyn a fideo ar hawliau dynol. Mae'n edrych hefyd ar y gosb eithaf, arteithio, sensoriaeth ac Amnest fel mudiad ymgyrchu. Mae'n cynnwys canllawiau i athrawon, gweithgareddau i ddisgyblion, rhestrau adnoddau, posteri a phecyn o ffotograffau. Amnest Rhyngwladol.

### YOUTH TOPICS: THE ULTIMATE COLLECTION
*Christian Aid 2002*
Pecyn yn cynnwys 25 o daflenni gweithgareddau ar faterion byd-eang i'w defnyddio mewn sesiynau gwaith grŵp gyda phobl ifanc. Mae'r taflenni'n cynnwys gweithgareddau, storïau, gêmau, cwisiau a thrafodaethau. Mae'r pynciau'n cynnwys dyled, chwaraeon, hiliaeth, dinasyddiaeth a chyffuriau. Mae'r rhan fwyaf o sesiynau yn para am awr i awr a hanner.

## Transport

### POLE POSITION
*UK Youth 2002*
A game designed to encourage players to examine their attitudes towards motor vehicles, driving and responsible road use.

## Tai / Digartrefedd

### HOUSEMATE
*Shelter Cymru 2001*
Pecyn adnoddau dwyieithog o wybodaeth a deunyddiau sylfaenol am dai, gadael y cartref a digartrefedd. Fe'i hanelir yn bennaf at y cwricwlwm ABCh, ond gellir ei ddefnyddio gyda phobl ifanc 11-18 oed o bob math.

### IMPRESSIONS PACK: HOMELESSNESS/HOUSING
*National Youth Bureau 1981*
Pecyn gwybodaeth am dai a digartrefedd. Mae'n cynnwys: papur briffio, rhestr ddarllen a dalennau newyddion i hyrwyddo trafod ar y materion.

### INDEPENDENT LIVING SKILLS PROGRAMME: UNIT 1
*ALS Training 2001*
Uned 1 mewn pecyn i helpu pobl ifanc i ennill y sgiliau angenrheidiol i fyw yn annibynnol. Mae'n trafod bwyta'n iach, diogelwch bwyd, siopa a chynllunio prydau. Ceir hefyd lyfr o ryseitiau, ynghyd â nodiadau i hyfforddwyr a thaflenni gwerthuso.

### INDEPENDENT LIVING SKILLS PROGRAMME: UNIT 2
*ALS Training 2001*
Uned 2 mewn pecyn i helpu pobl ifanc i ennill y sgiliau angenrheidiol i fyw yn annibynnol. Mae'n cynnwys gwybodaeth am denantiaethau, defnyddio offer trydan, trefnu cyllideb, golchi a glanhau. Ceir hefyd nodiadau i hyfforddwyr a thaflenni gwerthuso.

### KEY TO THE DOOR
*Shelter Cymru 2001*
Gêm ddwyieithog, liwgar ar gyfer hyd at 4 yn chwarae. Y nod yw codi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n wynebu pobl ifanc sydd ar fin gadael y cartref. Mae chwaraewyr yn dysgu am y cymorth sydd ar gael a'r anawsterau y mae'n rhaid eu goresgyn.

### MAKING THE BREAK
*Community Service Volunteers in 1989*
Pecyn a fideo sy'n ceisio paratoi pobl ifanc ar gyfer gadael y cartref ymlaen llaw. Mae'n ymchwilio i agweddau tuag at



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

ymadael, yn darparu gwybodaeth am y materion ymarferol ac yn edrych ar ddatblygu sgiliau i alluogi pobl ifanc i ddelio â phroblemau a mynegi eu barn.

**THIS CITY LIFE**
*Leeds Development Education Centre*
Pecyn adnoddau yn ymdrin â bywydau plant a phobl ifanc sy'n byw ar y strydoedd mewn nifer o wledydd gan gynnwys y DU. Mae'n cynnwys deunyddiau ar gyfer gweithgareddau, chwarae rôl, gwaith mewn grwpiau a thrafodaethau.

## Hiliaeth

**ALL DIFFERENT ALL EQUAL EDUCATION PACK**
*Council of Europe 1996*
Syniadau, adnoddau, dulliau a gweithgareddau ar gyfer addysg ryngddiwylliannol anffurfiol gyda phobl ifanc. Mae Rhan A yn cynnig gorolwg ar y sefyllfa gyfredol yn Ewrop, gan gynnwys datblygiadau hanesyddol, gwleidyddol ac economaidd. Mae Rhan B yn cynnwys pecyn o weithgareddau.

**ALL DIFFERENT ALL EQUAL: DOMINO**
*Council of Europe 1996*
Llawlyfr i ddefnyddio addysg mewn grwpiau o gyfoedion i wrthsefyll hiliaeth, gwrth-Semintiaeth ac anoddefgarwch. Mae'n cynnwys y cefndir theoretig i addysg gan gyfoedion, disgrifiadau o brosiectau, dulliau, dyfyniadau a storïau gan bobl ifanc.

**CYBERACE**
*Rural Media Company 2001*
CD Rom rhyngweithiol sy'n herio rhagdybiaethau am gydraddoldeb hiliol a gwrth-hiliaeth mewn cymunedau gwyn yn bennaf. Mae'n cynnwys gêmau, problemau ar fideo, cronfa ddata o ddiffiniadau a chysylltiadau â ffynonellau eraill.

**DEVELOPING AN INTERCULTURAL OUTLOOK**
*European Communities 1997*
Cyhoeddiad yn targedu mudiadau a grwpiau. Mae'n ystyried y camau sy'n cael eu cymryd gan sefydliadau yn Ewrop i fynd i'r afael â hiliaeth a gwrth-Semitiaeth. Mae'n cynnwys ymarferion i hybu cyfathrebu rhwng diwylliannau.

**RAFIKI: RACISM AWARENESS PACK**
*Action Factory Community Arts Ltd 1999*
Pecyn ymwybyddiaeth o hiliaeth sy'n cynnwys tair stori ddarluniadol a thaflenni i alluogi pobl ifanc i weithio mewn grwpiau i benderfynu ar gynllun gweithredu a gweithio tuag at ateb galluogol i fynd i'r afael â hiliaeth yn eu cymunedau.

**THE POWER GAME: AN ANTI-RACIST AND CULTURAL AWARENESS BOARD GAME**
*Youth Work Press 1999*
Gêm sy'n cynnig ystod o weithgareddau i helpu pobl ifanc i ystyried eu cefndiroedd, eu sefyllfaoedd, eu credoau a'u dyheadau eu hunain tra'n dysgu am hiliaeth mewn cymdeithas. Mae'n meithrin gwell dealltwriaeth o wahanol grwpiau ac yn ymchwilio i gyd-destun hiliaeth. Grŵp Cydraddoldeb Gwasanaeth Ieuenctid Lerpwl.

**WE ALL HAVE EQUAL RIGHTS: CHALLENGING RACISM THROUGH DRAMA**
*Children's Work Fund 1996*
Pecyn i helpu pobl sydd am sefydlu a rhedeg grwpiau drama hil gymysg ar gyfer rhai 7-12 oed sydd wedi dioddef bwlio hiliol. Mae'n disgrifio'r manylion ymarferol wrth sefydlu prosiect, yn awgrymu gêmau a gweithgareddau ac yn darparu rhaglen enghreifftiol.

## Rhywiaeth

**ANTI-SEXISM TRAINING MATERIALS**
*British Youth Council 1987*
Mae'r pecyn hwn yn cynnwys amrywiaeth o ymarferion sy'n ymchwilio i wreiddiau ac ystyr rhywiaeth - sut mae'n effeithio ar fenywod ifanc a sut mae'n effeithio ar ddynion ifanc, mewn ffordd wahanol.

**ANTI-SEXIST PRACTICE WITH BOYS AND YOUNG MEN**
*Richard Yerrell 1989*
Cyfres o holiaduron, gêmau, ymarferion, cwisiau a syniadau am godi materion a thrafod agweddau a barnau. Yn edrych ar fod yn wryw, gwroldeb rhywiaeth, rhywioldeb a grym a thrais.

**TAKING RESPONSIBILITY: INTERNATIONALIST ANTI-SEXIST YOUTH WORK FOR YOUNG MEN**
*Reading International*
Pecyn sy'n ceisio ymdrin â'r materion sy'n ganolog i fywydau dynion ifanc o fewn cyd-destun ehangach a mwy rhyngwladol. Fe'i bwriedir hefyd fel man cychwyn ar gyfer gwaith ar wrth-rywiaeth. Mae'r pecyn yn cynnwys cyfres o weithgareddau a naw poster mawr.

## Crime Prevention

**CRIME CHECK**
*General Accident 1995*
Pecyn fideo ar atal trosedd wedi'i fwriadu ar gyfer cynlluniau gwylio cymdogaeth. Yn cynnwys llyfryn ar gychwyn cynllun, a llyfrynnau eraill ar fynd i'r afael â fandaliaeth a chadw pobl ifanc rhag troseddu.

**FACING THE CONSEQUENCES: THE PERSONAL AND SOCIAL CONSEQUENCES OF THEFT**
*Co-operative 1997*
Pecyn wedi'i fwriadu i annog pobl ifanc i ystyried pwnc dwyn o siopau. Mae'n cynnwys llyfryn i athrawon redeg gweithgareddau, ac i'r rhai sy'n cymryd rhan chwarae rôl siopwyr yn ymdrin â sefyllfaoedd anodd a sensitif.

**THE VICTIM**
*Cymorth i Ddioddefyr/Tîm Cyfiawnder Ieuenctid Merthyr Tudful 1999*
Fideo a llyfr ymarferion i'w defnyddio gyda throseddwyr a dioddefwyr. Mae'n hybu trafodaeth ar effeithiau a chanlyniadau trosedd ar ddioddefwyr. Mae'n cynnwys gwybodaeth am effeithiau seicolegol/corfforol ar ddioddefwyr, eu teuluoedd, astudiaethau achos ac ymarferion.

**THINK AGAIN VIDEO**
*Cymdeithas Yswirwyr Prydain 1991*
Drama 16 munud ar atal trosedd sy'n adrodd hanes tri o bobl yn eu harddegau sy'n dwyn ceir. Mae'n edrych ar bwysau gan gyfoedion ac anawsterau wrth ddweud na. Yn cynnwys hefyd nodiadau ar gyfer athrawon a syniadau am drafodaethau a gweithgareddau pellach.

## Addysg Gymdeithasol / Sgiliau Byw

**ALL THE RIGHT CONNECTIONS**
*Cyngor Ieuenctid Cenedlaethol 2002*
Llawlyfr ar feithrin perthynas effeithio gyda phobl ifanc 13-19 oed. Fe'i bwriedir ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n darparu'r strategaeth Connexions. Mae'n cynnwys dros 60 o weithgareddau ar ennyn diddordeb pobl ifanc, ymchwilio i faterion llosg, cymorth i unigolion a gwaith gyda grwpiau.

**BECOMING EMOTIONALLY INTELLIGENT**
*Network Educational Press in 2003*
Gwerslyfr ar ddeallusrwydd emosiynol ar gyfer hyfforddwyr ac addysgwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'n egluro'r cysyniad, yn edrych ar sut mae pobl yn newid trwy eu llencyndod a sut y gallant wneud cynnydd os tynnir y rhwystrau ar ddatblygiad emosiynol.

**BUSTED**
*Hy Resnick. Information PLUS 1999*
Gêm gyfrifiadurol ryngweithiol ar wneud penderfyniadau yn seiliedig ar lawer o'r meysydd allweddol lle mae pobl ifanc yn wynebu problemau ac yn cael anhawster i wneud dewisiadau sydd o fudd i gymdeithasol. 7 o bynciau, 40 o sefyllfaoedd, 120 o ddewisiadau, 360 o ganlyniadau posibl.

**CHOICES**
*Family Pastimes 1976*
Gêm gydweithredol yn seiliedig ar werthoedd a dilemâu moesol, sy'n cynnwys trafod a gwerthuso'r heriadau a wynebir mewn bywyd o ddydd i ddydd. Ar gyfer 4 i 24 o chwaraewyr, o 12 oed i oedolion. O Ganada. Mae'n cynnwys cyfeiriadau at grefydd.

**CROSS CURRENTS COMMUNITY UNDERSTANDING: TEACHERS' NOTES**
*BBC Cymru/Cyngor Cwricwlwm Cymru 1992*
Pecyn fideo am gymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Mae'r rhaglenni'n ceisio denu pobl ifanc i gymryd rhan mewn dadleuon a thrafodaethau ar bynciau cymdeithasol, gwleidyddol a moesol a'u hannog i feddwl yn feirniadol am eu profiad eu hunain.

**DEVELOPING LIFE SKILLS**
*Russell House Publishing 1998*
Llawlyfr adnoddau dysgu a ddatblygwyd i alluogi hyfforddwyr i helpu i oedolion ac oedolion ifanc i ystyried eu datblygiad personol a datblygu eu sgiliau byw.

**DISCOVERIES**
*YWCA 1992*
Gêm, fwy addas i grwpiau mewn oed ac oedolion, sy'n ymchwilio i faterion llosg ac sy'n hybu trafodaeth er mwyn helpu pobl i ddeall mwy amdanynt eu hunain ac eraill. Mae'r adrannau'n cynnwys: Beth a gredaf i/Beth yw eich barn chi/Pwy ydw i /Pwy yw fy ffrind/cymydog/teulu.



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

**EXPLORING FEELINGS**
*National Youth Agency 2001*
Casgliad o weithgareddau, taflenni a gemau addysg gymdeithasol i'w defnyddio gyda phobl ifanc 9-13 oed sydd mewn risg o gael eu gwahardd o'r ysgol neu eu dadrithio ganddi. Mae'n ymdrin ag ystod o faterion llosg megis bwlio a phwysiau gan gyfoedion.

**LEARNING FOR LIFE**
*Duke of Edinburgh's Award*
Arweiniad i athrawon i'r cynllun Gwobr Dug Caeredin. Mae'n cynnwys: trefnu'r wobr mewn ysgolion, asesu, gwerthuso a'r buddiannau i bobl ifanc ac ysgolion sy'n dilyn y wobr.

**LIFESKILLS AND LIFESTYLES**
*Passada Software 2001*
CD Rom rhyngweithiol i helpu defnyddwyr i reoli eu bywydau eu hunain ac ymdrin ag ystod o broblemau pob dydd. Mae 'Lifeskills' yn cynnwys hunan-barch, bwyta'n iach, gweithio/dysgu, straen meddwl. Mae 'Lifestyles' yn cynnwys alcohol, cyffuriau, rhyw a threfnu arian.

**LINKING UP**
*Urdd/YMCA 1993*
Pecyn adnoddau sy'n cynnig golwg ymarferol ar fynd i'r afael â'r cwestiynau cymdeithasol a diwylliannol sy'n codi yng ngorllewin Cymru yn sgil y mewnlifiad yn yr 1980au. Mae'n cynnwys gemau/ymarferion/prosiectau ar gyfer gwaith ar hunaniaeth bersonol, gymunedol, gymdeithasol a chenedlaethol.

**LIVING WITH RISK GAME**
*Daniels Publishing 1990*
Mae'r gêm hon (ar ffurf llyfr) yn edrych ar y risgiau sy'n wynebu pawb ohonom, yn enwedig risg damweiniau, diet, clefydau, yfed, cyffuriau, meddyginiaeth, hamdden, smygu, trafnidiaeth a thrais yn y cartref a'r gweithle.

**MOUNTAINEERING**
*Family Pastimes 1989*
Gêm antur gydweithredol yn seiliedig a fynydda. Mae'r chwaraewyr yn ymffurfio yn dîm, yn rhannu offer ac yn cynllunio strategaethau i ddringo'r mynydd. Gellir ei chwarae gan bobl gyda galluoedd gwahanol. Ar gyfer 2 i 6 o chwaraewyr 7 oed a throsodd.

**PEOPLE SKILLS FOR YOUNG ADULTS.**
*Chalkface Project 2002*
Ysgrifennwyd hwn i helpu pobl ifanc gydag anawsterau dysgu cymedrol ac mae'n ffocysu ar ddatblygu cyfathrebu hyderus mewn pob math o sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae'n addas ar gyfer gwaith mewn grwpiau ac am hybu trafod.

**PSHE AND CITIZENSHIP**
*Evans Brothers 2001*
Adnodd ymarferol ar gyfer ABCh a Dinasyddiaeth. Mae'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1. Rhaglen strwythuredig o weithgareddau y gellir eu llungopïo i hybu hunan-barch, Mae'n cynnwys:- cywir ac anghywir; diogelwch; hylendid personol; parchu gwahaniaethau.

**S.O.S.: A CO-OPERATIVE RESCUE GAME**
*Family Pastimes 2000*
Gêm achub ryngweithiol. Rhaid i'r chwaraewyr ffurfio tîm er mwyn achub cynifer o bobl â phosibl ag a allant o long. Ar gyfer 2 i 8 o chwaraewyr 10 oed a throsodd.

**STREETWISE**
*Daniels Publishing 1993*
Pecyn o ddeunyddiau y gellir eu llungopïo sy'n ystyried ystod o broblemau cymdeithasol a all fygwth lles corff a meddwl pobl ifanc, yn trafod trais ar y stryd a gangiau, cam-drin cyffuriau ac alcohol, cam-drin rhywiol a masnachol a digartrefedd.

**THE SOCIAL SKILLS GAME**
*Jessica Kingsley Publishers 1996*
Gêm fwrdd therapiwtig ar gyfer pobl ifanc sy'n cael trafferth i gynnal perthynas (e.e. gyda'u cyfoedion). Mae'r pynciau'n trafod pam, eich adnabod eich hun, cyfathrebu a bod yn bendant trwy drafod, gêmau a chwarae rôl.

**THE SPOTLIGHT BUNDLE**
*Save the Children 1996*
Casgliad o'r pum rhifyn cyntaf o 'spotlight', yn cynnwys syniadau am weithgareddau deunyddiau hybu i annog pobl ifanc i drafod a myfyrio ar bynciau cyfredol. Mae'r pynciau'n cynnwys teuluoedd, gwrthdaro a dinasyddiaeth.

**TIME ZONE**
*The Scout Association 1993*
Casgliad o syniadau am raglenni ar faterion cymdeithasol a moesol ar gyfer Sgowtiaid Antur. Mae'n ceisio helpu pobl ifanc i ymchwilio eu hagweddau eu hunain tuag at iechyd, anghenion cymdeithasol, perthnasoedd ac arian.

**TOGETHER**
*Family Pastimes 1971*
Gêm efelychu gydweithredol lle mae'r grŵp yn cydweithio i ddatrys problemau byd-eang a phersonol trwy drafod. Ar gyfer 6 i 36 o chwaraewyr rhwng 8 a 12 oed. O Ganada.

## International / Youth Exchanges

**CONTACT: A HANDBOOK FOR COMMONWEALTH YOUTH EXCHANGE**
*Commonwealth Youth Exchange Council*
Yn ceisio cynorthwyo trefnwyr profiadol a newydd teithiau cyfnewid ieuenctid. Bydd yn ategu cyhoeddiadau cyfredol am deithiau cyfnewid trwy ffocysu ar rai o'r ystyriaethau arbennig sy'n ymhlyg mewn teithiau o'r fath gyda gwledydd yn y Gymanwlad sy'n datblygu.

**CROSSING FRONTIERS**
*Commonwealth Youth Exchange*
Pecyn ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy'n paratoi pobl ifanc ar gyfer teithiau cyfnewid ieuenctid tramor. Cyn ymdrin â'r rhesymau dros deithio, gwahaniaethau diwylliannol, herio rhagdybiaethau ac elfennau datblygiad. Yn cynnwys ymarferion a thudalennau y gellir eu llungopïo.

**EURONET YOUTH RESOURCES IN INTERNET**
*The Basement in Nelson / SCAS*
CD Rom sy'n cynnig arweiniad i'r adnoddau ieuenctid rhyngwladol sydd ar gael ar y rhyngrwyd. Cyhoeddwyd mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas Celf Gyfrifiadurol Myfyrwyr (SCAS), Bwlgaria. Mae'n cynnwys cyfleoedd i astudio a gweithio, cyllid, hamdden, rheoli prosiectau ieuenctid a chyngor ar yrfaoedd.

**INTERNATIONAL EXCHANGES TRAINING PACK**
*Scottish Community Education Council 1988*
Pecyn gwybodaeth am drefnu teithiau cyfnewid ieuenctid. Yn cynnwys arweiniad cam-wrth-gam, poster, fideos a llyfryn adnoddau

**READY STEADY GO**
*Commonwealth Youth Exchange Council 1999*
Gêm fwrdd a ddyfeisiwyd gan bobl ifanc mewn cynhadledd teithiau cyfnewid ieuenctid i'r Gymanwlad. Y bwriad yw dysgu chwaraewyr am y paratoadau angenrheidiol wrth deithio a chyfnewid, megis pasport, fisa, tocynnau, codi arian.

**SCHOOL TRAVEL AND EXCHANGE**
*Central Bureau for Educational Visits and Exchange 1983*
Arweiniad i rieni, athrawon ac arweinwyr ieuenctid sy'n rhestru gweithgareddau addysg ac antur byd-eang ar gyfer rhai 8-18 oed. Mae'n cynnig cyngor hefyd ar gynllunio rhaglenni, teithio rhad ac awgrymiadau ar gyfer darpar arweinwyr grwpiau.

**YOUTH EXCHANGES: A TRAINING VIDEO**
*Youth Exchange Centre 1997*
Pecyn fideo sy'n dangos enghreifftiau o arfer da mewn pum gwlad yn y Gymanwlad ac y gellir ei ddefnyddio mewn perthynas â nodiadau i hyfforddwyr. Fe'i paratowyd mewn adrannau, yn cynnwys: Cyn cyfnewid, wrth gyfnewid, problem? pa broblem? ar ôl cyfnewid.

# IECHYD

Mae'r adran hon yn cynnwys deunydd sy'n addas ar gyfer gweithgareddau eraill.

## Cleientiaid - Bechgyn/Dynion

**BOYSWORK TRAINING PACK**
*The B Team 1993*
Pecyn a gêm fwrdd i'w defnyddio fel cwrs hyfforddi mewnol gyda staff sy'n datblygu gwaith gyda dynion ifanc. Mae'n cynnwys pedwar sesiwn, dwy awr yr un, ac mae'n ceisio meithrin hyder gweithwyr o ran defnyddio adnoddau ac edrych ar rai o'r materion perthnasol.

**FATHERHOOD GAME AND PACK**
*Working With Men 1999*
Pecyn mewn dwy ran ar gyfer dynion ifanc 12-18 oed: Mae'n cynnwys y gêm ac 20 o ymarferion eraill a deunyddiau cwricwlwm y gellir eu defnyddio fel rhan o raglen ABCh. Mae'n trafod: rôl tadau; rhieni a rhywedd; hawliau a chyfrifoldebau; gofal plant.



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

**MANS WORLD: A GAME FOR YOUNG MEN**
*The B Team/Working With Men 1990*
Gêm fwrdd i helpu dynion ifanc i drafod eu teimladau, ehangu eu gwybodaeth, rhannu profiadau ac edrych ar wroldeb a'u hagwedd tuag at fod yn wryw.

**THE OPINION GAME**
*The B Team/ Working With Men 1990*
Gêm fwrdd ar gyfer dynion ifanc lle mae cardiau bwrdd yn cael eu gosod mewn continuwm ie/nage. Man cychwyn da i hybu trafod pynciau gwroldeb a rhywioldeb.

**WORK WITH YOUNG MEN**
*National Youth Agency 2003*
Casgliad o dros 60 o ymarferion i ennyn diddordeb dynion ifanc a'u cymell i ystyried materion yn cynnwys iechyd, pwysau gan gyfoedion a rheoli dicter. Gellir eu defnyddio'n ddethol neu eu haddasu ar gyfer gwahanol oedrannau a/neu alluoedd.

**YOUNG MEN'S BEST PRACTICE PROGRAMME**
*RPS Rainer*
Pecyn adnoddau o brosiect gan y Swyddfa Gartref i ddatblygu model cymorth ar gyfer dynion ifanc y gellir ei gysylltu â phrosiectau mentora. Y bwriad yw ymchwilio i ystyr bod yn wryw, hybu hunan-barch, herio ymddygiad anghymdeithasol a darparu modelau rôl.

## Merched/Menywod Ifanc

**GIRLS FIRST YOUTH WORK IN THE RHONDDA**
*Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Ieuenctid Cymru 1989*
Pecyn gyda fideo 35 munud a nodiadau hyfforddi yn y ddwy iaith. Fe'i datblygwyd fel rhan o'r fenter 15+ yn y Rhondda i wella a datblygu gwaith ieuenctid gyda merched a menywod ifanc.

**THIS IS WHO WE ARE - AND THIS IS WHAT WE WANT**
*Youth Clubs UK 1994*
Fideo 30 munud yn sôn am dri phrosiect gwahanol sydd wedi datblygu ar y berthynas draddodiadol rhwng gweithwyr a defnyddwyr. Mae menywod ifanc yn adnabod ac yn cael ateb eu hanghenion ochr yn ochr â gweithwyr gan ennill hyder a hunan-barch.

**TIME OF THE MONTH**
*NAYC*
Gêm fwrdd i annog a galluogi menywod ifanc i ddysgu gwybodaeth a rhannu barnau am y mislif. Mae'n cynnwys cwestiynau ac atebion a chanllawiau ar gyfer trafod.

## Sgiliau Cyfathrebu - Trafod

**GETTING THROUGH: YOUNG PEOPLE AND COMMUNICATION**
*TSA 1998*
Dyluniwyd y pecyn fideo hwn i'w ddefnyddio gyda rhai 14-18 oed a'i nod yw hybu trafodaeth ar gyfathrebu, gan bwysleisio pa mor bwysig yw cyd-destun a pherthynas i gyfathrebu effeithiol. Mae'n cynnwys ymarferion a sesiynau chwarae rôl.

**TALKING ABOUT TALKING**
*NAYC 1986*
Pecyn hyfforddi ar gyfer gweithwyr rhan-amser i hybu maint ac ansawdd siarad mewn clybiau ieuenctid gyda staff a phobl ifanc. Mae'n cynnwys cynlluniau cyfarfodydd, ymarferion trafod, cwestiynau ac awgrymiadau am hyd y gweithgareddau.

## Counselling

**FACE TO FACE**
*Citizens Advice Bureau 1985*
Fideo/ nodiadau i diwtoriaid ar sgiliau wyneb-yn-wyneb neu ryngbersonol. Bydd yn helpu gweithwyr ieuenctid i adnabod y teimladau a enynnir ynddynt gan bobl (ifanc) a'u dysgu sut i ymateb yn briodol i'w hemosiynau eu hunain a gallu helpu'r bobl hynny.

**FACE TO FACE 2**
*National Mentoring Network 2002*
Fideo ar gyfer mudiadau sy'n gweithio ar raglenni mentora yn y gymuned. Gellir ei ddefnyddio fel rhan o sesiwn hyfforddi gyda mentoriaid, fel offeryn cyhoeddusrwydd wrth recriwtio neu fel rhan o'r broses o baratoi pobl ifanc i dderbyn mentora.

**PERCEPTIONS: SOCIAL AWARENESS FOR ADVICE WORKERS**
*National Association of Citizen's Advice Bureaux 1985*
Fideo/nodiadau i diwtoriaid ar fywydau chwech o bobl a'u problemau sy'n ceisio annog ymwybyddiaeth gymdeithasol i'w trafod. Mae'r pynciau dan sylw yn cynnwys aflonyddu hiliol, gwrywgydiaeth, rhieni sengl ac anabledd.

**TAKE MY ADVICE**
*Citizens Advice Bureau 1985*
Fideo/nodiadau i diwtoriaid ar sgiliau wyneb-yn-wyneb neu ryngbersonol. Y nodau cyffredinol yw dangos pa mor effeithiol yw meithrin perthynas dda gyda'r 'cleient', a derbyn eu hemosiynau, ac amseru'r sesiwn fel y bydd yn ateb anghenion.

**TALK ABOUT TROUBLE**
*Citizens Advice Bureau 1985*
Fideo hyfforddi a nodiadau i diwtoriaid ar ddatblygu sgiliau rhyngbersonol a chwnsela. Fe'i bwriedir yn bennaf i ddarparu hyfforddiant sylfaenol er bod rhai adrannau, a nodwyd, yn fwy soffistigedig. Awgrymir dulliau hyfforddi hefyd.

## Datrys Problemau

**BRIDGING THE GAP**
*Leeds Animation Workshop*
Fideo cartn am anawsterau cyfathrebu rhwng rhieni a phlant yn eu harddegau. Mae'n dangos pobl o bob math o gefndir yn dygymod â sefyllfaoedd cyffredin. Mae'n ymdrin â phwysigrwydd gwrando, negodi a gweld safbwynt pobl eraill. 12 munud. Gyda llyfryn.

**DILEMMAS PACK**
*NYB*
Copïau lluosog o wyth astudiaeth achos yn trafod anawsterau pobl ifanc, gyda nodiadau ar gyfer arweinwyr grwpiau trafod.

**JUNIOR DILEMMAS: AN INTERACTIVE GAME AND RESOURCE**
*Daniels Publishing*
Adnodd yn trafod anawsterau realistig sydd o fewn profiad pob dydd plant, gan gynnig cyfle iddynt ymresymu am wahanol sefyllfaoedd. Y nod yw eu gwneud yn ymwybodol o'u gwerthoedd a'u cyfrifoldebau dros bobl eraill ac yn oddefgar tuag at werthoedd pobl eraill.

## Gwaith Grŵp

**ONCE UPON A GROUP: EXERCISES**
*4M Publications 1998*
Mae hwn yn ddilyniant i'r llyfr 'Once upon a Group', ac mae'r casgliad o ymarferion yn helpu grwpiau i ddysgu rhagor am sgiliau gweithio mewn grŵp. Canolbwynt yr ymarferion yw hybu cynhwysiant, defnyddio rheolaeth mewn grwpiau mewn ffordd greadigol, a datblygu ysbryd cyfeillgar.

## Chwarae Rôl

**'ROLE PLAY' PACK**
*NYB*
Copïau lluosog o bum sefyllfa chwarae rôl, gyda nodiadau ar eu defnyddio fel adnodd hyfforddi yn ffocysu ar bobl ifanc a gweithwyr ieuenctid.

**ON THE SPOT**
*Penguin 1986*
Dros gant o gwestiynau am sefyllfaoedd moesol i wneud i'r rhai sy'n cymryd rhan ailystyried eu hagweddau eu hunain.

## Materion Iechyd - Cyffredinol

**ACTING FOR HEALTH: DRUGS, SMOKING AND ALCOHOL MISUSE**
*Department of Health 1996*
Pecyn fideo ar alcohol, cyffuriau a smygu. Mae'n cynnwys cyflwyniad, arweiniad i athrawon a/neu weithwyr ieuenctid, arweiniad i rieni a deunydd cyfeirio.

**CANCER: THE ROUGH GUIDE**
*Rough Guides / Tenovus*
Fideo a llawlyfr sy'n ceisio chwalu mythau am ganser a galluogi pobl ifanc i gymryd camau i leihau'r risg. Mae'r fideo'n defnyddio'r un dull â'r rhaglenni teithio 'Rough Guide'. Ceir fersiwn Cymraeg o'r enw 'Canser: Bras Olwg'.

**THE ESSENCE BOARDGAME**
*Bread Youth Project 1995*
Gêm fwrdd i'w defnyddio gyda phobl ifanc h_n sy'n ymchwilio i wybodaeth ac agweddau tuag at HIV, iechyd rhywiol a chyffuriau. Trwy ateb cwestiynau a chyflawni tasgau mae'n rhaid i'r bobl ifanc gymryd cyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau.

**HEALTH EDUCATION GUIDANCE NOTES FOR YOUTH WORKERS**
*Kirklees Metropolitan Council 1991*
Dogfen arweiniad ar addysg iechyd ar gyfer gweithwyr ieuenctid. Fe'i bwriedir i'w ddefnyddio fel deunydd cyfeirio/gwybodaeth, ac fel arweiniad i gynllunio addysg iechyd i ganolfannau ieuenctid.



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

### HEALTH MATTERS
*Health Education Authority / National Extension College 1986*
Pecyn adnoddau YTS ar iechyd i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc. Mae'r pynciau'n cynnwys perthnasoedd, cyffuriau a straen meddwl. Ceir hefyd ymarferion, gêmau, llawlyfr a chyngor ar ymdrin â hylendid personol.

### HEALTH WORK THAT WORKS
*Youth Clubs UK 1990*
Dyma gasgliad o ymarferion a syniadau ymarferol, gan weithwyr ar y maes, y gellir eu defnyddio gyda grwpiau ieuenctid. Mae'r pynciau'n cynnwys iechyd amgylcheddol, ymarfer corff, hunanddelwedd, diet, alcohol, smygu, cyffuriau ac HIV/AIDS.

### HOW ARE YOU FEELING? A HEALTH PROMOTION RESOURCE FOR 9-13 YEAR OLDS
*The Woodcraft Folk 1994*
Cyfres o weithgareddau sy'n galluogi pobl ifanc i ystyried bod gyda'i gilydd, dicter a gwrthdaro, credoau a gwerthoedd, optimistiaeth, ennyn hunan-barch a rheoli straen meddwl.

### THE HEALTH PROMOTING SCHOOL IN WALES
*Cyngor Cwricwlwm Cymru 1994*
Arweiniad i'r cysyniad o'r ysgol sy'n hybu iechyd. Mae'n amlinellu gweithgareddau y gellir eu gwneud. Mae'r astudiaethau achos o bum ysgol yn cynnwys pynciau hunan-barch, agweddau amgylcheddol ar addysg iechyd, maetheg ac addysg ryw.

### FEELING GOOD
*Youth Clubs UK 1991*
Un mewn cyfres o chwe phecyn sbardun ar addysg iechyd. Mae'n edrych ar bwysigrwydd gofalu amdanom ein hunain, iechyd personol a hunanymwybyddiaeth. Mae'n cynnwys syniadau am weithgareddau, taflenni gwaith, pecyn o ffotograffau, gêm fwrdd a rhestr o adnoddau.

### IN, UP, OUT AND AROUND
*Youth Clubs UK 1991*
Un mewn cyfres o chwe phecyn sbardun ar addysg iechyd. Mae hwn yn ein annog i edrych ar yr hyn yr ydym ni'n ei roi yn ein cyrff. Mae'n cynnwys syniadau am weithgareddau, taflenni gwaith, pecyn o ffotograffau, gêm fwrdd a rhestr o adnoddau.

### KNOW YOUR POISON
*BBC Cymru*
Fideo ar leihau risgiau mewn perthynas â chyffuriau. Mae'n cynnwys chwe rhaglen 15 munud yr un ar y canlynol: baco, tawelyddion, opiadau, symbylyddion, cyffuriau dawns a rhithyddion, a chanabis.

## Smygu

### HOOKED
*Cancer Research Compaign 1988*
Anelir y gêm fwrdd hon at bobl ifanc 9+ oed. Ei nod yw helpu chwaraewyr i ystyried iechyd a materion eraill a godir gan smygu mewn ffordd sy'n hwyl.

### SMOKE SCREEN
*Smoke Screen 2002*
Pecyn adnoddau sy'n defnyddio cyfathrebu rhwng cyfoedion i dynnu sylw at beryglon smygu. Mae'n cynnwys fideo o bum ffilm fer a wnaed gan bobl ifanc. Mae'n trafod agweddau cymdeithasol, grym hysbysebu a rhoi'r gorau i smygu.

### SMOKING TOBACCO: HEALTH MATTERS
*Axis Education 2002*
Pecyn adnoddau sgiliau sylfaenol ar smygu. Mae'n trafod y diwydiant baco, smygu a iechyd, costau smygu a rhoi'r gorau iddo. Mae'n cynnwys taflenni gwaith y gellir eu llungopïo. Rhan o'r gyfres sgiliau sylfaenol 'Health Matters'.

## Alcohol

### A SNAPSHOT OF ALCOHOL
*Hybu Iechyd Cymru, TACADE 1993*
Pecyn o ffotograffau dwyieithog ar gyfer gweithwyr ieuenctid yn cynnwys 15 ffoto o bobl ifanc mewn sefyllfaoedd lle mae alcohol ar gael. Mae pob llun yn cynnwys cwestiynau 'sbardun i hybu trafod. Mae'n cynnwys hefyd lyfryn gwybodaeth a rhestr o asiantaethau cymorth perthnasol.

### ALCOHOL AWARENESS: HEALTH MATTERS
*Axis Education 2002*
Pecyn adnoddau sgiliau sylfaenol am alcohol a'i effaith ar y gymuned. Mae'n cynnwys alcohol a'r gyfraith, prynu alcohol, gyrru ac yfed, ac yfed problemus. Ceir taflenni gwaith y gellir eu llungopïo. Rhan o'r gyfres sgiliau byw sylfaenol 'Health Matters'.

### ALCOHOL: WHAT DO YOU KNOW
*Tacade 1988*
Dwy set o 48 o gardiau - set o gardiau Gwir/Ffug, a set o atebion. Fe'u hanelir at bobl dros 13 oed ac oedolion, gan roi cyfle i hyd at 20 o bobl chwarae.

### AN ACQUIRED TASTE
*NAYC*
Fideo 15 munud sy'n rhoi sbardun i drafod materion yn ymwneud ag alcohol wrth i bobl ifanc leisio barn. Nid yw'n cynnig barn ac eithrio bod yfed gormodol yn annymunol a dinistriol.

### C2H5OH? PUPIL WORKBOOK
*Health Promotion Wales 1993*
Llyfr gwaith ar gyfer rhai 10-12 oed sy'n trafod alcohol. Mae'n cynnwys gweithgareddau a chwestiynau sbardun. Mae'n trafod effeithiau biolegol a chymdeithasol alcohol ac yn ymdrin â phwysau gan oedolion.

### DRINKDEAL CARD GAME
*Tacade 1999*
Gêm gardiau ar gyfer pobl ifanc 12+ oed sy'n cynnig dull gwerthfawr o ysgogi trafodaeth a chodi ymwybyddiaeth o alcohol.

### HAVE A GOOD TIME
*Alpha Films 2002*
Fideo a ddatblygwyd gan ddau gyn-alcoholydd yn gweithio gyda phobl ifanc. Mae'n ddrama am noson allan sy'n mynd o chwith oherwydd yfed. Gellir atal y saith golygfa i'w trafod. Ceir arweiniad i'r cyflwynydd. Hyd 23 munud.

### PSST... THE REALLY USEFUL GUIDE TO ALCOHOL
*HPAW 1991*
Pecyn gwybodaeth am alcohol yn cynnwys wyth rhaglen fer ar fideo (yn para 5-9 munud yr un), cerdyn gwaith i ddisgyblion ar gyfer pob rhaglen a nodiadau athrawon.

## Cyffuriau

### ART WORKS VISUAL ART RESOURCE PACK
*d2 Digital by Design/Bolton Drug Action Team 1998*
Pecyn adnoddau ar gelf sy'n defnyddio amrediad o weithgareddau fel moddion i ymchwilio i ystod o faterion yn ymwneud â chyffuriau. Mae'n cynnwys gwneud masgiau, pypedau, printiau a ffotogramau.

### BASIC DRUG FACTS CARD GAME
*Healthwise*
Gêm gardiau sy'n cynnig gwybodaeth sylfaenol am gyffuriau ond heb amlhau geiriau. Mae'n cynnwys lluniau lliw o'r cyffuriau dan sylw. Gellir ei chwarae gan hyd at saith o bobl.

### BILLY AND THE BIG D-CISION
*Information PLUS 2001*
Gêm gyfrifiadurol ryngweithiol sy'n ymchwilio i'r opsiynau a'r canlyniadau wrth gymryd cyffuriau. Mae'r 18 o sefyllfaoedd yn gofyn am benderfyniadau ac mae 15 o ganlyniadau posibl. Ystod oedran 6-13 oed.

### DRUGDEAL CARD GAME
*Tacade 2000*
Adnodd hyblyg addas i rai 14+ oed. Ei nod yw atgyfnerthu eu gwybodaeth gyfredol am gyffuriau yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth newydd. Mae'n cynnwys pedwar categori o gardiau: Cyffuriau, Effeithiau; Rheoli'r Risgiau; Ffeithiau Cyfreithiol.

### DRUGS - A FAMILY MATTER: VIDEO AND GROUP LEADER GUIDANCE MATERIALS (1)
*Department of Health 1994*
Bwriedir y pecyn hwn i'w ddefnyddio gan arweinydd grŵp sydd am redeg sesiwn ar gyfer rhieni neu bobl eraill sy'n pryderu am gyffuriau. Y nod yw hybu trafodaeth a chodi ymwybyddiaeth o gyffuriau a bod yn rhieni.

### DRUGS WHAT DO YOU KNOW
*Tacade 1986*
Dwy set o 48 o gardiau - set o gardiau Gwir/Ffug, a set o atebion. Fe'u hanelir at blant hn ac oedolion, gan roi cyfle i hyd at 20 o bobl chwarae.

### DRUGS: A SIMPLE CHOICE?
*Alpha Films 2002*
Fideo o gyfweliadau gyda thri pherson ifanc sy'n defnyddio cyffuriau. 4 adran: Pam cymryd cyffuriau?; Beth yw'r risg, heblaw caethiwed?; Pa broblemau sydd gan bobl oherwydd cyffuriau?; Beth fydd eu dyfodol?. Llyfryn hefyd, 18 munud.

### DRUGS: AN ACTIVITY PACK FOR YOUTH WORKERS
*NYA 1993*
Detholiad cryno o weithgareddau ymarferol yn seiliedig ar gyffuriau y gellir eu defnyddio gyda phobl ifanc o bob oed a gallu. Mae'n cynnwys cardiau gweithgareddau a gosodiadau a chwarae

Adran 6.7

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

rôl, gwybodaeth gefndir a gwybodaeth gyfreithiol, a rhestr o enwau cyswllt ac adnoddau.

**ECSTASY AND DRUG USE IN THE 90'S**
*Daniels Publishing 1992*
Mae'r pecyn adnoddau hwn y gellir ei lungopïo yn darparu gwybodaeth am gyffuriau cyffredin megis ecstasi, LSD, ac amffetaminau. Mae'n cynnwys hefyd ymarferion, gweithgareddau a thaflenni gwaith a geiriadur cyffuriau.

**EXPERIMENT 22**
*D2 2001*
CD Rom rhyngweithiol am gyffuriau mewn dwy ran: gêm ryngweithiol yn seiliedig ar gymorth gan gyfoedion; a gwybodaeth am 17 o gyffuriau, cwestiynau cyffredin, y gyfraith a'r heddlu, geirfa ac adran ar gyfer rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

**FORMING A DRUGS POLICY**
*Daniels / Folens 1996*
Pecyn adnoddau i helpu ysgolion i lunio polisi ar gyffuriau. Mae'r pynciau'n cynnwys adolygu'r polisi cyffuriau cyfredol, gweithio gyda staff, pobl ifanc, rhieni a llywodraethwyr, rheoli digwyddiadau yn ymwneud â chyffuriau, a fframwaith ar gyfer addysg am gyffuriau.

**HIT 'N' MISS THAT DRUGS GAME**
*Blueprint Products 1999*
Gêm addysgol ryngweithiol ar gyfer pobl ifanc 13+ oed, gyda'r nod o godi eu hymwybyddiaeth o berygl potensial cyffuriau a sylweddau eraill.

**KNOW THE SCORE! A DRUGS AWARENESS PACK FOR YOUNG PEOPLE**
*Clwb Ffermwyr Ifanc Maldwyn 1998*
Pecyn dwyieithog ar gyfer pobl ifanc, yn cynnwys ffeithiau a ffigurau am gyffuriau, storïau go-iawn, tudalen problemau a rhifau cyswllt defnyddiol.

**KNOW THE SCORE! YOUTH-TO-YOUTH DRUG EDUCATION**
*Youth Clubs UK 1999*
Llawlyfr am addysg gyffuriau gan gyfoedion mewn pum rhan: cryfderau a heriadau addysg gyffuriau gan gyfoedion; cynllun rhaglen addysg gan gyfoedion; gweithgareddau i hyfforddi addysgwyr cyfoedion; gweithgareddau y gall addysgwyr cyfoedion eu defnyddio; a braslun o ddau brosiect o'r fath.

**LOCATING DRUG EDUCATION**
*TACADE 1988*
Pecyn adnoddau i annog timau staff i asesu grwpiau o bobl ifanc ac ystyried buddiannau aelodau grwpiau er mwyn datblygu rhaglen addysg am gyffuriau sy'n diwallu eu hanghenion.

**PLEASE KEEP OFF THE GRASS**
*Gweithredu Ieuenctid Gwent 2001*
Fideo addysg am gyffuriau yn targedu pobl ifanc ym mlwyddyn 9 yn yr ysgol gyfun. Mae'n ystyried materion a phryderon mewn perthynas â chanabis. Yn para am 20 munud.

**RAISING THE ISSUES**
*TACADE*
Pecyn addysg alcohol/cyffuriau sy'n defnyddio dull trawsgwricwlaidd. Yn ceisio helpu pobl ifanc i ddeall dylanwadau allanol ar gymryd cyffuriau, i ddatblygu eu dealltwriaeth o gyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon ac i ystyried effeithiau eu defnyddio.

**SIMPLY DRUGS**
*Healthwise*
Pecyn adnoddau ar addysg cyffuriau i'w ddefnyddio yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Bwriedir defnyddio'r pecyn gyda phobl ifanc sydd heb sgiliau darllen ac ysgrifennu da iawn.

**THE BIG DRUG EDUCATION ACTIVITIES PACK**
*Healthwise 2003*
Casgliad o dros 80 weithgareddau addysg gyffuriau i'w defnyddio gyda phobl ifanc 11-18 oed a gweithwyr proffesiynol wrth hyfforddi. Mae'n cynnwys agweddau a gwerthoedd, gwybodaeth am gyffuriau, y gyfraith, asesu a rheoli cyffuriau a chymorth cyntaf.

**THINK! INFORM! DECIDE!**
*TACADE 1989*
Cyfres o gardiau yn dangos sefyllfaoedd yn ymwneud â chyffuriau sy'n gofyn i ddysgwyr feddwl am y ffordd briodol o ymddwyn. Mae'n cynnwys ffotograffau, llythyrau am broblemau, cartwnau a dywediadau.

**UNDERSTANDING DRUGS: HEALTH MATTERS**
*Axis Education 2002*
Pecyn adnoddau sgiliau sylfaenol am gyffuriau a'u heffeithiau. Mae'n cynnwys: cyffuriau a'r gyfraith, HIV, problemau gyda chyffuriau a byw gyda rhywun sy'n eu defnyddio. Rhan o'r gyfres sgiliau sylfaenol 'Health Matters'.

**XOTERIC**
*Educari 2002*
Rhaglen gyfrifiadurol ryngweithiol am gyffuriau lle mae'r chwaraewyr yn ymchwilio i gyffuriau, eu sgil-effeithiau a'r rhesymau pam maent yn cael eu cam-drin. Ymdrinnir hefyd â baco, meddyginiaeth a sylweddau eraill. Ar gyfer pobl ifanc 10-14 oed a throsodd.

## Solvents

**SOLVENT ABUSE A TRAINING MANUAL FOR PROFESSIONALS**
*Health Education Council*
I'w ddefnyddio wrth hyfforddi gweithwyr proffesiynol a gwirfoddol mewn gwaith ieuenctid. Gellir ei addasu i'w ddefnyddio gyda rhieni a phobl ifanc. Mae'n ystyried ac yn egluro agweddau tuag at gam-drin sylweddau.

## Addysg Rhyw

**CHALLENGING HOMOPHOBIA**
*fpa Scotland 2003*
Pecyn hyfforddi ar fideo ar gyfer gweithwyr ieuenctid a gweithwyr proffesiynol eraill sydd am ddeall a herio homoffobia.

**CONFIDENTIALITY: A TRAINING MANUAL FOR THOSE PROVIDING SEX ADVICE TO YOUNG PEOPLE**
*Brook 2001*
Adnodd hyfforddi am gyfrinachedd cleientiaid ar gyfer rhai sy'n darparu cyngor ar ryw i bobl ifanc. Mae'n ymdrin â datblygu polisi, hyfforddiant a chyfarwyddyd i hyfforddwyr. Mae'n cynnwys taflenni gwaith y gellir eu llungopïo ac ymarferion ar astudiaethau achos.

**CONTRACEPTION BOARD GAME**
*Contraception Education 2001*
Adnodd am ryw a pherthnasoedd a luniwyd i alluogi pobl ifanc i fod yn bendant ac i leisio eu hanghenion a'u dymuniadau mewn ffordd gadarnhaol. Fe'i hanelir at yr ystod oedran 11-18 oed.

**CONTRACEPTION CARD GAME**
*Healthwise*
Gêm gardiau sy'n rhoi gwybodaeth sylfaenol am atal cenhedlu. Mae'n cynnwys lluniau lliw o wahanol offer atal cenhedlu. Gellir ei chwarae gan hyd at 6 o bobl.

**CONTRACEPTION IN PERSONAL RELATIONSHIPS RESOURCE PACK**
*Brook Advisory Centres 1992*
Pecyn adnoddau am atal cenhedlu. Mae'n cynnwys defnyddiau y gellir eu llungopïo, llawlyfr hyfforddi a thaflenni.

**HIV RISKY BUSINESS**
*Children With Aids Charity (CWAC) 2000*
Fideo am ymwybyddiaeth o ryw ddiogel ar gyfer yr ystod oedran 12-15 oed. Mae'n chwalu mythau am HIV ac yn dysgu pobl ifanc sut i'w diogelu eu hunain.

**JASON'S PRIVATE WORLD**
*Life Support Productions 2001*
Pecyn fideo cartn i'w ddefnyddio gyda dynion ifanc sydd ag anawsterau dysgu. Mae'n cynnwys ymdriniaeth fanwl â materion iechyd a rhyw. Mae'r llyfryn yn cynnwys cyflwyniad, nodiadau ar y fideo a rhestr o adnoddau. 20 munud..

**KYLIE'S PRIVATE WORLD**
*Life Support Publications 2001*
Pecyn fideo cartn i'w ddefnyddio gyda menywod ifanc sydd ag anawsterau dysgu. Mae'n cynnwys ymdriniaeth fanwl â materion iechyd rhyw a phersonol. Mae'r llyfryn yn cynnwys cyflwyniad, nodiadau ar y fideo a rhestr o adnoddau. 25 munud.

**LIVING PROOF: A VIDEO ABOUT SEXUAL AND SOCIAL IDENTITY**
*North Derbyshire Health Authority 1999*
Fideo a phecyn dysgu yn ymwneud â hunaniaeth rywiol a chymdeithasol. Fe'i bwriedir ar gyfer pobl ifanc 12 i 16 oed. Mae'n ystyried pynciau megis homoffobia, unigedd cymdeithasol, pwysau gan gyfoedion, gwroldeb, dod allan, amrywiaeth a rhagfarn.

**ROLLERCOASTER**
*Sheffield Centre for HIV and Sexual Health 2002*
Gêm i helpu'r ystod oedran 9-13 oed i ddysgu am rywioldeb. Mae'n cynnwys cyfres o ymarferion rhyngweithiol ynghyd â thaflenni ffeithiau am newidiadau corfforol, newid hwyl a theimladau.

**SAFE AND SOUND**
*Healthwise 1999*
Pecyn adnoddau am ryw a pherthnasoedd. Mae'n cynnwys dros 130 o weithgareddau i'w defnyddio gyda phobl ifanc, gweithdai hyfforddi i staff, nodiadau ar gynllunio rhaglen, cyfarwyddyd ar gynorthwyo pobl ifanc a datblygu polisi.



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

**SEXANGLE: THE SEX AND RELATIONSHIP EDUCATION TRAINING GAME**
*Youth Work Press 1999*
Gêm fwrdd i annog hyfforddwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc i ymateb yn effeithiol i bynciau rhyw a pherthnasoedd. Fe'i bwriedir i'w ddefnyddio yn y cyfarfod staff i weithwyr ond gellir ei ddefnyddio hefyd gan bobl ifanc fel rhan o brosiect cyfoedion.

**SEXPLOITATION**
*Larst Again Ltd 1997*
Gêm fwrdd addysgol i hybu ymwybyddiaeth o iechyd rhyw.

**THE WEIRD AND WONDERFUL WORLD OF BILLY BALLGREEDY**
*FPA 2001*
Pecyn addysg ryw, yn cynnwys fideo a deunydd ategol, i'w ddefnyddio gyda menywod ifanc. Mae'r fideo yn cynnwys pobl ifanc yn sôn am eu profiadau o safbwyntiau heterorywiol a hoyw.

**THE YOUTH SERVICE SEX AND RELATIONSHIPS EDUCATION TRAINING PROGRAMME**
*Youth Work Press 1999*
Pecyn sy'n darparu cwrs hyfforddi cynhwysfawr i hyfforddwyr gwaith ieuenctid ar gyfer gweithwyr ieuenctid rhan-amser a gwirfoddol i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau addysg ryw a pherthnasoedd gyda phobl ifanc. Mae'n cynnwys deg modiwl.

**WORKING WITH YOUNG PEOPLE: A TRAINING PACK FOR SEX ADVICE CENTRES**
*Brook 2002*
Pecyn hyfforddi ar gyfer mudiadau sy'n cynnig cyngor ar ryw i bobl ifanc. Mae'n defnyddio gweithdai i ymdrin â chyfrinachedd, cynhwysiant a hygyrchedd. Mae'n cynnwys cynllun gweithredu ac atodiadau ar gyfrinachedd a gwybodaeth ddefnyddiol.

**YOU, YOUR BODY AND SEX**
*Life Support Publications 2001*
Pecyn fideo cartn i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu. Mae'n ystyried materion rhyw a iechyd. Mae'r llyfryn yn cynnwys cyflwyniad, nodiadau ar y fideo a rhestr o adnoddau. 15 munud.

**SEX, AIDS AND VIDEOTAPE: RESOURCES BY YOUNG PEOPLE, FOR YOUNG PEOPLE**
*Big Deal Community Drama/Mid Glamorgan 1992*
Adnodd rhyngweithiol, yn cynnwys fideo 30 munud, sy'n edrych ar gymryd cyfrifoldeb am eich iechyd a'ch rhywioldeb mewn sefyllfaoedd cyffredin. Rhannwyd y pecyn mewn tair adran: Penderfyniadau, Trafodaethau a Datblygiadau.

**THE GRAPEVINE GAME**
*Youth Work Press 1991*
Anelir y gêm fwrdd at bobl ifanc dros 12 oed. Mae'n defnyddio cyfuniad o gardiau ffaith a ffantasi i greu awyrgylch yn y grŵp lle mae gan bobl ryddid i holi, i addef ofnau a thrafod materion yn fwy agored.

**THE TWO OF US: SEX AND SEXUALITY**
*Youth Clubs UK 1990*
Un mewn cyfres o chwe phecyn sbardun ar ryw a pherthnasoedd. Mae'n cynnwys syniadau am weithgareddau, taflenni gwaith, pecyn o ffotograffau, gêm fwrdd a rhestr o adnoddau.

## Clefydau Rhywiol (STIs)

**A YOUNG PERSON'S GUIDE TO STDS: WARTS AND ALL**
*Frenchay Healthcare NHS Trust 1996 .*
Fideo 23 munud a nodiadau athrawon am drosglwyddo, trin ac atal clefydau rhywiol.

**AIDS EDUCATION RESOURCE AND HIV SIMULATION GAME**
*Daniels Publishing 1992*
Pecyn o ddefnyddiau y gellir eu llungopïo sy'n efelychu lledaeniad HIV a chyfres o ymarferion eraill er mwyn trafod ymddygiad mewn perthynas ag HIV/AIDS.

**AIDS WORKING WITH YOUNG PEOPLE (1990)**
*AVERT 1990*
Pecyn hyfforddi sy'n ymdrin â risgiau HIV mewn perthynas â defnyddio cyffuriau ac ymddygiad rhywiol. Mae'n egluro gweithgareddau ac ymarferion i grwpiau sy'n galluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau rhesymegol ar sail gwybodaeth.

**AIDS WORKING WITH YOUNG PEOPLE (1993)**
*Avert 1993*
Pecyn hyfforddi diwygiedig ac estynedig sy'n ymdrin â risgiau HIV mewn perthynas â defnyddio cyffuriau ac ymddygiad rhywiol. Mae'n egluro gweithgareddau ac ymarferion i grwpiau sy'n galluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau rhesymegol ar sail gwybodaeth.

**HEALTHY LIVING: AIDS EDUCATION**
*The Girl Guides Association (Scotland) 1991*
Fideo, pecyn ffeithiau a thaflenni gweithgareddau a luniwyd i'w defnyddio gydag arweinwyr Geidiaid sydd am gyflwyno pwnc AIDS yn eu hunedau. Trefnir y gweithgareddau yn ôl oedran.

**PEER EDUCATION AND HIV PREVENTION**
*London Arts Board - Cultural Partnerships 1995*
Pecyn fideo sy'n egluro dulliau o weithio gyda phobl ifanc ar ystod o bynciau HIV gan ddefnyddio technegau addysg gan gyfoedion trwy ddrama, fideo, cerddoriaeth, cyhoeddi pen-desg a ffotograffau mewn gweithdai.

**WHOSE PROBLEM?**
*Wandsworth Health Promotion Services 1990*
Fideo sbardun 24 munud a llawlyfr i godi ymwybyddiaeth o'r agweddau emosiynol ac ymddygiadol ar addysg am HIV/AIDS. Mae'n adrodd hanes rhywun 16 oed y mae ei fam yn sâl yn yr ysbyty gydag AIDS ac ymateb y bobl o'i gwmpas.

**YOU CAN'T BE SERIOUS!**
*Youth Clubs UK 1997*
Llawlyfr am iechyd rhywiol ar gyfer rhai sy'n aelodau o grŵp addysg gan gyfoedion sefydlog. Mae'n cynnwys: cyfarwyddyd ar rôl addysgwyr cyfoedion, gwybodaeth gefndir am addysg rywiol, gweithgareddau addysg gan gyfoedion ac astudiaeth achos.

## Trais yn y Cartref

**BEHIND CLOSED DOORS**
*NCH Action for Children 1997*
Fideo 14 munud, gyda thaflenni gwaith, i godi ymwybyddiaeth o drais yn y cartref a'i effaith ar fenywod a phlant. Y nod yw annog pobl ifanc i feddwl am effeithiau trais yn y cartref ac am y materion sydd y tu ôl iddo.

**CHILDREN AND DOMESTIC VIOLENCE**
*1998*
Fideo i godi ymwybyddiaeth o drais yn y cartref a'i effaith ar blant a'r teulu. Mae dau berson yn sôn yn galonnog am eu profiadau yn cael eu magu mewn cartrefi lle'r oedd trais. Mae'n annog pobl i feddwl am y materion pwysig.

## Iechyd Meddwl

**A RESOURCE BANK ON ACTIONS: "SHOULD I - SHOULDN'T I"**
*Youth Clubs UK 2000*
Un o'r pum llyfr yn y gyfres 'Mind Matters', sy'n cynnig gwybodaeth ymarferol am faterion iechyd meddwl. Mae'n cynnwys gweithgareddau i helpu pobl ifanc i ddeall pwysau gan gyfoedion, tra'n datblygu sgiliau i wrthsefyll ymddwyn mewn ffyrdd dieisiau.

**CHANGE YOUR MINDSET: AN ACTIVITY PACK FOR YOUTH GROUPS ABOUT DISCRIMINATION**
*Mind Out For Mental Health 2001*
Pecyn gweithgareddau ar gyfer grwpiau ieuenctid i hybu trafodaeth ar iechyd meddwl. Mae'n cynnwys ystod o naw o weithgareddau, wyth taflen ffeithiau ar faterion iechyd meddwl a rhestr gynhwysfawr o gyfeiriadau cyswllt.

**CHANGING MINDS**
*Royal College of Psychiatrists 2003*
CD Rom ar faterion iechyd meddwl, i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc 13-17 oed. Mae'r adrannau'n cynnwys caethiwed, sgitsoffrenia, iselder, straen meddwl ac anhwylderau bwyta. Yn cynnwys fideo, offer clywedol a thestunau.

**SUPPORTING PARENTS TO RAISE HEALTHY YOUNG MINDS**
*Young Minds 2001*
Pecyn ar iechyd meddwl i helpu gweithwyr ieuenctid ac athrawon i ymateb mewn ffordd gyfrinachol ac i ymdrin ag anawsterau yngln â phreifatrwydd a chyfrinachedd. Mae'n trafod bwlio, iselder, cam-drin a phroblemau bwyta.

## Camdriniaeth

**BELIEVE ME**
*Leeds Animation Workshop 2002*
Cartn fideo sy'n edrych ar brofiadau ac effeithiau camdriniaeth rywiol ar fywydau pump o bobl ifanc mewn ffordd gadarnhaol a synhwyrol. Fe'i bwriedir i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc 9-13 oed a'i ddefnyddio fel adnodd hyfforddi gan oedolion. 12 munud.

**THINGS WE DON'T TALK ABOUT**
*Barnados 2000*
Pecyn i'w ddefnyddio gyda merched a menywod am berthnasoedd lle mae cam-drin rhywiol. Mae'r rhan gyntaf yn edrych ar risgiau. Mae rhan 2 yn edrych ar



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

berthnasoedd lle mae cam-drin ac yn diffinio perthnasoedd cariadus. Mae rhan 3 yn edrych ar roi a derbyn cymorth. Fideo a thâp sain.

## Bwlio

### A POSITIVE APPROACH TO BULLYING
*Longman 1992*
Mae'r pecyn hyfforddi hwn yn darparu diwrnod o ymarferion a thrafod ar gyfer gweithdy lle mae plant a phobl ifanc yn ystyried bwlio er mwyn datblygu strategaethau atal ac ymateb.

### COPING WITH BULLYING
*SMS Multimedia 1999*
Adnodd gwybodaeth am fwlio ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd. Mae'n cynnwys adrannau i ddisgyblion, athrawon/llywodraethwyr a rhieni. Rhoddir pwyslais ar atal, a chynhwysir strategaethau atal profedig. Rhif 1 yn y gyfres 'Rotary, Coping with Life'.

### IT'S GOOD TO TALK: ANTI-BULLYING PROGRAMME FOR SCHOOLS
*CVT 2001*
Fideo a llyfryn am fwlio, ar gyfer pobl ifanc 10-14 oed. Mae'n edrych ar fathau o fwlio ac yn awgrymu strategaethau. Fe'u cynhyrchwyd gan ddisgyblion ysgolion cyfun fel rhan o bolisi gwrth-fwlio.

### LET'S CELEBRATE OUR DIFFERENCES: AN ANTI-BULLYING STRATEGY FOR YOUTH WORKERS
*Children's Work Fund 1996*
Yn annog gweithwyr ieuenctid i herio bwlio. Mae'n cynnwys gweithdai ar gyfer gweithwyr ieuenctid, rhieni a phlant ynghyd â thaflenni a gweithgareddau i bob gweithgaredd. Mae'n cynnig cyngor hefyd ar ddatblygu polisi ac arferion gwrth-fwlio.

### TACKLING BULLYING
*Cities in Schools*
Llawlyfr o ddefnyddiau i annog syniadau am weithgareddau fel y gall pobl ifanc ystyried cyd-destun bwlio.

### THE ACTION GAME
*Children's Work Fund 1997*
Gêm wrth-fwlio a ddyfeisiwyd yn wreiddiol ar gyfer Prosiect Gwrth-fwlio Craigroyston, Jacqui Morton (gol).

## Profedigaeth

### A RESOURCE BANK ON LOSS AND GRIEF: "IT HURTS"
*Youth Clubs UK 1999*
Un o bum llyfr yn y gyfres 'Mind Matters'. Mae'n cynnig gwybodaeth ymarferol am faterion iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc. Mae'n cynnwys gweithgareddau i helpu pobl ifanc i ymchwilio i golled a gofid a delio â'u teimladau.

### DEALING WITH BEREAVEMENT: A CURRICULUM PACK FOR YOUTH WORKERS
*Youth Work Press 1995*
Pecyn i helpu gweithwyr ieuenctid i alluogi pobl ifanc i ymchwilio i'w teimladau am brofedigaeth a cholled. Mae'n trafod seicoleg profedigaeth a gwahaniaethau crefyddol a diwylliannol. Mae'n cynnig canllawiau ymarferol ac yn cynnwys 10 o ymarferion i grwpiau.

### GRIEF IN THE FAMILY
*Leeds Animation Workshop 2002*
Fideo a llyfryn sy'n edrych ar sut mae plant a phobl ifanc yn ymateb i ofid, ei effeithiau corfforol ac emosiynol a sut y gall rhieni a chynhalwyr eraill helpu. Mae'n dangos teuluoedd o sawl cefndir yn dygymod â phrofedigaeth. 14 munud.

## Eating Disorders

### GIMME 5
*Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru 2003*
CD Rom dwyieithog am fwyta iach ar gyfer pobl ifanc.

### IT'S NOT ABOUT FOOD, IT'S ABOUT FEELINGS
*Eating Disorders Association 2002*
Pecyn adnoddau a fideo i helpu gweithwyr ieuenctid ac athrawon i ymateb i anhwylderau bwyta. Mae'n trafod diffiniadau, achosion a chanlyniadau anhwylderau bwyta, sut mae eu trin a'u gwella. Mae'n cynnwys taflenni y gellir eu llungopïo ac arweiniad i adnoddau.

## Hunan-barch

### A RESOURCE BANK ON SELF-ESTEEM: "WHAT IF ?"
*Youth Clubs UK 2000*
Un yn y gyfres o bum llyfr 'Mind Matters', mae hwn yn cynnig gwybodaeth ymarferol am faterion iechyd meddwl. Mae'n cynnwys gweithgareddau i helpu pobl ifanc i ystyried cwestiynau sy'n effeithio ar eu teimladau amdanynt eu hunain ac i ddysgu sgiliau i wella eu hunan-barch.

### LOOKING GLASS: A POSITIVE COMMUNICATION WORKBOOK
*Russell House Publishing 2002*
Llawlyfr ymarferol ar ddatblygu perthnasoedd buddiol, wedi'i anelu at ferched a menywod ifanc. Mae'n cynnwys gweithgareddau i helpu meithrin hyder, hunanfynegiant a gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. Mae'n cynnwys 8 sesiwn a nodiadau cyfarwyddyd.

### TALK WITH TEENS ABOUT FEELINGS, FAMILY, RELATIONSHIPS AND THE FUTURE
*Free Spirit Publishing 1995*
Casgliad o 50 o drafodaethau dan gyfarwyddyd ar faterion megis hunanymwybyddiaeth, hunan-barch, deall/mynegi teimladau a rheoli bywyd. Addas ar gyfer rhai yn eu harddegau gan gynnwys rhai sy'n tangyflawni a rhai sydd mewn perygl o gefnu ar addysg.

## Stress

### A RESOURCE BANK ON STRESS: "LIFE'S HASSLES"
*Youth Clubs UK 1999*
Un yn y gyfres o bum llyfr 'Mind Matters'. Mae hwn yn cynnig gwybodaeth ymarferol am faterion iechyd meddwl. Mae'n cynnwys gweithgareddau i helpu pobl ifanc i adnabod y gwahanol fathau o straen sy'n effeithio ar eu bywydau ac i ddatblygu dulliau cadarnhaol o ymdopi.

### BREATHING SPACE
*Carel Press / Arc Theatre in 2002*
Pecyn fideo ar gyfer gwaith gyda rhai 14-18 oed am bwysigrwydd trafod teimladau anodd. Mae'n cynnwys materion megis iselder a straen meddwl, unigedd, ac yn gwneud awgrymiadau am ymarferion a gweithgareddau i grwpiau.

### RELAXATION AND STRESS
*Youth Clubs UK 1991*
Un mewn set o chwe phecyn sbardun ar addysg iechyd. Mae hwn yn ystyried straen meddwl a strategaethau ymdopi. Mae'n cynnwys syniadau am weithgareddau, taflenni, pecyn o ffotograffau, gêm fwrdd a rhestr o adnoddau.

## Gyfraith a Deddfwriaeth

### THE BLOKE'S OWN PAPER
*Samaritans 2000*
Llyfryn yn null cylchgrawn Viz sy'n anelu at gymell dynion ifanc i sôn am eu teimladau mewn perthynas â straen meddwl a phryder. Mae'n defnyddio dull llawn hiwmor o ymdrin â sefyllfaoedd anodd. Mae'n cynnwys sylwadau gan y drymiwr Phil Selway a'r comedïwr Sean Hughes. Rhestr o enwau cyswllt.

## Hyfforddiant mewn Pendantrwydd

### ASSERTION AND HOW TO TRAIN OURSELVES
*CETU 1990*
Pecyn o ddefnyddiau parod yn cynnwys taflenni, siartiau wal ac ymarferion i helpu gweithwyr ieuenctid i gynllunio a rhedeg cwrs hyfforddi ar bendantrwydd. Gall hwn amrywio o gwrs blasu undydd i raglen gyfan yn para am wyth wythnos.

### HELPING OTHERS TO LEARN: SELF DEVELOPMENT FOR OCCASIONAL TRAINERS
*Youth Clubs UK 1989*
Bwriedir y pecyn hwn ar gyfer 'hyfforddwyr achlysurol' i gyflymu'r broses ddysgu. Mae'n ystyried egwyddorion i seilio hyfforddiant arnynt yn ogystal â chanllawiau ymarferol ar bob cam wrth gynnal digwyddiad. Mae'n cynnwys enghreifftiau a rhestrau gwirio.

### THE POSITIVE APPROACH: ASSERTIVENESS TRAINING FOR 14-17 YEAR OLDS
*Careers Research and Advisory Centre 1990*
Llawlyfr hyfforddi yn cynnwys gweithgareddau ac ymarferion. Mae'r adrannau'n trafod ystyr pendantrwydd, hunan-hyder, rhoi a derbyn beirniadaeth, dweud na, cyfathrebu a swnio'n bendant.

## Perthnasoedd

### 'IMPRESSIONS' PACK: MARRIAGE AND DIVORCE
*National Youth Bureau*
Dyluniwyd i helpu pobl ifanc i fynegi eu barn. Mae pob pecyn yn cynnwys dalennau o dorion papur newydd, dalennau eraill yn gofyn cwestiynau am y torion a rhestr ddarllen sylweddol.



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

### A RESOURCE BANK ON RELATIONSHIPS: "WORK IT OUT!"
*Youth Clubs UK 1999*
Un o bum llyfr yn y gyfres 'Mind Matters', yn cynnig gwybodaeth ymarferol am faterion iechyd meddwl. Mae'n cynnwys gweithgareddau i helpu pobl ifanc i ystyried y gwahanol berthnasoedd sydd ganddynt a sut i fwynhau perthynas gadarnhaol ac onest gydag eraill.

### ALL ABOUT ME (VIDEO)
*First Independent 1991*
Fideo 40 munud sy'n ystyried rhyw a datblygiad personol mewn ffordd eglur. Fe'i hanelir at rai 8-16 oed ac mae'n edrych ar y newidiadau corfforol ac emosiynol wrth aeddfedu.

### COPING WITH FAMILY CHANGE
*SMS Multimedia 2000*
CD Rom i helpu plant a'u teuluoedd i ymdopi â newidiadau trawmatig yn y teulu ac â'r straen cysylltiedig. Mae'n cynnwys adrannau ar gyfer plant, teuluoedd ac athrawon/llywodraethwyr. Yr ail raglen yn y gyfres 'Rotary, Coping with Life'.

### FAMILY ALBUM: PHOTOS AND ACTIVITIES TO EXPLORE FAMILY ISSUES
*Tide 2001*
Pecyn yn cynnwys set o 32 o ffotograffau lliw yn dangos teuluoedd mewn pob math o sefyllfaoedd. Bwriedir iddo ategu gwaith ar strwythur teuluoedd, stereoteipiau, rolïau, perthnasoedd a materion eraill yn ymwneud â dinasyddiaeth. Ceir llyfr cyfarwyddyd hefyd.

### LET'S TALK RELATIONSHIPS
*National Youth Agency 2001*
Casgliad o 90 o adnoddau profedig i annog pobl ifanc i drafod materion, teimladau a pherthnasoedd sensitif.

### LIVING IN HARMONY
*CEDC 1999*
Fideo yn cynnwys 30 o sgetsys sbardun i hybu trafod ar faterion teuluol a rhieni. Y nod yw helpu athrawon i gyflwyno themâu i'w trafod yn y dosbarth, pobl ifanc i ystyried perthnasoedd, bywyd teuluol a phrofiadau rhieni.

### PARENTS AND TEENAGERS
*Open University 1982*
Datblygiad pobl yn eu harddegau a sut y gall rhieni feithrin eu hyder a'u gwybodaeth eu hunain. Mae'n darparu cyfarwyddyd i weithwyr ieuenctid ar ddefnyddio'r pecyn, sut y gellir ei ddefnyddio mewn grwpiau. Mae'n cynnwys tapiau sain, fideo a 60 o bynciau mewn 9 pennod.

### RELATIONSHIP AND INTIMACY PHOTOPACK
*Working With Men 1999*
Pecyn o 44 o ffotograffau du a gwyn yn adlewyrchu ystod eang o berthnasoedd, gan gynnwys teulu, ffrindiau, trais, rhyw. Gellir ei ddefnyddio gyda phobl ifanc 14+ oed mewn ystod o amgylchiadau gwaith grŵp.

### TEEN RELATIONSHIPS CARD GAME
*Wellness Reproductions and Publishing Inc 2001*
Gêm gardiau i ddatblygu sgiliau ar gyfer perthnasoedd iach ac osgoi trais yn y cartref. Gellir ei defnyddio gyda grwpiau neu unigolion ac ar y cyd â'r 'Teen Relationships Workbook'.

### THE RELATIONSHIP GAME
*'Working With Men 1998*
Gêm fwrdd a phecyn o ddefnyddiau cwricwlwm sy'n ceisio galluogi pobl ifanc 14+ oed i ddatblygu ymwybyddiaeth a sgiliau wrth negodi rolïau a chyfrifoldebau mewn perthynas.

### YOU, ME AND US
*Youth Clubs UK 1991*
Un mewn set o chwe phecyn sbardun addysg iechyd. Mae hwn yn ystyried gwahanol fathau o berthynas trwy ein bywydau. Mae'n cynnwys syniadau am weithgareddau, taflenni gwaith, pecyn o ffotograffau, gêm fwrdd a rhestr o adnoddau.

## Beichiogi / Bod yn Rhieni

### CENSORED! PERSONAL RELATIONSHIPS MATERIALS
*British Youth Council 1987*
Pecyn i'w ddefnyddio gan a chyda phobl ifanc. Mae'n cynnwys ymarferion trafod, chwarae rôl, cwis a thaflenni dyfyniadau am y gyfraith, cenhedlu, clefydau rhywiol ac AIDS, a syniadau am weithredu ac ymgyrchu.

### EDUCATION FOR PARENTHOOD
*The Children's Society 1988*
Anelir y pecyn hwn at ysgolion yn bennaf. Mae'n cynnwys pum uned y gellir eu llungopïo yn trafod: ystyr bod yn rhiant, anghenion rhieni. Perthynas rhieni a phlant, hawliau a chyfrifoldebau, ac iechyd a datblygiad. Arweiniad i athrawon yn gynwysedig.

### EDUCATION FOR PARENTHOOD: TEACHERS' GUIDE TO DELIVERING PARENTHOOD EDUCATION
*The Children's Society 1988*
Yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i ysgolion sydd am gyflwyno addysg rieni i'r cwricwlwm. Ar sail profiad athrawon o ddefnyddio'r pecyn, mae'n amlinellu cynlluniau gwaith cyffrous ac ymarferol ar gyfer disgyblion 14-18 oed.

### IN AT THE DEEP END: Y.ME?
*Young Mums Educating 1999*
Fideo a phecyn gwaith am realiti bywyd fel rhiant ifanc. Fe'i hanelir at rai 13-16 ac mae'n trafod materion megis atal cenhedlu, perthnasoedd, cyllid, llety. Mae'n cynnig golwg gytbwys i alluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau am fod yn rhieni ar sail gwybodaeth.

### PROMOTING POSITIVE PARENTING
*Swansea Drugs Project 2002*
Pecyn ar gyfer gweithwyr mewn asiantaethau yn y gymuned neu mewn prosiectau cyffuriau sy'n gweithio gyda rhieni sydd naill ai'n defnyddio cyffuriau neu sydd wedi gwneud hynny yn ddiweddar. Mae'n cynnwys arweiniad ar sefydlu grŵp, cyfrinachedd, goruchwylio a chymorth.

### THE PARENTING PUZZLE: HOW TO GET THE BEST OUT OF FAMILY LIFE
*Family Links 2003*
Arweiniad i brofiadau rhieni sy'n canolbwyntio ar feithrin a lles emosiynol. Mae'n cynnwys dulliau ymarferol o arwain plant fel y gallant ddysgu ymdrin â'u teimladau a'u hymddygiad. Mae'n seiliedig ar y rhaglen Family Links sy'n para am 10 wythnos.

### TIPS: TRIED AND TESTED IDEAS FOR PARENT EDUCATION AND SUPPORT
*Russell House Publishing 2000*
Llawlyfr ymarferol ar gyfer rhai sy'n darparu addysg am brofiadau rhieni. Mae'n pwysleisio negodi gyda rhieni i drafod cynnwys y dysgu. Yn cynnwys gwybodaeth gefndir, cychwyn a rhedeg rhaglen, achredu, diogelu plant ac adnoddau.

### THE GAP
*Young Voice 2002*
Drama i helpu rhieni i gynorthwyo pobl ifanc sy'n gwneud penderfyniadau, yn dewis opsiynau ac yn symud tuag at fyw yn annibynnol. Rhannwyd y ddrama yn dair rhan, a gellir stopio'r fideo i'w trafod. Llyfryn atodol. 17munud.

### TOO MUCH TOO YOUNG: BOOK AND VIDEO
*YMG Trust 1992*
Fideo a llyfryn lle mae rhieni ifanc yn disgrifio'u bywydau er mwyn galluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau am eu hymddygiad eu hunain ar sail gwybodaeth.

## Anghydfod / Ymddygiad Heriol

### CONFLICT RESOLUTION BINGO AND ACTIVITIES
*Mar*co Products Inc 1995*
Gêm yn seiliedig ar raglen mewn saith rhan i ddysgu sgiliau datrys anghydfod. Mae'n cynnwys taflenni gweithgareddau y gellir eu llungopïo ar gyfer pob uned.

### RESOLVING CONFLICT VIDEO PACK
*Team Video*
Fideo a llyfr ymarferion. Mae'n ystyried sefyllfaoedd lle mae pobl ifanc yn wynebu bygythiad/ffaith trais mewn ystod o amgylchiadau megis yr ysgol/stryd/cartref/ clwb ayb. Mae'n cynnwys astudiaethau achos ac awgrymiadau ymarferol ar ymdrin ag anghydfod.

### THE ANGER WORKOUT BOOK FOR TEENS
*Jalmar Press 2002*
Llyfr ymarferion ar gyfer rhai sy'n helpu pobl ifanc i fynegi eu dicter ac i ddysgu sgiliau rheoli dicter gan ddefnyddio dulliau dysgu amrywiol. Mae'n cynnwys gweithgareddau dysgu ymarferol a thros 40 o daflenni gwaith y gellir eu llungopïo.

### WORKING IT OUT: A HANDBOOK FOR VIOLENCE PREVENTION IN WORK WITH YOUNG PEOPLE
Llawlyfr sy'n cynnwys: diffiniadau ac achosion trais, llunio polisi, ac ymyrryd mewn anghydfodau. Mae'n cynnwys 27 o weithgareddau i fudiadau yn seiliedig ar brofiadau yn yr Almaen, Awstria, De Affrica.

## Gamblo

### BANDIT BOARDGAME
*Jukebox Cafe 1992*
Gêm fwrdd a ddyfeisiwyd gan griw o bobl ifanc i alluogi eu cyfoedion i ymchwilio i farnau, agweddau a ffeithiau mewn perthynas â chwarae ar beiriannau ffrwythau a gweithgareddau eraill lle mae risg.



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Chwaraeon

Mae'r adran hon yn cynnwys deunydd sy'n addas ar gyfer gweithgareddau eraill.

## Cyffredinol - Cwricwlwm

### HAVE YOU EVER?
*National Youth Agency 2000*
Casgliad o adnoddau a gweithgareddau wedi'u bwriadu'n arbennig ar gyfer gweithwyr ieuenctid deoledig. Mae'n cynnwys sesiynau torri'r garw, gweithgareddau a gêmau, prosiectau, gwerthuso ac arferion diogel yn y gweithle.

### YOUTH CURRICULUM RESOURCE PACK
*SEELB, N Ireland 1994*
Pecyn i gynorthwyo gyda datblygu cwricwlwm gwasanaeth ieuenctid Gogledd Iwerddon. Mae'n diffinio pob rhan o'r cwricwlwm; gwerth pob rhan; mae'n annog dilyniant a chysylltu rhannau, ac yn adnabod adnoddau a ffynonellau cymorth.

### YOUTH WORK: A MODEL FOR EFFECTIVE PRACTICE (2003 ED)
*Curriculum Development Unit, Youth Work N.I. 2003*
Canllawiau ar ddarparu'r cwricwlwm i wasanaeth ieuenctid Gogledd Iwerddon. Mae'n cynnwys egwyddorion craidd y cwricwlwm, fframwaith rhaglen, gwerthuso gwaith ieuenctid a datblygu staff.

### YOUTH WORK THAT WORKS
*NAYC 1986*
Lluniwyd hwn i helpu gweithwyr ieuenctid sydd am ddatblygu ac ehangu gwaith eu clybiau. Mae'n cynnwys syniadau a ddefnyddiwyd mewn clybiau a phrosiectau ac a ysgrifennwyd wedyn gan y bobl a'u defnyddiodd.

### YOUTH WORK THAT WORKS II
*Youth Clubs UK 1991*
Mae'n cynnwys rhyw 40 o syniadau dan bedwar pen - iechyd a'r amgylchedd, ymwybyddiaeth, celf a rheoli. Gweithgareddau profedig yw'r rhain sy'n cynnig enghreifftiau o arfer da, ac a ysgrifennwyd gan y bobl sydd wedi gwneud y gwaith.

## Chwaraeon a Gêmau

### EARTH BALLS: THE ESSENTIAL USERS MANUAL
*Children's Work Fund 1994*
Arweiniad i gêmau gyda pheli daear. Mae'n cynnwys y cefndir i ddatblygu peli daear, 14 o gêmau, cyngor ar ddiogelwch, syniadau cynnal a chadw rhestr o gyflenwyr.

### GAMES
*Boys' Brigade Resource Centre 1985*
Llyfryn yn amlinellu nifer o gêmau addas i'w defnyddio gyda grwpiau iau.

### GAMES, GAMES, GAMES
*The Woodcraft Folk 1989*
Dros 200 o gêmau cydweithredol ar gyfer gwahanol oedrannau, wedi'u rhannu yn ôl pwnc ac oedran. Yn cynnwys gêmau enwau, egnïol, cylch, amgylcheddol, drama, ymddiriedaeth a pharasiwt.

### GAMESTERS HANDBOOK TWO
*Hutchinson 1987*
Casgliad o 89 o gêmau i ddatblygu hunanymwybyddiaeth, hyder, sgiliau penderfynu a phendantrwydd.

### GAMESTERS HANDBOOK: 140 GAMES FOR TEACHERS AND GROUPLEADERS
*Hutchinson 1983*
Casgliad o 140 o weithgareddau, ymarferion a strategaethau i ddatblygu hunanymwybyddiaeth, hyder, sgiliau penderfynu, ymddiriedaeth a phendantrwydd. Yn trafod offer, nodau, gweithdrefnau ac amrywiadau.

### GOLDEN HOURS: GAMES FOR GROUPS
*Russell House Publishing 2003*
Casgliad o 58 o gêmau ac ymarferion profedig. Nid oes angen offer arbennig i'r rhan fwyaf a gellir eu chwarae heb fawr o baratoi. Mae'r disgrifiadau o'r gêmau yn cynnwys pwrpas, maint delfrydol grwpiau, lefel y gweithgaredd, addasrwydd oedran a'r offer gofynnol.

### ICE-BREAKERS, ENERGISERS AND WARM-UPS: 2
*Tacade 1995*
Yr ail gyfrol mewn cyfres o dair yn cynnwys cyrsiau hyfforddi. Mae'n cynnig gweithgareddau ymarferol a all helpu hyfforddwyr ar wahanol adegau yn ystod cwrs hyfforddi i fywiogi aelodau'r grŵp neu i ddod i'w hadnabod yn well.

### ICE-BREAKERS, ENERGISERS AND WARM-UPS:1
*Tacade 1991*
Y gyfrol gyntaf mewn cyfres o dair yn cynnwys cyrsiau hyfforddi. Mae'n cynnig gweithgareddau ymarferol a all helpu hyfforddwyr ar wahanol adegau yn ystod cwrs hyfforddi i fywiogi aelodau'r grŵp neu i ddod i'w hadnabod yn well.

### ICE-BREAKERS, ENERGISERS, WARM-UPS AND CLOSING:3
*Tacade 1998*
Y drydedd gyfrol mewn cyfres o dair yn cynnwys cyrsiau hyfforddi. Ogystal â gweithgareddau ymarferol i alluogi rhai sy'n cymryd rhan i deimlo'n esmwyth, mae'n cynnwys gweithgareddau i'w defnyddio wrth gloi cwrs hyfforddi.

### NEW GAMES: PLAY HARD, PLAY FAIR, NOBODY HURT
*SCAN 1986*
Taflen yn amlinellu gêmau enwau, ymddiriedaeth, cylch, grwpiau mawr, peli a pharasiwt.

### PLAYFUL SELF-DISCOVERY
*Findhorn Press 1996*
Llawlyfr ymarferol ar gyfer pobl sy'n arwain grwpiau neu sy'n cymryd rhan mewn grwpiau. Mae'n cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer 67 o ymarferion a gêmau sy'n meithrin ymddiriedaeth mewn grwpiau newydd a sefydlog.

### QUICKSILVER: ADVENTURE GAMES, INITIATIVE PROBLEMS TRUST ACTIVITIES AND A GUIDE TO EFFECTIVE LEADERSHIP
*Incentive Plus 1995*
Casgliad o gêmau antur, problemau menter a gweithgareddau ymddiried, ynghyd â deunydd ar arweiniad effeithiol. Mae'n seiliedig ar y gred bod personoliaeth a hwyl wrth arwain yn bwysicach na gorfod a chyfundrefnu.

### THE ACCESSIBLE GAMES BOOK
*Jessica Kingsley 1999*
Casgliad o gêmau ar gyfer grwpiau cymysg gan gynnwys rhai â nam ar eu golwg neu eu clyw, rhai mewn cadeiriau olwyn a rhai ag anableddau cymysg. Gellir ei ddefnyddio i hybu ymwybyddiaeth o anabledd. Addas ar gyfer pob oedran a lefel gallu. Yn cynnwys cyfarwyddiadau llawn.

### THE HEALTH PROMOTING PLAYGROUND
*Health Promotion Wales 1994*
Yn cynnig gwybodaeth i ysgolion am sut i drefnu a nodi llinellau ar eu caeau chwarae trwy dynnu ar brofiad ysgol beilot. Mae'n awgrymu gêmau a gweithgareddau y gellir eu gwneud gyda'r marciau.

### THE NEW YOUTH GAMES BOOK
*Russell House Publishing Ltd 1994*
Yn cynnwys 200 o gêmau a gweithgareddau. Mae'n cynnwys gêmau perthynas; pyslau; sesiynau torri'r garw; gêmau teithio; smalio; gêmau masnachol; a gêmau ar gyfer plant iau.

### THE YOUTH GAMES BOOK
*I.T. Resource Centre 1985*

### WORLD YOUTH GAMES
*Russell House 1995*
Casgliad o gêmau ac ymarferion sy'n cynrychioli diwylliannau a thraddodiadau chwarae gwledydd ar draws y byd. Mae'n cynnwys gêmau bwrdd, pen-bwrdd, gweithredol a gêmau perthynas ac ymddiriedaeth.



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Geirfa Termau

Adran 7.0

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Geirfa

| | |
|---|---|
| ACCAC | Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu. Y corff ymgynghorol ar gwricwlwm ysgolion, asesiadau a chymwysterau galwedigaethol |
| Achredu (Achrededig) | Sicrhau bod y gweithgaredd a wneir yn derbyn rhyw gydnabyddiaeth allanol trwy gorff cydnabyddedig (gweler yr adran ar 'Dysgu Achrededig' |
| Cyswllt Ieuenctid (Cyswllt Cymru) | Y corff sy'n gyfrifol am deithiau Cyfnewid Ewropeaidd. Dyfernir grantiau os gellir bodloni amodau neilltuol. Gellir cysylltu â CIC am ragor o wybodaeth |
| Cymuned (Cymunedau) | Gall cymuned fod naill ai'n gymuned 'ddaearyddol' (grŵp o bobl yn byw mewn ardal) neu'n gymuned 'buddiannau' (grŵp o bobl sydd â nodwedd neu hunaniaeth gyffredin, megis cymunedau lleiafrifoedd ethnig). |
| Adfywhau Cymunedol | Y broses o fynd i'r afael â thlodi, prinder neu ddieithrwch cymdeithasol mewn ardal arbennig neu gyda grŵp neilltuol o bobl |
| CRB | Y Swyddfa Gofnodion Troseddau. Corff a sefydlwyd gan y llywodraeth i wirio unigolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc |
| Cwricwlwm | Y 'fwydlen' sydd ar gael i bobl ifanc sy'n mynychu eich clwb neu'ch prosiect. Bydd hwn yn cynnwys gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol |
| CWVYS | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol yw'r corff ambarél ar gyfer y sector ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru |
| CYWU | Undeb Gweithwyr Ieuenctid a Chymuned. Manylion cyswllt www.cywu.org.uk |
| ELWa | Mae'r corff hwn, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2001, yn gyfrifol am gynllunio a hyrwyddo addysg bellach, hyfforddiant yn y gweithle, addysg oedolion ac addysg barhaus a dosbarthiadau chweched dosbarth mewn ysgolion |
| ESTYN | Yn codi safonau gwaith mewn cyrff trwy arolygon |
| Ymestyn Hawliau | Dogfen y Cynulliad Cenedlaethol sy'n pennu ei gynllun ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc |



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

| | |
|---|---|
| Teithiau Cyfnewid Ieuenctid Ewropeaidd | Taith gyfnewid ddiwylliannol gyda gwlad arall yn Ewrop sy'n cynnwys ymweld a derbyn grŵp arall |
| Gwaith Ieuenctid Ewropeaidd | Gwaith a wneir gyda phobl ifanc sy'n cynnwys agwedd Ewropeaidd ac a all gynnwys taith gyfnewid |
| Dinasyddiaeth Fyd-eang | Mae hon yn helpu pobl ifanc i weld sut maent yn perthyn i'r gymuned fyd-eang gan roi cyfle iddynt edrych ar sut mae digwyddiadau yn y byd yn effeithio arnynt tra'n ystyried sut mae eu gweithrediadau yn effeithio ar bobl eraill ledled y byd. Hefyd, mae'n galluogi pobl ifanc i ddychmygu byd mwy cyfiawn, ac i weithredu o blaid newid |
| Gwaith Ieuenctid Byd-eang | Addysg anffurfiol sy'n cymryd profiadau beunyddiol pobl ifanc yn fan cychwyn i ddeall dylanwadau lleol a byd-eang gan annog gweithredu cadarnhaol dros newid. |
| JNC | Y Cyd-Bwyllgor Negodi i Weithwyr Ieuenctid a Chymuned. Mae'n gyfrifol am negodi telerau ac amodau cyflogaeth, gan gynnwys cyfraddau cyflogau, a chydnabyddiaeth i gymwysterau proffesiynol a ddilyswyd gan NYA neu Gyngor Ieuenctid Cymru, sy'n rhoi statws cydnabyddedig mewn gwaith ieuenctid a chymuned |
| NYA | Y Cyngor Ieuenctid Cenedlaethol. Yn gweithio yng Nghaerlyr i hybu gweithgareddau gwaith ieuenctid, yn enwedig yn Lloegr. Mae'n bosibl y bydd gweithwyr yng Nghymru am fanteisio ar ei adnoddau helaeth. www.nya.org.uk |
| RhCA | Y Rhwydwaith Coleg Agored. Gellir ennill achrediad trwy'r RhCA lleol. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhain ar wefan y Rhwydwaith Coleg Agored www.nocn.org.uk |
| Canlyniadau | Canlyniadau yw'r hyn y disgwylir ei gyflawni trwy'r gwaith a wnawn |
| Prif Swyddog Ieuenctid | Swyddog penodedig ym mhob awdurdod lleol sydd â chyfrifoldebau yn cynnwys y gwasanaeth ieuenctid |
| PYO | Persistent Young Offender |
| QCA | Yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm www.qca.org.uk |
| Cymwys | Fel arfer mae hwn yn cyfeirio at unrhyw un sydd â diploma neu gymhwyster cyfwerth mewn gwaith ieuenctid. Mae'r holl raglenni wedi'u cofrestru gyda'r JNC a'u rhestru yn y 'JNC Report for Youth and Community Workers'. |

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

| | |
|---|---|
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Ystyr hyn yw rhannu gwerthoedd cymdeithasol mewn ffordd deg a chyfartal, megis rhyddid, incwm a chyfoeth, a'r cyfle i gymryd rhan mewn cymdeithas |
| Ieuenctid y DU | Dyma un o'r elusennau gwaith ieuenctid cofrestredig mwyaf yn y DU a'i nod yw cynorthwyo a datblygu gwaith a chyfleoedd addysgol o ansawdd uchel i bobl ifanc. www.ukyouth.org Mae Ieuenctid Cymru'n gorff cysylltiedig â Ieuenctid y DU |
| Gwirio | Ymchwilio i gefndir staff, gan gynnwys gwirfoddolwyr, sydd mewn cysylltiad â phobl ifanc trwy'r Swyddfa Gofnodion Troseddau |
| CIC | Cyngor Ieuenctid Cymru. Mae swyddfa CIC yng Nghaerffili. Mae'n cynorthwyo mentrau gwaith ieuenctid yng Nghymru, ac mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys gweithio gyda Gwasanaethau Ieuenctid a hyfforddiant |
| POBL IFANC | Unrhyw un rhwng 11 – 25 oed. Mae'r ffocws mewn gwaith ieuenctid fel arfer ar yr ystod oedran 13 – 19 oed |
| Isadran Cyfranogiad Ieuenctid a Disgyblion | Y Tîm Polisi Ieuenctid gynt. Adran o Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n goruchwylio gweithredu Ymestyn Hawliau |
| PPI | Partneriaeth Pobl Ifanc. Ceir un ym mhob awdurdod (22) ac mae'r rhain yn gweithio tuag at y cynigion a geir yn Ymestyn Hawliau |
| Fforwm Ieuenctid (pwyllgor aelodau) | Grŵp o bobl ifanc sy'n dod at ei gilydd i drafod materion yn effeithio ar bobl ifanc. Caiff rhai fforymau eu hethol am eu bod yn cynrychioli buddiannau aelodau neilltuol ac mae eraill yn fwy agored. |
| Gwaith Ieuenctid | Dysgu anffurfiol, a gwaith datblygiad personol a chymdeithasol gyda phobl ifanc. Dylai pobl ifanc gymryd rhan ynddo o'u gwirfodd a gweithio tuag at gyflawni nodau'r Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid |



© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004

# Cyfeiriadau Cyswllt

**Cyngor Ieuenctid Cymru (CIC)**
Llys Leslie, Lôn-y-Llyn, Caerffili CF83 1BQ
☎ 029 2085 5700
✉ wya@wya.org.uk
www.wya.org.uk

**Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol**
Llys Leslie, Lôn-y-Llyn, Caerffili CF83 1BQ
☎ 029 2085 5722
✉ cwvys@wya.org.uk

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)**
Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH
☎ 0870 607 1666 (Desg Gymorth)
Minicom 029 2043 1702
✉ help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

**Uned Gofnodion Troseddau CGGC**
11-13 Ffordd Wynnstay, Bae Colwyn, Conwy LL29 8NB
☎ 0870 241 6557

**Draig Ffynci**
Frigate House, Quay West, Quay Parade, Abertawe SA1 1SR
☎ 01792 450000
✉ enquiries@funkydragon.org
www.funkydragon.org

**Canllaw-Online**
Ystafelloedd 5, Yr Octagon, Parc Busnes Caerffili, Heol Fan, Caerffili CF83 3ED
☎ 029 2088 7868
✉ enquiries@canllaw-online.com
www.canllaw-online.com

**Swyddfa Gofnodion Troseddau (CRB)**
Gwasanaethau Cwsmeriaid, CRB, PO Box 110, Liverpool L3 6ZZ
Llinell Ymholiadau: 0870 90 90 811
Llinell Gymraeg: 0870 90 90 223
Llinell Minicom: 0870 90 90 344
Llinell Geisiadau am Ddatgeliadau: 0870 90 90 844
Llinell Gofrestru: 0870 90 90 822
www.crb.gov.uk

**Y Cyngor Ieuenctid Cenedlaethol (NYA)**
17-23 Albion Street, Leicester LE1 6GD
☎ 0116 285 3700
Desg Ymholiadau 0116 285 3792
✉ nya@nya.org.uk
www.nya.org.uk
www.Youthinformation.com

**Cyswllt Ieuenctid**
Y Cyngor Prydeinig
☎ 020 7389 4030
Yng Nghymru: Cysyllter â Chyngor Ieuenctid Cymru
✉ connectyouth.enquiries@britishcouncil.org
www.britcoun.org

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2004